



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Codi'r Oed Cyfranogi i 18

Yr Athro Sue Maguire

Sefydliad Ymchwil Polisi, Prifysgol Caerfaddon
Chwefror 2021

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i sicrhau bod polisïau a gwasanaethau cyhoeddus gwell yn cael eu llunio a'u darparu drwy helpu gweinidogion ac arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a gweithredu tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr arweiniol ac arbenigwyr polisi i gyfuno a chrynhai tystiolaeth sy'n bodoli eisoes ac i adnabod bylchau lle bo angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos ag ymarferwyr a llunwyr polisïau i ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl am sut i ddelio â heriau strategol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae:

- Yn helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i adnabod, cyrchu a defnyddio tystiolaeth ddibynadwy ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisïau;
- Yn gweithio â gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio i roi sylw i heriau allweddol a geir yn yr economi a'r gymdeithas; ac
- Yn defnyddio'r gwaith a wna gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus, i hybu dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Drwy gyfrwng secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i ymgysylltu ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcppp.org.uk

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Lleolir Prifysgol Caerdydd mewn prifddinas ffyniannus ac mae'n uchelgeisiol, yn arloesol ac yn awyddus i feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn a dangos ei hymrwymiad i Gymru ar yr un pryd.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, ac yn sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y Deyrnas Unedig, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn gallu cyfrannu i'r eithaf ac i greu'r amgylchedd gorau er mwyn i ymchwil ac arloesi ffynnu.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru; mae'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

	4
Crynodeb Gweithredol	5
Cyflwyniad	11
Cyd-destun	11
Prif ganfyddiadau o adroddiad NfER's (2007)	12
Gweithredu i godi'r oed cyfranogi yn Lloegr	16
Tystiolaeth ehangach	21
Gadael ysgol yn gynnar (ESL)/ Gadael yn gynnar (EL)	34
Effeithiau codi'r oed cyfranogi yng Nghymru	41
Casgliadau	49
Argymhellion	55
Cyfeiriadau	57
Atodlen: Y Dull	65
Atodlen 2: Arweiniad i'r drafodaeth	67
Atodlen 3: Hyd addysg/hyfforddiant gorfodol yn Ewrop (2020/21)	72
Atodlen 4: Oed gadael ysgol ac oed cyflogaeth (OECD/EU)	74
Atodlen 5: Agweddau ar lwybrau hyblyg ac ar godi'r oed gadael ysgol gofynnol	77

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn asesu tystiolaeth o resymeg ac effeithiolrwydd codi'r oed cyfranogi (RPA) ym maes addysg a hyfforddiant i 18 oed yng Nghymru.
- Ceir lluo o dystiolaeth ryngwladol ar sail dadansoddiadau o ddata hanesyddol ar effaith codi'r oed gadael ysgol (ROSLA). Mae hyn yn awgrymu ei fod yn cael effaith gadarnhaol fechan ar ffigurau ennill cymwysterau, cyfraddau diweithdra ac enillion i'r dyfodol. Fodd bynnag, dadleuol yw'r effaith ar gyfraddau cadw mewn addysg ôl-16.
- Mae'r dystiolaeth o blith esiamplau o godi'r oed gadael ysgol mewn gwahanol wledydd yn nodi bod y gost yn fater allweddol y mae angen rhoi sylw iddo, ynghyd â'r amser sylweddol sydd ei angen i gynllunio sut i weithredu.
- Yn y blynyddoedd diwethaf, mae RPA wedi cynnwys dewis ehangach o opsiynau y tu hwnt i aros yn yr ysgol, gan gynnwys llwybrau hyfforddiant, gwaith â hyfforddiant, ynghyd â darpariaeth ddysgu amgen. Ceir gwersi defnyddiol ynglŷn â gweithredu a chyflawni o safbwynt cost, amseru a monitro effaith.
- Er bod hysbyswyr allweddol yng Nghymru yn cytuno bod pobl ifanc yn elwa o aros mewn addysg tan 18, ymateb llugoer a gafwyd ganddynt i'r syniad o weithredu RPA. Mynegwyd pryderon ynglŷn â sut byddai system orfodol yn cael ei gorfodi a'i heffaith ar bobl ifanc o blith grwpiau anodd eu helpu/anodd eu cyrraedd.
- Dywedwyd y byddent yn ffafrio gwella'r cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni drwy gynnig arlwy ôl-16 gwell a hygyrch ar draws Cymru.
- Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn cyfeirio at yr angen i hoelio'r ymdrechion ar annog pobl ifanc i ddal ati â'u dysgu a lleihau'r nifer sy'n gadael yn gynnar.
- Ar sail y dystiolaeth, manteision cyfyngedig fyddai RPA yn esgor arnynt i bobl ifanc sy'n ymgysylltu leiaf ag addysg. Gallai buddsoddi'n sylweddol a bod yn greadigol wrth ddatblygu pecynnau dysgu i fodloni eu hanghenion gael mwy o effaith.

Dyma rai o'r argymhellion:

- Canolbwyntio ar leihau'r cyfraddau gadael cyn gorffen a chyflwyno strategaeth i leihau'r cyfraddau gadael (yr ysgol) yn gynnar;
- Darparu arlwy ôl-16 cydlynol a chyson sy'n cyd-fynd ag amcanion y Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Cefnogi pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn gynnar a gwella eu mynediad i ddysgu parhaus; a
- Darparu cyllid parhaus ar gyfer cynlluniau atal ac ailintegreiddio wedi'u hanelu at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant.

Crynodeb Gweithredol

Diben yr adolygiad cyflym hwn o'r dystiolaeth oedd llywio'r gwaith o lunio polisi i'r dyfodol ar resymeg ac effeithiolrwydd codi'r oed cyfranogi (RPA) ym maes addysg a hyfforddiant i 18 oed yng Nghymru. Roedd yn cynnwys:

- Crynodeb o dystiolaeth o adolygiad a gynhaliwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NfER) yn 2007 i gefnogi'r gwaith o lunio polisi yn Lloegr ar yr RPA;
- Trosolwg ar weithredu'r RPA yn Lloegr yn ddiweddar;
- Adolygiad o dystiolaeth ryngwladol a gyhoeddwyd er 2007;
- Tystiolaeth gyhoeddedig ar adael (yr ysgol) yn gynnar; ac
- Adborth o gyfweiliadau a gynhaliwyd gyda nifer o hysbyswyr allweddol yng Nghymru.

Trosolwg ar y dystiolaeth

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae rhai gwledydd, gan gynnwys taleithiau yn Awstralia ac UDA, wedi codi'r oedi cyfranogi mewn dysgu, gan ddadlau y byddai gweithlu sydd wedi cymhwyso'n well yn gwella'r allbwn economaidd a'r perfformiad mewn marchnad economaidd sydd wedi globaleiddio fwyfwy. Mewn rhai achosion, cefnogwyd hyn gan agenda gynhwysiant, gydag ymrwymiad y byddai gorfodi unigolion ifanc i gyfranogi'n barhaus mewn addysg (neu hyfforddiant) am gyfnodau hwy yn helpu i leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd.

Diben adolygiad 2007 NfER ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd asesu'r dystiolaeth ar yr effaith, y manteision a'r heriau disgwyledig a geir yn sgîl RPA. Er iddo gyflwyno tystiolaeth am effeithiau cadarnhaol a geid o godi'r oed gadael ysgol (ROSLA) o ran gwell cyflogau a chyrhaeddiad cymwysterau addysgol, roedd swmp y dystiolaeth a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar fanteision ehangach dysgu ôl-16, yn hytrach nag yn cyflwyno dadl argyhoeddiadol dros orfodi. Hefyd, tra bo rhan sylweddol o'r adroddiad wedi'i neilltuo ar gyfer adnabod nodweddion pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) a phobl ifanc sydd mewn swyddi heb hyfforddiant, caiff y cwestiwn dyrys ynglŷn â sut bydd gweithredu'r RPA yn goresgyn eu rhwystrau rhag dysgu ei ddiystyru.

Yn Lloegr, deddfwyd yr RPA yn 2013 i gynnwys pawb sy'n 17 oed ac, yn 2015, fe'i hestynnwyd i bobl ifanc nes iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn 18. Er bod y cynigion gwreiddiol a ddisgrifiwyd yn bwriadu gwneud pobl ifanc nad ydynt yn cyfranogi mewn unrhyw fath o addysg a hyfforddiant ôl-16 yn droseddwyr (DfES, 2007), roedd diffyg

gorfodi o unrhyw fath ym mhroses y llywodraeth glymblaid o weithredu'r RPA, gan awgrymu felly ymrwymiad gwirfoddol ar ran pobl ifanc i gyfranogi (DfES, 2010). Cyn gweithredu'r RPA, cynhaliwyd nifer o dreialon ar draws Lloegr rhwng 2009 a 2013 i helpu awdurdodau lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant i baratoi ar gyfer y newidiadau. Ni wnaed gwerthusiad annibynnol i fesur effaith cyflwyno'r RPA yn genedlaethol.

Mae tystiolaeth ehangach am effaith ROSLA¹ yn dibynnu ar ddadansoddi data hanesyddol yn seiliedig ar newidiadau a gyflwynwyd sawl degawd yn ôl. Canfu Messacar ac Oreopoulos (2012) yn UDA, ymysg y rheini a oedd yn gweithio dros bum awr ar hugain yr wythnos, y cysylltwyd blwyddyn o addysg orfodol â chynnydd o 10.7% mewn enillion blyneddol. Cynhwysai'r sampl o bobl ugain i naw ar hugain oed a oedd yn un ar bymtheg oed rhwng 1970 a 2001. Dangosodd Avendano et al. (2020) fod codi'r oed gadael ysgol (ROSLA) yn 1972, pan godwyd yr oed ysgol statudol o 15 i 16, wedi cynyddu cyfran y bobl a enillodd Dystysgrif Addysg Uwchradd (CSE) ym Mhrydain Fawr 9.0 pwynt canran o linell sylfaen o 19.7%. Er bod y dystiolaeth yn dangos effaith gadarnhaol ar gyflogau a chymwysterau a enillwyd, rhaid rhoi hyn yng nghyd-destun yr amodau economaidd gwahanol a geid ar y pryd, ynghyd â'r cyfraddau llawer is o gymwysterau addysgol yr oedd pobl ifanc yn eu hennill.

Yn bwysig, gan ddefnyddio'r newidiadau diweddar yn amrywiol daleithiau UDA i'r oed gadael ysgol, amcangyfrifir bod pob blwyddyn o ysgol ychwanegol a gaiff myfyriwr yn gostwng y posibilrwydd y byddant yn ddi-waith 3.6 y cant; yn gostwng y tebygolrwydd y byddant ar fudd-daliadau lles 5.5 y cant; ac yn gostwng y tebygolrwydd y byddant yn byw o dan y llinell dlodi 8.1 y cant (Messacar ac Oreopoulos, 2012). Nid oes amcangyfrifon o effaith codi'r oed gadael ysgol gorfodol/oedran cyfranogi ar leihau cyfraddau NEET i'w cael yn y sylfaen dystiolaeth.

Yn fwy diweddar, mae newidiadau statudol i ymestyn yr oed dysgu wedi tueddu i ehangu'r dewis o opsiynau sydd ar agor i bobl ifanc. Er enghraifft, mewn rhai taleithiau yn America, Canada ac Awstralia, mae pobl ifanc yn gallu dewis addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth â hyfforddiant.

Er ei bod yn rhy gynnar, mewn sawl achos, i fesur effaith y diwygiadau hyn ar daflwybrau addysgol a chyflogaeth pobl ifanc, maent yn bwrw goleuni ar ystyriaethau cost a gweithredu. Er enghraifft, mae'r newidiadau yn aml yn digwydd yn rhy gyflym, ac ni roddir amser na chyllid digonol i ysgolion a darparwyr i baratoi ar gyfer gweithredu, gan gynnwys rheoli a bodloni anghenion grŵp dysgwyr llawer mwy

¹ Dylid gwahaniaethu rhwng codi'r oed gadael ysgol a newidiadau mwy diweddar mewn polisi sy'n canolbwyntio ar ymyraethau mewn addysg a hyfforddiant i ehangu a chynnal cyfranogaeth pobl ifanc mewn dysgu.

amrywiol. Hefyd, caiff y mesurau cosbi eu gweithredu'n anghyson. Dengys y canfyddiadau cynnar o'r UD na cheid dim gwahaniaethau yn y cyfraddau rhoi'r gorau iddi na'r cyfraddau cyrhaeddiad ôl-16 rhwng taleithiau gyda gwahanol oedrannau gadael (Oreopoulos, 2005).

Agenda gadael yn gynnar

Yn hytrach na, neu yn ogystal â, mynd ar drywydd polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i bobl ifanc aros mewn addysg am gyfnodau hwy, ceir lluo o ymyraethau yn rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar leihau'r cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar (ESL)/gadael yn gynnar (EL). Ar annog a chadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnodau hwy y mae'r ffocws, gyda'r nod cyffredinol o wella eu canlyniadau economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â gwella perfformiad a ffyniant economaidd gwledydd. Mae'r dulliau o ddelio ag ESL yn cynnwys nifer o strategaethau megis mesurau ataliol, polisïau ymyrryd a pholisïau iawndal (Dale, 2010; Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, 2011). Dangosodd adolygiad o'r dystiolaeth fod ESL/EL yn fater dyrys sydd â nifer o brosesau achosol plethedig. Daeth i'r casgliad bod gofyn i gymhlethdod o'r fath gael ymateb strategol a chydgyssylltiedig oddi wrth lunwyr polisïau, yn hytrach na detholiad o ymyraethau ar hap (Asiantaeth Ewropeaidd dros Addysg Anghenion Arbennig a Chynhwysol (EASNIE), 2016, t.47).

Adborth gan hysbyswyr allweddol

Yng nghyd-destun Cymru, ceid cytundeb cyffredinol ymysg yr hysbyswyr allweddol a gyfwelwyd y dylai pobl ifanc ar draws Cymru gyfranogi mewn dysgu o ryw fath nes eu bod yn 18 oed, er y ceid safbwyntiau cymysg am sut gellir cyflawni hyn. Canolbwyntiai'r drafodaeth ar rinweddau a pheryglon cyflwyno deddfwriaeth RPA i orfodi pobl ifanc i aros mewn addysg a'r dewis amgen sef cyflwyno newidiadau polisi gyda'r bwriad o annog ac ymestyn cyfranogaeth, cyfraddau cadw a chyflawniad mewn addysg ôl-16. Un farn gyffredinol oedd y dylid cynnig amrywiol ddewisiadau ôl-16 i bobl ifanc (addysg, cyflogaeth a hyfforddiant), ac y byddai llwybr ôl-16 gorfodol, yn yr ysgol yn ddewis rhy gul i rai grwpiau o bobl ifanc. At hynny, er bod bron 90% o bobl ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd yn symud i addysg neu hyfforddiant y tu hwnt i'r oed gadael ysgol statudol yn 16 oed, mae'r cyfraddau cadw a chyflawni ymysg pobl ifanc 17-18 oed yn llawer is. Mae hyn yn awgrymu bod angen ymyrryd.

Ni chafwyd dim cymeradwyaeth eang i ddeddfwriaeth RPA i orfodi pobl ifanc i aros mewn addysg nes cyrraedd 18 oed. Canolbwyntiai'r pryderon ar logisteg y gweithredu a'r gorfodi. Roedd y manteision ymddangosiadol yn cynnwys sicrhau arlwy ôl-16 ehangach, i fodloni anghenion grŵp dysgwyr amrywiol. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant, nad ydynt ar hyn o bryd yn

cael sylw nac ymyrraeth drwy bolisi, a sicrhau cyllid parhaus i gynnal cynlluniau ar gyfer y grŵp NEET. Un neges gyson oedd yr angen am newid sefydliadol a strwythurol yn yr arena ôl-16 ar draws Cymru i sicrhau arlwy cydlynol, teg a chyson, wedi'i ategu gan fwy o gysylltiad rhwng llwybrau cyn-16 ac ôl-16. Cafwyd anogaeth eang i strategaethau sy'n cymell ac yn annog pobl ifanc i gyfranogi ac aros a chyflawni mewn addysg ôl-16.

Gan edrych ar ddatblygiadau polisi a fydd yn digwydd yn fuan, roedd y newidiadau a gyflwynir drwy'r Cwricwlwm Newydd i Gymru mewn addysg cyn-16, yn ogystal â'r diwygiadau arfaethedig mewn addysg orfodol, ac addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET), yn cael eu cydnabod fel ysgogwyr allweddol ar gyfer ysgogi newid yn yr arena ôl-16. Maent yn darparu peirianweithiau ar gyfer sicrhau y gellir cael arlwy ôl-16 cyson gyda llwybrau clir. Hefyd, bydd y PCET, yn amodol ar ddeddfwriaeth, yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) fel yr un awdurdod strategol a fydd yn gyfrifol am oruchwyllo pob agwedd ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol erbyn 2023. Dylai bod gan CTER friff clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig rhai yn y gagendor rhwng yr academiaidd a'r galwedigaethol yn ogystal â safle pobl ifanc yn y farchnad lafur.

Casgliadau

Fe wnaeth astudiaethau a fu'n dadansoddi data hanesyddol i ganfod effaith codi'r oed gadael ysgol ganfod effeithiau cadarnhaol ar enillion a chyfraddau ennill cymwysterau, er bod eu heffaith ar gyfraddau cadw yn amheus. Hefyd, ni chanfu'r dystiolaeth ar ROSLA ym Mhrydain Fawr ddim manteision o safbwynt gwelliannau i symudedd addysgol a deilliannau iechyd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o wledydd/taleithiau sydd wedi gweithredu RPA wedi mabwysiadu dewis ehangach o opsiynau i bobl ifanc y tu hwnt i aros yn yr ysgol, gan gynnwys llwybrau hyfforddiant, gwaith â hyfforddiant, yn ogystal â darpariaeth ddysgu amgen. Er ei bod yn rhy fuan i asesu'r canlyniadau economaidd ac addysgol cyffredinol oddi wrth fesurau o'r fath, mae gwersi defnyddiol i'w dysgu o safbwynt gweithredu a chyflawni sy'n ymwneud â chost, amseriad a monitro effaith. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn pwyntio at fanteision cyfyngedig i bobl ifanc sydd wedi ymgysylltu leiaf â dysgu ac at yr angen am fuddsoddiad sylweddol a chreadigrwydd wrth ddatblygu pecynnau dysgu i fodloni eu hanghenion.

Drwyddi draw, gwan yw'r dystiolaeth i gefnogi deddfwriaeth sy'n codi'r oed cyfranogi mewn dysgu. Gwelwyd bod gorfodi hyn drwy wneud newidiadau deddfwriaethol diweddar yn dameidiog, ac, yn achos Lloegr, mae'n ymddangos i raddau helaeth nad yw'n bod. Fodd bynnag, heb ddeddfwriaeth RPA neu heb orfodi targedau caeth i leihau'r cyfraddau gadael ysgol yn gynnar (ESL)/gadael yn gynnar (EL), mae'r canlyniad yn aml yn set o bolisiâu tameidiog sy'n brin o ran amser neu arian i fynd i'r

afael â dadrithiad ymysg grwpiau penodol. Mae'r llenyddiaeth ar ESL/EL yn dangos gorddibyniaeth ar bolisiau unigol ac ymyraethau gwirfoddol yn aml, yn hytrach na dull deddfwriaethol trosfwaol strategol. Mae un esiampl dda o ymyrraeth ddeddfwriaethol i'w chael yn yr Iseldiroedd, lle mae fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer ESL yn cynnwys system rhybudd cynnar (EU, 2011, t.70).

Ymysg yr hysbyswyr allweddol a gyfwelwyd fel rhan o'r adolygiad, gwan oedd yr awydd am yr angen i gyflwyno deddfwriaeth RPA i orfodi pobl ifanc i gyfranogi mewn dysgu ôl-16, gyda chwestiynau'n cael eu codi ynglŷn â logisteg gweithredu a gorfodi. Drwyddi draw, barnwyd bod y cyfraddau cyfranogi mewn addysg ôl-16 yng Nghymru yn ddigon uchel yn 16 oed i beidio â bod angen deddfwriaeth RPA (er bod y cyfraddau cadw ymysg pobl ifanc 17 a 18 oed yn llawer is). Un neges gyson oedd yr angen am newid sefydliadol a strwythurol yn yr arena ôl-16 ar draws Cymru i sicrhau arlwy cydlynol, teg a chyson, wedi'i ategu gan fwy o gysylltiad rhwng llwybrau cyn-16 ac ôl-16.

Er y gellid cyflwyno deddfwriaeth i godi'r oed cyfranogi a/neu ostwng lefelau gadael yn gynnar yng Nghymru wrth gyflwyno a gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r diwygiadau PCET arfaethedig, byddai angen rhoi ystyriaeth i nifer o ffactorau yn ymwneud â dylunio'r polisi, ei weithredu a mesur ei effaith. Heb ddeddfwriaeth, mae gwir berygl y bydd rhaglenni i hybu dysgu ac ymgysylltu ôl-16, a gynhaliwyd yng Nghymru drwy gronfeydd strwythurol yr UE, yn dod i ben, gan fod y ffynhonnell gyllid hon yn dirwyn i ben rhwng 2021-23.

Argymhellion

- Dylai'r ffocws presennol ar leihau cyfraddau gadael cyn gorffen a gwella canlyniadau cymwysterau ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16 ymysg pobl ifanc 17-18 oed gael ei gynnal a'i ategu drwy wneud adolygiad o fanteision cyflwyno strategaeth i leihau ESL/EL.
- Mae angen gwneud adolygiad (i gyd-fynd â'r diwygiadau mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol) i sicrhau bod arlwy ôl-16 cydlynus a chyson ar gael i'r holl bobl ifanc yng Nghymru.
- Mae angen adolygu cynnwys yr arlwy dysgu ôl-16 a'i gysoni ag amcanion y Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Mae angen rhoi ystyriaeth ddyledus i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol a fyddai:
 - Yn sefydlu fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer rhoi sylw i ESL; ac

- Yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru i ddelio â gwasanaethau lles a chymorth i bobl ifanc dan 25, o bosibl mewn partneriaeth â'r DWP.
- Dylid datblygu a threialu system well a mwy trylwyr ar gyfer mapio a thracio cyrchfannau dysgwyr ôl-16, o bosibl nes iddynt gyrraedd 24 oed.
- Dylid cyflwyno cyfundrefnau ariannu parhaus i gefnogi cynlluniau a fwriedir fel mesurau i atal ac ailintegreiddio pobl ifanc NEET.
- Rhaid rhoi sylw i'r bylchau mewn addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg.
- Mae angen gwneud ymchwil er mwyn cael gwell dealltwriaeth o weithwyr ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant (a'u cyflogwyr) cyn cyflwyno ymyrraeth bolisi i gefnogi eu hanghenion dysgu a'u hanghenion ehangach.

Cyflwyniad

Cafodd yr adolygiad hwn ei gomisiynu gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) i archwilio tystiolaeth gyhoeddedig a chanfyddiadau o gyfweiliadau gyda nifer fechan o hysbyswyr allweddol sy'n ymwneud â chodi'r oed cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant i 18 oed yng Nghymru. Ei nod yw llywio trafodaethau a phenderfyniadau'r gweinidogion ynglŷn â datblygu polisi i'r dyfodol yn y maes hwn.

Mae manylion y dull a'r methodoleg i'w gweld yn Atodlenni 1 a 2.

Cyd-destun

Mae'r rhesymeg dros godi'r oed cyfranogi (RPA) mewn addysg ymysg pobl ifanc yn canolbwyntio ar y ddadl y gall pobl ifanc, sy'n treulio cyfnod hir mewn addysg neu hyfforddiant, ennill gwell cymwysterau a meithrin gwell sgiliau, ac y bydd ganddynt y potensial i ennill cyflog gwell i'r dyfodol. Ystyriwyd y gallai gweithredu'r RPA esgor ar fanteision cymdeithasol ac economaidd, a hefyd fod yn ffordd o roi hwb i berfformiad y Deyrnas Unedig o safbwynt cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant o'i gymharu â gwledydd OECD eraill (DfES, 2007). Yn dilyn cyfnod ymgynghori, roedd Deddf Addysg a Hyfforddiant 2008 yn cynnwys cynigion bod llywodraeth i'r dyfodol yn codi'r oed pan ddisgwylir i bobl ifanc aros mewn addysg yn Lloegr i 17 o 2013 ymlaen ac i'w pen-blwydd yn 18 o 2015 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n aros mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn neu sy'n symud i waith amser llawn â hyfforddiant. Tra bod y cynlluniau hyn wedi cael eu gweithredu yn Lloegr, roedd gan weinyddiaethau datganoledig Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban y disgresiwn i weithredu'r un ddeddfwriaeth, er nad ydynt, hyd yma, wedi dewis gwneud hynny.

Yng Nghymru cynyddodd canran y bobl ifanc 16-18 a oedd yn cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant i 78.3% yn 2019 o'i gymharu â 77.6% yn 2018 (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae hwn yn gynnydd bychan ar gyfraddau'r pum mlynedd flaenorol, er eu bod dal yn is na'r cyfraddau a gafwyd yn dilyn dirwasgiad economaidd 2008, a oedd yn 80%. Fe wnaeth y gyfran o'r un grŵp oedran a oedd yn NEET gynyddu i 11.1% yn 2019 o 10.6% yn 2018. Yn 2019, roedd 36.3% o bobl ifanc 16-18 oed mewn gwaith amser llawn neu ran amser, gyda 10.6% mewn gwaith ond ddim mewn addysg na hyfforddiant. Felly, yn 2019, roedd ychydig dros 20% o'r garfan 16-18 oed ddim mewn addysg na hyfforddiant gan eu bod naill ai'n NEET neu mewn gwaith nad oedd yn cynnig hyfforddiant achrededig.

Er bod y cyfraddau cyfranogi mewn addysg ôl-16 yn uchel ymysg pobl ifanc 16 oed, maent yn tapro ymysg rhai 17 ac 18 oed. Er enghraifft, yn 2019, roedd 72.9% o bobl

ifanc 16 oed mewn addysg amser llawn o'i gymharu â 64.5% o rai 17 oed a 55.4% o rai 18 oed.

Prif ganfyddiadau o adroddiad NfER (2007)

Edrychai adroddiad a wnaed gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NfER) yn 2007 ar dystiolaeth ryngwladol ar fanteision a heriau RPA (Spielhofer et al., 2007). Comisiynwyd yr adroddiad gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) yn Lloegr 'i archwilio'r effaith, y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r newid arfaethedig' (Spielhofer et al., 2007, t.1) a nodir yn y Papur Gwyrdd *Raising Expectations* (DfES, 2007). Cyfeiriodd hwn at y cynnig yn y Papur Gwyrdd y dylid mynnu bod pob person ifanc, o 2015 ymlaen, yn cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant o ryw fath nes eu bod yn 18 oed, gyda newid interim, o 2013 ymlaen i 17 oed.

Dywedwyd mai prif nod yr adolygiad allanol hwn oedd 'casglu a dadansoddi data cenedlaethol a rhyngwladol ynglŷn â'r:

- manteision disgwylidig o wneud addysg neu hyfforddiant yn orfodol hyd at 18 oed (gan gynnwys yr effaith debygol ar gyrhaeddiad)
- yr heriau tebygol wrth weithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig, a gorfodi unigolion i gyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16
- y dewis o opsiynau a fydd yn annog pobl ifanc i aros mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16, a'r gefnogaeth y bydd arnynt ei hangen i'w galluogi i wneud dewisiadau effeithiol.' (Spielhofer et al., 2007, t.7-8)

Cyfyngwyd y llenyddiaeth i ddeunydd a gyhoeddwyd er 2000.²

Y casgliadau cyffredinol y daethpwyd iddynt, ar sail eu hadolygiad o lenyddiaeth ryngwladol, oedd ei bod yn rhy fuan asesu effaith y newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i bolisiâu math RPA. Y rheswm am hyn oedd oherwydd bod unrhyw bolisiâu o'r fath (a gwelwyd tipyn) wedi cael eu gweithredu'n ddiweddar iawn, fel nad oedd dim tystiolaeth ar gael am garfannau a oedd wedi dod allan o'r broses. Er

² Gwnaed y penderfyniad hwn ar sail y newidiadau polisi mawr ynglŷn â'r cwricwlwm ysgol yn Lloegr o 2000 ymlaen. O ganlyniad, ac eithrio nifer fechan o gyfeiriadau o ddiwedd y 1990au, glynwyd wrth y cyfnod hwn. Yn syndod i raddau, wrth bennu'r paramedrau hyn, dywedwyd bod i godi'r oed gadael ysgol (ROSLA) yn 1972 y potensial i gael 'rhyw ddylanwad ar y newidiadau arfaethedig' a nodwyd yn y Papur Gwyrdd *Raising Expectations*, fodd bynnag, ni chrybwyllwyd llawer ar hynny'n ddiweddarach, nac ar y dadansoddi hanesyddol sy'n dal i gael ei wneud ar ei effaith.

hynny, gwnaed yr honiad y *gallai* cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant arwain at y manteision canlynol:



Cyflogau uwch



Tebygolrwydd uwch o gyfranogiad dinesig



Tebygolrwydd uwch o gyfranogi yn y farchnad lafur



Manteision iechyd



Gwell cyrhaeddiad addysgol



Bodddhad bywyd uwch



Mwy o gyfranogi ôl-orfodol



Llai o droseddu ac ail-droseddu

Roedd hyn yn seiliedig yn bennaf ar lu o lenyddiaeth a ganolbwyntiai ar fanteision dysgu estynedig yn fwy cyffredinol, yn hytrach nag wedi'i anelu at bolisïau math RPA. Roedd y canfyddiadau a oedd o'r diddordeb mwyaf i'r adolygiad cyfredol hwn yn ymwneud â'r effaith ar gyflogau i'r dyfodol, cyfranogaeth yn y llafurlu a chyrhaeddiad. O ran y meysydd eraill, mae'r adroddiad yn cydnabod, er ei fod yn darparu rhywfaint o drafodaeth ar y llenyddiaeth, 'fod y dystiolaeth dros berthynas achosol yn wan yn y rhan fwyaf o achosion' (Spielhofer et al., 2007, t.46).

Enillion i'r dyfodol

Y dystiolaeth gryfaf yn yr adroddiad o bosibl oedd yr hyn a gyfeiriai at gynydd mewn enillion i'r dyfodol o ganlyniad i gyfranogaeth ychwanegol mewn addysg. Dangosai'r dadansoddiadau o'r data a oedd yn gysylltiedig ag a) codi'r oed gadael ysgol gorfodol o 15 i 16 yn y Deyrnas Unedig, a b) o 14 i 15 yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 1972, fod yr enillion blynyddol yn codi 12% (Oreopoulos, 2002). Fe wnaeth astudiaethau eraill a wnaed yn UDA, Awstralia, Sweden a Chanada ddod i'r un casgliadau, gan alluogi'r adroddiad i gasglu 'bod myfyrwyr a orfodwyd i gwblhau blwyddyn ysgol ychwanegol yn hanesyddol wedi gweld cynnydd cyfartalog o naw i 15% mewn incwm blynyddol' (Spielhofer et al., 2007, t.28).

Cyfranogi yn y farchnad lafur

Roedd cyfoeth o dystiolaeth a ddyfynnwyd yn yr adolygiad yn pwyntio at y ffaith bod pobl ifanc sy'n cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn fwy tebygol o fod

mewn gwaith a chael cyflogau uwch, na'u cyfoedion na wnaethant gyfranogi. Un cafeat i'r canfyddiadau hyn oedd ei bod yn debygol iawn bod y rheini sy'n cyfranogi mewn addysg ôl-16 hefyd yn meddu ar nodweddion, yn ychwanegol at y ffaith iddynt 'aros ymlaen', a fyddai, prun bynnag, wedi eu gwneud yn fwy atyniadol i'w cyflogi. At hynny, nodir 'nad yw cymwysterau galwedigaethol yn esgor ar yr un manteision economaidd â chymwysterau academiaidd' ac mai 'dibwys yw manteision rhai cymwysterau galwedigaethol ar Lefel 2 neu is' – er y gallent gael 'effaith sylweddol ar bobl ifanc a adawodd yr ysgol heb gymwysterau blaenorol' (Spielhofer et al., 2007, t.45).

Un elfen allweddol mewn rhai o'r astudiaethau a ddyfynnir ohonynt yw'r haerriad bod ennill cymhwyster yn bwysicach na faint o amser a dreulir mewn addysg. Awgrymai un astudiaeth, ar sail dadansoddi effaith deddfwriaeth sy'n cwmpasu Lloegr a Chymru yn 1997, a oedd yn mynnu bod pobl ifanc yn aros mewn addysg tan ddiwedd y flwyddyn academiaidd pan oeddent yn troi'n 16, 'fod effaith ennill ardystiad ac nid dim ond faint o amser roeddent yn aros yn yr ysgol ar ei ben ei hun yn chwarae rôl bwysig i egluro canlyniadau economaidd y dyfodol' (Del Bono a Galindo-Rueda, 2006, t.4). Mae'n ymddangos bod hyn yn cefnogi'r ddadl dros gyfranogaeth orfodol, gyda chyfranogaeth nes bo'r unigolyn wedi ennill cymhwyster yn well na dim ond gorfodaeth sy'n rhwym wrth amser.

Wrth ddarparu tystiolaeth am effaith bosibl RPA ar gyfraddau cyfranogi yn y farchnad lafur i'r dyfodol, pwysleisiai'r adolygiad fod hyn yn seiliedig ar astudiaethau lle bo cyfranogi mewn addysg i'r dyfodol yn 'wirfoddol', yn hytrach nag yn 'orfodol'. Mae hyn yn bwysig o ran, fel y mae'n ei amlygu, 'fod pobl ifanc sy'n dewis cyfranogi mewn addysg ôl-16 o bosibl yn rhannu nodweddion penodol sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o ganfod cyflogaeth ac aros yn y gyflogaeth honno yn ddiweddarach yn eu bywyd' (Spielhofer et al., 2007, t.33). Casgliad arall y deuir iddo o'r llenyddiaeth gyffredinol yw 'bod y pontio ôl-16 wedi'i gysylltu'n gryf â phrofiad myfyrwyr o addysg cyn-16' (Spielhofer et al., 2007, t.44). Mewn geiriau eraill, er mwyn i RPA gael unrhyw effaith gadarnhaol ar enillion a chyflogaeth pobl ifanc i'r dyfodol, mae ymgysylltiad unigolion ag addysg yn hollbwysig.

Cyrhaeddiad

O ran cyrhaeddiad, ni chanfu adolygiad NfER ond 'tystiolaeth gyfyngedig ynglŷn ag effaith codi'r oed gadael ysgol gorfodol ar ganlyniadau addysgol' (t 34). Cafwyd y dystiolaeth a ddyfynnwyd o astudiaeth yng Nghanaada a ganolbwyntiai ar newid mewn deddfau gadael ysgol ac a ganfu fod 'cynnydd o flwyddyn yn nifer y blynyddoedd ysgol gorfodol yn gysylltiedig â chynnydd o 0.18 ar y graddau a enillir, ar gyfartaledd' (Oreopoulos, 2006, t.36). Ymysg y dystiolaeth ychwanegol a gynhwyswyd yr oedd dadansoddiadau o ddata a oedd yn ymwneud â newidiadau yn

yr oed gadael ysgol gorfodol yn Sweden rhwng 1949 ac 1962 (Meghir a Palme, 1999).

Dyfynnir bod astudiaethau o'r Deyrnas Unedig, Canada ac Awstralia yn dangos bod ennill cymwysterau yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth i'r dyfodol. Yn ddiddorol, tynnir sylw at y ffaith bod unrhyw dystiolaeth yn deillio o 'gyd-destun cyfranogaeth wirfoddol' (Spielhofer et al., 2007, t.4) a chyfranogaeth lwyddiannus.

'Amodau ar gyfer llwyddiant'

Ar sail y llenyddiaeth a gynhwysir yn yr astudiaeth, mae adolygiad NfER yn gosod nifer o 'amodau ar gyfer llwyddiant', y bernir eu bod yn hanfodol i RPA ac i ddarparu'r manteision a geisir. Sef:

- Gorfodaeth sy'n seiliedig ar gymhellion i bobl ifanc ymgysylltu, yn hytrach na chosbau am beidio â chydymffurfio.
- Arweiniad a chefnogaeth gan gynghorwyr proffesiynol diduedd, a all greu ymwybyddiaeth o'r dewis llawn o'r cyfleoedd a'r posibiliadau sydd ar gael i bobl ifanc.
- Darparu cwricwlwm gwell a mwy diddorol, sy'n cynnig darpariaeth amgen cyn-16 ac sy'n 'annog pobl ifanc i fod eisiau dal i ddysgu'.
- Darparu dewis o lwybrau ôl-14 ac ôl-16 sy'n gydlynol, yn 'addas' ac yn 'atyniadol'.
- Sicrhau bod gwell prosesau ar gael i fonitro a thracio pobl ifanc.
- Rhoi sylw i nodweddion cymdeithasol sylfaenol sy'n gysylltiedig â diffyg cyfranogi. Mae'r rhain yn cynnwys tlodi, cefndir teuluol, cefnogaeth rhieni a thai.

Cafeatau

Mae adroddiad NfER yn darparu cyfoeth o ddeunyddiau sydd wedi'u cyfeirnodu'n dda i gynnydd yr hyn a ddisgrifir yn fanwl fel 'canfyddiadau o sylwedd sy'n ymwneud â thestunau sy'n cysylltu'n agos â'r mater o godi'r oed cyfranogi' (Spielhofer et al., 2007, t.8). Drwy wneud hyn, mae hefyd yn amlwg bod angen rhoi ystyriaeth i nifer o gafeatau wrth ystyried perthnasedd yr adroddiad ar gyfer dyfeisio a gweithredu deddfwriaeth ar gyfer RPA. Sef:

1. Oherwydd yr amserlen gyfyngedig a nodwyd ar gyfer cynnwys deunydd cyhoeddusig – 'gwaith a gyhoeddwyd o 2000 ymlaen' – a'r prinder esiamplau o ddeddfwriaeth RPA yn cael ei deddfu yn y cyfnod hwnnw, nid oedd yn syndod

na chafwyd amser i gynnal gwerthusiad o'r effaith. O'r herwydd, dywedwyd na cheid 'ond tystiolaeth uniongyrchol gyfyngedig o effaith neu heriau codi'r oed cyfranogi', gan gynnwys yr effeithiau ar ganlyniadau addysgol.

2. Mae tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar effaith cyfranogi mewn addysg yn gyffredinol yn deillio oddi wrth garfannau o bobl ifanc a oedd yn cyfranogi o'u 'gwirfodd' yn hytrach na dan orfodaeth. Nid yw'n glir felly a fyddai cael eu gorfodi i aros mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn esgor ar y manteision hirdymor a geisir drwy RPA.
3. Er bod astudiaethau wedi canfod cysylltiadau rhwng faint o amser a dreulir mewn addysg a'r cymwyseterau a enillir, nid oedd hyn o anghenraid yn awgrymu y ceir achosiaeth h.y. cyswllt achosol uniongyrchol.
4. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2007, ar adeg pan ragamcanwyd yn eang mai un nodwedd o'r farchnad lafur, yn y Deyrnas Unedig, oedd twf parhaus mewn swyddi crefftus sy'n gofyn am gymwysterau, ynghyd â gostyngiad yn nifer y swyddi heb sgiliau. Byddai'r tueddiadau yn y farchnad lafur ers hynny yn bwrw amheuaeth ar y rhagamcan hwnnw (Clarke a Cominetti, 2019).

Er bod adroddiad NfER yn rhoi sylw i'r heriau a geir i adnabod a chefnogi dau grŵp o bobl ifanc nad ydynt yn cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, sef y garfan NEET a phobl ifanc sydd mewn swyddi heb hyfforddiant, ni chyflwynir dim tystiolaeth ar sut mae cyflwyno oed gadael ysgol gorfodol a/neu fesurau RPA wedi goresgyn eu rhwystrau rhag dysgu ffurfiol.

Gweithredu i godi'r oed cyfranogi yn Lloegr

Roedd y rhesymeg ar gyfer yr RPA yn Lloegr, fel y'i cyflwynir ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth Lafur, *Raising Expectations: staying in education and training post-16* (DfES, 2007), yn canolbwyntio ar y ddadl y byddai cyfnod hir mewn addysg neu hyfforddiant yn sicrhau bod pobl ifanc yn ennill gwell cymwysterau ac yn meithrin gwell sgiliau, a hefyd yn gwella'u potensial i ennill cyflog da i'r dyfodol. Roedd y ddogfen hefyd yn tynnu sylw at y manteision cymdeithasol ac economaidd posibl a geid o'r RPA a'i allu i roi hwb i berfformiad y Deyrnas Unedig o safbwynt cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant ymysg gwledydd OECD (DfES, 2007, t.5). Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nododd Deddf Addysg a Hyfforddiant 2008 y byddai gan bobl ifanc, o 2013 ymlaen, a oedd wedi cyrraedd 16 oed ac nad oeddent wedi ennill cymhwyster Lefel 3, ddyletswydd i gyfranogi mewn addysg a hyfforddiant. Rhaid i hyn gynnwys 'addysg neu hyfforddiant amser llawn priodol; contract prentisiaeth; neu

addysg neu hyfforddiant rhan amser tuag at ennill cymhwyster achrededig fel rhan o alwedigaeth amser llawn ochr yn ochr â galwedigaeth o dros 20 awr yr wythnos'.³

Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol godi'r oed cyfranogi gorfodol yn raddol yn Lloegr ymysg pobl ifanc i 17 oed o 2013 ymlaen ac i 18 oed o 2015 ymlaen. Fodd bynnag, mae adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredinol *Participation by 16-19 Year Olds in Education and Training* (2011) yn nodi bod manylion y Ddeddf o safbwynt cyfranogaeth pobl ifanc 18 oed yn wallus i raddau helaeth (Maguire, 2012):

“Effaith Deddf 2008 yw y bydd yn rhaid i bob unigolyn 16 oed gyfranogi o 2013 ymlaen, yn ogystal â'r rhai sy'n dechrau'r ysgol yn 16 oed ond sy'n troi'n 17 yn ystod y flwyddyn. Yr oll a wneir o godi'r oed cyfranogi gorfodol yn 2015 yw ymestyn y gofyn i bob unigolyn 17 oed, ac mae felly braidd yn gamarweiniol sôn am godi'r oed cyfranogi i 18”⁴ (Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin, 2011, para: 9).

Er bod y cynigion gwreiddiol yn disgrifio cynlluniau i wneud pobl ifanc nad ydynt yn cyfranogi mewn unrhyw fath o addysg a hyfforddiant ôl-16 yn droseddwy'r (DfES, 2007), ym mhroses y llywodraeth glymblaid o weithredu'r RPA, gwelwyd diffyg gorfodaeth o unrhyw fath yn y dyfodol agos, gan awgrymu felly ymrwymiad gwirfoddol ar ran pobl ifanc i gyfranogi (DfES, 2010). Roedd rheoliadau a chanllawiau statudol ar gyfer RPA a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn dweud yn glir na fyddai'r dyletswyddau ar gyflogwyr yn cael eu gweithredu o 2013, er y bydd pobl ifanc mewn gwaith amser llawn yn cynnal y cyfrifoldeb i gyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant o ryw fath (DfES, 2012).

Yn 1972 y cafodd newid o'r fath ei gyflwyno ddiwethaf yn y Deyrnas Unedig, dan y ddeddf i godi'r oed gadael ysgol (ROSLA), pan godwyd yr oed pan allai pobl ifanc adael yr ysgol o 15 i 16. Un gwahaniaeth sylfaenol rhwng RPA a ROSLA yw nad yw'r RPA yn mynnu bod pobl ifanc yn aros mewn addysg amser llawn ac mae'n cynnig yr hyblygrwydd i gyfuno gwaith gyda hyfforddiant a dysgu. Roedd hyn, o bosibl, yn gwneud gweithredu a thracio yn anos, ac ystyried y gwahanol ddewisiadau a llwybrau y gall pobl ifanc eu dewis. Mae hefyd yn gofyn am gydweithrediad a gwaith monitro ar amrywiaeth eang o ddarparwyr addysg a hyfforddiant, a chyflogwyr. I'r gwrthwyneb, roedd ROSLA yn gymharol syml, er yn ddrud, gan ei bod yn mynnu bod

³ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/25/notes/division/5/1/1/1/1>

⁴ “The effect of the 2008 Act is that all 16-year-olds will have to participate from 2013 onwards, as well as those who start the school year aged 16 but turn 17 during the course of the year. The effect of further raising the compulsory participation age in 2015 will be merely to extend the requirement to all 17-year-olds, and it is therefore somewhat misleading to talk about raising the participation age to 18”

pob person ifanc yn aros yn yr ysgol nes ei fod yn 16 oed. Roedd ei sylfeini wedi'u creu yn Neddf Addysg 1944, neu Ddeddf Butler, gydag oedi o wyth mlynedd ar hugain cyn ei gweithredu, oherwydd y gost i'r pwrs cyhoeddus, o ran yr adeiladau ysgol newydd a'r athrawon ychwanegol a oedd yn ofynnol i gefnogi newidiadau o'r fath (Balls, 2007). Roedd problemau tebyg yn wynebu'r ROSLA o 14 i 15 oed (a oedd hefyd wedi'i ddatgan yn Neddf 1944), er bod hyn wedi'i orfodi er 1947 (Norris, 2007).

Fel rhan o'r paratodau ar gyfer RPA, cynhaliwyd nifer o dreialon graddol mewn awdurdodau lleol ac is-ranbarthau dethol ar draws Lloegr rhwng 2009 a 2013. Nod y rhain oedd annog awdurdodau lleol i gynllunio, datblygu a gweithredu eu dulliau o weithredu'r RPA. Daeth adroddiad gwerthuso Cam 2 i'r casgliad, er gwaethaf dwy flynedd o baratoi, nad oedd gan yr awdurdodau lleol yn y rhan fwyaf o achosion naill ai ddim cynllun cynhwysfawr ar gyfer cyflawni RPA yn 2013/15 neu eu bod wedi methu a chynnal dadansoddiad trylwyr o'r garfan gymwys. Mewn rhai ardaloedd, roedd y gwaith â darparwyr addysg a hyfforddiant wedi'i gyfyngu i nifer fechan, ac ni cheid dim cynlluniau ar gyfer gweithredu'n ehangach (Isos Partnership, 2011, t.6).

Er bod yr oedi i dreialon yr RPA wedi'u priodwedu i raddau helaeth i gyfnod maith o ansicrwydd ynglŷn â chyflwyno'r polisi, ar ôl newid y llywodraeth, roedd hyn yn cyd-fynd â newid sylfaenol ehangach mewn cyllid a chyfeiriad polisi. Ar ddiwedd cyfnod dwy flynedd, roedd ardaloedd y treialon wedi nodi heriau allweddol a oedd yn gysylltiedig â chyflawni RPA oherwydd gostyngiadau yn y cyllid ac mewn gwasanaethau arwain, yn ogystal â newidiadau yn y cyfrifoldeb am reoli ysgolion a chomisiynu cyllid ôl-16. Er enghraifft, rhagwelwyd y byddai'r gostyngiadau yng nghyllidebau awdurdodau lleol yn gyffredinol yn effeithio ar eu gallu i brynu darpariaeth, cynnal systemau cymorth, a datblygu a monitro'r systemau tracio angenrheidiol ar gyfer cyflawni RPA (Isos Partnership, 2011, t.16).

Yng Ngham 3 (2011-12) a 4 (2012-13), gwelwyd newid at brosiectau cyflawni dan arweiniad lleol (LLDPs), a oedd yn canolbwyntio ar fod ardaloedd lleol yn nodi'r heriau i gyflawni'r RPA eu hunain ac yn datblygu atebion sy'n benodol i amgylchiadau lleol. Daeth y gwerthusiad o dreialon Cam 4 i'r casgliad:

- Bod y gwaith o gynllunio ar gyfer RPA a chyflawni LLDPs yn dibynnu'n drwm ar waith partneriaeth lleol. Defnyddiodd awdurdodau lleol eu cysylltiadau presennol â rhanddeiliaid allweddol lleol yn helaeth, gan gynnwys gweithio ar draws gwahanol wasanaethau awdurdodau lleol, cysylltu â darparwyr hyfforddiant, gweithio ag ysgolion a cholegau, ac, mewn rhai ardaloedd, gyflogwyr i gyflawni LLDPs a pharatoi ar gyfer cyflawni'r RPA;
- Bod yr ethos o gael cyfranogaeth lawn yn dal i fod yn anodd oherwydd cyfundrefnau cyllid a oedd yn creu cystadleuaeth rhwng darparwyr ôl-16 i

fyfyrwyr gofrestru ar raglenni, a gall hyn arwain at fod llawer o ddarparwyr yn gyndyn o hysbysu'r gwasanaethau arwain pan fo pobl ifanc 'mewn perygl' o adael eu haddysg neu pan maent yn gwneud hynny. Er bod rhai systemau lleol effeithiol wedi cael eu datblygu ar gyfer cyfnewid gwybodaeth am bobl ifanc sy'n gadael addysg a hyfforddiant ôl-16, roedd yn tueddu i fod yn gyfyngedig a châi ei oedi'n aml, er anfantais ymdrechion i ail-ymgysylltu â phobl ifanc;

- Er bod cytundebau/protocolau rhannu data wedi'u sefydlu, mewn nifer o ardaloedd, a bod cyllid LLDP yn aml wedi cyfrannu at eu datblygu, eu bod yn ddibynol iawn ar gytundebau 'ewyllys da' rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr lleol, o safbwynt amseriad y cyflwyno a'r cynnwys;
- Mai ymgysylltiad cyflogwyr, yn enwedig o safbwynt adnabod a chefnogi anghenion pobl ifanc a oedd mewn gwaith heb hyfforddiant cydnabyddedig, oedd y ddolen wannaf i fodloni'r gofynion cyfranogi llawn o hyd. Roedd y gwersi a ddysgwyd o LLPDs Cam 4 yn dangos bod angen sefydlu systemau ar gyfer adnabod pobl ifanc a oedd wedi penderfynu symud yn uniongyrchol i waith ar ddiwedd Blwyddyn 11 er mwyn gallu eu helpu gyda'r pontio i gyflogaeth. Hefyd, fe fu'r gwaith o gydlyn a chyflymu ymdrechion lleol i gynyddu nifer y lleoliadau prentisiaethau a oedd ar agor i bobl ifanc yn effeithiol iawn, drwy symleiddio prosesau a'i gwneud yn fwy atyniadol i gyflogwyr recriwtio pobl ifanc; ac
- Nad oedd digon o reoleiddio'n perthyn i Fesur Cyrchfannau Cyfnod Allweddol 4 i sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn rhannu eu gwybodaeth am symudiadau pobl ifanc. Ceid pryder sylfaenol o hyd, pe na fyddai data yn cael ei rannu mewn ffordd amserol, gyson a chywir, y byddai'r bobl ifanc a oedd yn methu â chyfranogi, neu a roddodd y gorau i ddysgu, yn syrthio drwy'r rhwyd, oherwydd diffygion mewn dulliau rheoli systemau, llai o ddeallusrwydd gwybodaeth ac, yn hollbwysig, gefnogaeth ac arweiniad gan bersonél hyfforddedig a diduedd (Maguire a Newton, 2013).

Hefyd, o safbwynt bodloni anghenion pobl ifanc, amlygodd y canfyddiadau:

- Os am ymyrryd yn gynnar rhag i bobl ifanc gael statws NEET, fod angen penodi staff medrus sy'n gallu rhoi cefnogaeth i bobl ifanc a sicrhau ymgysylltiad rhanddeiliaid lleol;
- Bod angen bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth mawr o ffactorau a allai fod yn arwydd bod perygl i berson ifanc fynd yn NEET, oherwydd fe allai rhai pobl ifanc nad oes ganddynt y nodweddion sy'n eu gwneud yn dargedau amlwg am gefnogaeth ychwanegol ddal fod mewn perygl. Gallai'r ffactorau hyn ymestyn y tu hwnt i'r rhai a gynhwysir fel arfer mewn offer dangos perygl o NEET

(RONI). Rhoddwyd sylw i hyn mewn rhai ardaloedd drwy ddefnyddio deallusrwydd lleol ochr yn ochr ag offer a ysgogir gan ddata;

- Bod grwpiau o bobl ifanc fregus yn aml angen darpariaeth at y pwrpas ac wedi'i thargedu i oresgyn eu rhwystrau rhag dysgu, a gallai hyn yn fod ddrud yn ariannol i awdurdodau lleol a darparwyr;
- Y gallai pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd (SEND), rhai sy'n gadael gofal a rhieni ifanc elwa o gyngor gyrfaol lefel uwch, er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio llifau cyllid penodol i'r eithaf; ac
- Bod awdurdodau lleol yn tueddu i ganolbwyntio ar atal NEET cyn-16, heb fynd i'r afael i'r un graddau ag ymyrraeth gynnar i atal pobl ifanc ôl-16 rhag rhoi'r gorau iddi, yn enwedig ymysg pobl ifanc a oedd yn cyfranogi mewn gwaith a hyfforddiant amser llawn. Roedd hwn yn dal i fod yn un o'r blaenoriaethau nas datblygwyd digon arni i baratoi ar gyfer gweithredu'r RPA (Maguire a Newton, 2013).

Ar ôl cyflwyno deddfwriaeth RPA yn 2013/14, cododd y cyfraddau cyfranogi mewn addysg amser llawn yn sydyn yn 2013 ac maent wedi dal i wneud hynny, gan gyrraedd penllanw yn 2019 ar 83.7% o bobl ifanc 16-17 oed. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, mae'r cynnydd mewn addysg amser llawn wedi cael ei wrthbwysu i raddau helaeth gan ostyngiad yn nifer y prentisiaethau a hyfforddiant a fathau eraill, gan arwain at newid bychan iawn yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant (NET). Mae'r gyfradd NEET ymysg pobl ifanc 16-18 wedi dal i gwympo er 2013 (DfE, 2020).

Tra bod yr ystadegau hyn yn dangos perfformiad trawiadol o ran cyfraddau aros ymlaen yn yr ysgol/ coleg, mae'r darlun yn llai cadarnhaol ar gyfer cyfraddau hyfforddiant. Byddai dadansoddi pellach ar ymhle mae addysg ôl-16 yn digwydd (h.y. chweched dosbarth mewn ysgolion, colegau chweched dosbarth neu golegau addysg bellach), yr effaith ar ddarpariaeth hyfforddiant, ynghyd â dadansoddiad o'r cymwysterau a ddilynir ac a enillir, ynghyd â'r cyfraddau rhoi'r gorau iddi, yn darparu golwg gwerthfawr ar effaith gweithredu RPA ar addysg a dysgu.

Daeth y feirniadaeth gynnar ar weithredu'r RPA arfaethedig oddi wrth haneswyr addysg sydd wedi dadlau ei bod yn anwybyddu'r gwrthwynebiad hir a helaeth i'r diwygio a'r ffaith bod y trafodaethau cynhwysfawr a'r paratodau wedi'u gwneud yn y 1960au a'r 1970au (Woodin et al., 2013). At hynny, tra bod y deddfwriaeth wedi cael ei hanalluogi i raddau helaeth o ran ei gorfodi, cafodd costau cysylltiedig gweithredu'r RPA hefyd eu diystyru. Dywed Woodin et al. (2013) fod y pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol i gomisiynu darpariaeth addysgol newydd wedi'u dirymu yn ddiweddarach a bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi canfod

prinder o £100 miliwn yn yr amcangyfrif o gostau gorfodi a monitro awdurdodau lleol. Fe wnaeth yr NAO hefyd ddyfynnu ffigurau cost a budd ar gyfer gweithredu RPA:

“Cyfrifodd yr Adran (Addysg) y byddai'r polisi yn mynd i gostau blynyddol o £774 miliwn, gyda thri chwarter y rhain yn gostau ychwanegol, uniongyrchol yr addysg a'r hyfforddiant. Amcangyfrifiwyd bod budd blynyddol net y polisi yn £1,626 miliwn (wedi'i addasu i gyflwyno gwerth), gan dybio sefyllfa sefydlog o gyfranogaeth lawn erbyn 2016-17.”⁵ (NAO, 2011, t.5).

Cafodd yr RPA hefyd ei gweithredu dros yr un cyfnod amser ag y gwnaed toriadau cyllidebol mawr i'r gwariant ar addysg oherwydd mesurau cyni, gan gynnwys:

- Tynnu'n ôl y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA), a ddarparodd gymorth ariannol i bobl ifanc o deuluoedd incwm is i'w hannog i gyfranogi, aros a chyflawni ym maes addysg ôl-16;
- Dirwyn i ben bolisiau peilot a fwriadwyd i helpu pobl ifanc yn y grŵp NEET a phobl ifanc a oedd wedi mynd i swyddi heb hyfforddiant ar ôl gweithredu'r RPA, sef y Peilotau Cytundebau Gweithgaredd a Dysgu a oedd yn weithredol rhwng 2006 a 2011;
- Dirwyn i ben y Gwasanaethau Connexions a oedd yn darparu cyngor ac arweiniad annibynnol a diduedd i bobl ifanc; a
- Thoriadau i awdurdod addysg lleol, yn dilyn ymgyrch i annog rhagor o academiâu ac ysgolion rhydd, a oedd yn eu rhyddhau o reolaeth awdurdodau lleol (Maguire, 2012).

Tystiolaeth ehangach

Ceir cyfoeth o dystiolaeth ryngwladol hanesyddol a diweddar ar fanteision ac anfanteision codi'r oed pan ddylai pobl ifanc adael addysg amser llawn. Tra saif y ffocws, o safbwynt codi'r oed gadael ysgol i 18, ar gadw pobl ifanc yn amgylchedd yr ysgol, mae tueddiadau mwy diweddar yn canolbwyntio ar gynyddu'r oed cyfranogi ymysg pobl ifanc 17 a 18 oed mewn grŵp ehangach o leoliadau (ysgol, hyfforddiant, gwaith â hyfforddiant), ac mae hyn yn peri heriau gwahanol. At hynny, mae dystiolaeth ddiweddar ar gyfer RPA yn dod i'r casgliad yn bennaf y dylai unrhyw

⁵ “The (Education) Department calculated that the policy would incur annual costs of £774 million, three-quarters of which are the direct, additional costs of education and training. The estimated net annual benefit of the policy was £1,626 million (adjusted to present value), assuming a steady state of full participation by 2016-17.”

benderfyniad fod yn rhan o becyn ehangach o bolisiau cadw ac atal pobl ifanc rhag rhoi'r gorau iddi yn hytrach nag yn un newid polisi unigol ar bresenoldeb orfodol.

Wrth werthuso'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth bolisi ar yr hyn sydd wedi gweithio, ymhle ac ym mha amgylchiadau, mae'n bwysig cofio nifer o ffactorau allweddol, sef:

- Bod ROSLA yn wahanol iawn i RPA, o ran carfan oed, amgylchedd dysgu ac ystyriaethau gorfodi;
- Mae'r dystiolaeth ar ROSLA, yn y rhan fwyaf o achosion i 16 oed (er enghraifft ROSLA y Deyrnas Unedig yn 1972), yn adrodd am effeithiau sy'n seiliedig yn bennaf ar dueddiadau hanesyddol o ran manteision i'r farchnad lafur a chyfraddau ennill cymwysterau; ac
- Mae'r arfer o 'fenthycu polisiau' gan wledydd eraill, UDA ac Awstralia yn fwyaf nodedig, yn dod â rhybudd iechyd gydag ef o ran y capasiti a'r gallu i drosglwyddo dystiolaeth o wledydd sydd â systemau addysgol a marchnad lafur wahanol iawn i gyd-destunau eraill.

Fodd bynnag, ceir nifer o themâu cyffredin sy'n treiddio drwy'r sylfaen dystiolaeth, heb ystyried y categori oed a'r ardal, yn fwyaf nodedig:

- Fod y penderfyniad i godi'r oed gadael ysgol/oed cyfranogi wedi'i ysgogi gan y manteision economaidd ymddangosiadol a manteision ymddangosiadol ennill cymwysterau;
- Bod materion cost a gweithredu yn sylweddol ac, yn aml, y bwrir amcan rhy isel ohonynt;
- Bod gorfodi'n anodd ac yn dameidiog y tu hwnt i derfynau amgylchedd yr ysgol.

Gwella canlyniadau'r farchnad lafur a chymwysterau

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymdrechion hanesyddol i bennu oedrannau dysgu/ysgol gorfodol wedi codi cyrhaeddiad addysgol pobl ifanc, a bod hynny yn ei dro wedi gwella canlyniadau pwysig bywyd, megis eu henillion a'u llesiant yn ddiweddarach. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae llunwyr polisiau wedi cysylltu'r penderfyniad i ymestyn yr oed dysgu gorfodol â dadleuon economaidd, yn enwedig yr angen i wella lefelau sgiliau ac felly wella cystadleurwydd y wlad mewn byd sydd wedi globaleiddio fwyfwy drwy gyfranogi ar lefel uwch mewn addysg. Hefyd, mae'r angen i ymestyn cyfleoedd dysgu er mwyn mynd i'r afael â chyfiawnder cymdeithasol a materion cynhwysiant er mwyn gostwng y cyfraddau rhoi'r gorau i addysg, yn ddadleuon a bledwyd i gefnogi penderfyniadau i godi'r oed gadael (ysgol) statudol.

Mae llawer o wledydd diwydiannol, gan gynnwys gwledydd yr UE megis yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a'r Almaen, ynghyd â thalieithiau yn UDA, Canada ac Awstralia, wedi deddfu deddfwriaeth yn y blynyddoedd diwethaf i ymestyn dysgu gorfodol. Er enghraifft, yn annerchiad Cyflwr y Wlad yn Ionawr 2012, galwodd yr Arlywydd Obama ar holl daleithiau UDA i fynnu bod myfyrwyr yn aros yn yr ysgol nes eu bod yn 18 oed (Mackey a Duncan, 2013 t.1). Yn Awstralia, roedd y rhan fwyaf o'r taleithiau wedi codi'r oed gadael ysgol i 17 erbyn 2009, gyda New South Wales yn dilyn yn 2010 (Swyddfa Archwilio, 2012).

Mae tystiolaeth ryngwladol o ymyraethau cynharach a gododd yr oed gadael ysgol i 15 ac yn ddiweddarach i 16 yn dangos y cafodd effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau o ran y farchnad lafur a chyrhaeddiad mewn cymhwysterau. Dangosodd Avendano et al (2020) fod ROSLA yn 1972, a gododd yr oed ysgol statudol o 15 i 16, wedi cynyddu cyfran y bobl a enillodd Dystysgrif Addysg Uwchradd (CSE) ym Mhrydain Fawr 9.0 pwynt canran o linell sylfaen o 19.7%. Cafodd y diwygio hefyd effaith ystadegol sylweddol ar gyfraddau ennill y cymhwyster mwy academaidd, y lefel O, er bod hynny'n llai (2.5 y cant o linell sylfaen o 49.6) na'r effaith ar CSE. Fodd bynnag, haerant na wnaeth nifer sylweddol o'r rheini a orfodwyd i fynychu blwyddyn olaf o'r ysgol uwchradd 'ennill dim cymwysterau, sy'n awgrymu na fyddent wedi elwa llawer o'r flwyddyn ychwanegol hon o addysg' (Avendano et al., 2020, t.3). Dangosodd Messacar ac Oreopoulos (2012) yn nhaleithiau America:

“Am bob blwyddyn yr ymestynnwyd yr oed ysgol uwchben un ar bymtheg, cynyddodd cyrhaeddiad yn yr ysgol 0.12 blwyddyn ar gyfartaledd i bob myfyriwr. Cynyddodd cyfraddau cwblhau'r ysgol uwchradd 1.3 y cant, ar gyfartaledd, ar ôl codi'r oed gadael ysgol o un ar bymtheg i ddwy ar bymtheg, a 2.4 y cant o'i godi i ddeunaw. Fe wnaeth codi'r oed gadael ysgol hefyd arwain at gynnydd yn y nifer a aeth ymlaen i'r coleg 1.5 y cant, sy'n awgrymu bod y rheini sy'n cael eu hannog i aros a chwblhau'r ysgol uwchradd yn manteisio ar gyfleoedd newydd drwy fynd ymlaen i goleg.”⁶ (Messacar and Oreopoulos, 2012 t.9)

Mae canfyddiadau sy'n ymwneud â'r byd gwaith yn canolbwyntio ar effeithiau ar gyflogau. Mae dadansoddiadau o effaith codi'r oed gadael ysgol o 14 i 15 yng Nghymru a Lloegr yn dangos effeithiau cadarnhaol ar gyflogau: Canfu Oreopoulos

⁶ “For each year the dropout age was extended above sixteen, school attainment increased by an average of 0.12 years per student. High school completion rates increased 1.3 percentage points, on average, from raising the school-leaving age from sixteen to seventeen, and 2.4 percentage points from raising it to eighteen. Raising the school-leaving age also led to an increase in college enrollment rates by 1.5 percentage points, suggesting that those encouraged to stay on and complete high school take advantage of new opportunities by pursuing college.”

(2008) fod y diwygio hwn wedi arwain at gynnydd o 10% mewn cyflogau, tra bo Chib a Jacobi (2016) yn amcangyfrif bod y cynnydd mewn cyflog yn 5-6%, a dangosodd Devereux a Hart (2010) fod y diwygio wedi cynyddu cyflogau dynion 3%. Canfu Grenet (2013), a gymharodd effeithiau codi'r oed gadael ysgol o 15 i 16 yn Ffrainc ac yng Nghymru a Lloegr, na effeithiodd y diwygio ar gyflogau yn Ffrainc, ond ei fod wedi cynyddu'r cyflog fesul awr 6-7% yng Nghymru a Lloegr. Bu Buscha a Dickson (2018) yn dadansoddi effaith gweithredu ROSLA yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban gan ddangos effaith gadarnhaol ar gyflogau pobl ifanc yn yr Alban. Ymhellach i ffwrdd:

- Canfu Messacar ac Oreopoulos (2012) yn UDA, ymysg y rheini a oedd yn gweithio dros bum awr ar hugain yr wythnos, y cysylltwyd blwyddyn o addysg orfodol â chynnydd o 10.7% mewn enillion blynyddol. Cynhwysai'r sampl o bobl ugain i naw ar hugain oed a oedd yn un ar bymtheg oed rhwng 1970 a 2001;
- Canfu Fischer et al. (2016) fod addysg orfodol estynedig o chwech i saith mlynedd yn Sweden yn ystod 1930-1950 wedi dod â phremiwm cyflog cadarnhaol (2%) i fenywod;
- Dangosodd Meghir a Palme (2005) fod ymestyn y blynyddoedd ysgol gorfodol o saith/wyth mlynedd i naw yn Sweden yn ystod 1949–1962 wedi arwain at gynnydd o 3.4% yng nghyflogau pobl ifanc o grwpiau cymdeithasol-economaidd isel; a
- Bu Liwinski (2020) yn archwilio effeithio'r diwygio addysgol a weithredwyd yng Ngwlad Pwyl yn 1966, a ymestynnodd yr oed gadael ysgol o 14 i 15 oed, i weld ei effaith ar gyflogau fesul awr a chyflogadwyedd. Dangosodd y dystiolaeth na chafodd y diwygio ddim effaith ar gyflogau fesul awr menywod a'i fod wedi cael effaith negyddol ar gyflogau fesul awr dynion.

Hefyd, dangosodd Grenet (2011) fod diwygio ROSLA yn 1972 yng Nghymru a Lloegr wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau llythrennedd; wedi gwella canlyniadau cymwysterau (yn enwedig ymysg merched); ac wedi gwella cyflogau. Ni phriodolwyd y gwelliannau hyn i gadw pobl ifanc mewn addysg am gyfnodau hirach yn unig. Cymharai'r astudiaeth â chanlyniadau yn Ffrainc, lle canfu mai dibwys oedd y manteision o ymestyn yr oed gadael ysgol. Awgrymwyd mai'r gwahaniaeth rhwng y ddwy wlad oedd y math o ddysgu a'i natur a'i berthnasedd i'r farchnad lafur. Felly, cafodd y cymwysterau uwch a gafwyd yng Nghymru a Lloegr effaith bendant ar ganlyniadau pobl ifanc yn y farchnad lafur. Cyfyd hyn y cwestiwn pwysig ynglŷn â gwerth gosod cyfnodau estynedig o addysg ar bobl ifanc heb fod yna effaith fuddiol gysylltiedig ar eu taflwybrau yn y farchnad lafur i'r dyfodol.

Awstralia New South Wales (NSW)

Pasiodd Llywodraeth NSW ddeddfau i godi'r oed gadael ysgol o 15 i 17 oed, yn weithredol o 1 Ionawr 2010. Yn NSW, safodd cyfradd cwblhau blwyddyn 12, a oedd yn 71.1%, yn is na'r ffigur cyfartalog cenedlaethol o 75.3% (Swyddfa Ystadegau Awstralia, 2006). Roedd y drafodaeth i gefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r oed gadael ysgol hefyd yn canolbwyntio ar fanteision economaidd; yn benodol, roedd gweithredu mewn byd sydd wedi globaleiddio fwyfwy yn un o'r rhesymau a ddefnyddiodd Llywodraeth NSW i egluro ei phenderfyniad i godi'r oed gadael ysgol wrth rieni. (Reid a Young, 2012). Y bwriad oedd cyflwyno arlwy cwrwclwm gwell ynghyd â rhaglenni dysgu hyblyg a chynghor gyrfaedd wedi'i dargedu i helpu myfyrwyr i ddewis yr opsiynau addas. Amcangyfrifodd Llywodraeth NSW y byddai niferoedd y myfyrwyr yn cynyddu'n raddol i oddeutu 8,900 o fyfyrwyr yn ychwanegol y flwyddyn, naill ai yn yr ysgol neu mewn rhaglenni addysg alwedigaethol neu hyfforddiant. I gefnogi'r cynllun hwn, amcangyfrifodd Llywodraeth NSW y byddai dros \$300 miliwn yn ofynnol dros bedair blynedd o 2009-10 i gynorthwyo ysgolion y llywodraeth a'r Comisiwn Addysg Bellach a Thechnegol (TAFE). Mae pobl ifanc a rhieni yn wynebu camau cyfreithiol am beidio â chydymffurfio.

Canfu adolygiad gan y Swyddfa Archwilio (2012) a gynhaliodd adolygiad o'r broses o weithredu'r newidiadau dan oruchwyliaeth yr Adran Addysg a Chymunedau: nad oedd yn gallu mesur cyfraddau diffyg cyfranogi; fod y cyfraddau atal dros dro wedi cynyddu; a bod mwy o fyfyrwyr a oedd wedi aros yn yr ysgol nes eu bod yn 17 oed wedi ymddieithrio. Er bod disgwyl i gofrestrïadau ar raglenni hyfforddiant ac addysg galwedigaethol gynyddu oherwydd cyfraddau cyfranogi estynedig, roedd y cofrestrïadau ar gyrsiau TAFE wedi gostwng 4,146, neu dros 13%, ymysg pobl ifanc 15-17 oed. Canfu arolwg o fyfyrwyr ysgolion y llywodraeth yr oedd codi'r oed gadael ysgol yn effeithio arnynt fod rhaglenni a llwybrau yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol, gydag ysgolion bychan, ynysig yn cael llai o gyfleoedd (Swyddfa Archwilio, 2012).

Bu Reid a Young (2012) yn archwilio effaith yr hyn yr oeddent hwy yn ei amgyffred fel newidiadau a gyflwynwyd ar frys i'r oed gadael ysgol yn NSW ar ysgolion â disgyblion o gefndiroedd ethnig amrywiol ac i fyfyrwyr â phroblemau dysgu ac ymddygiad. Dywedasant fod nifer o ysgolion o gymdogaethau difreintiedig a oedd yn aml yn gorfod cynorthwyo nifer gynyddol o ddysgwyr gydag amrywiaeth eang o anghenion, yn ei chael yn anodd gwneud hynny, oherwydd diffyg adnoddau, 'diffyg cyfle neu ormod o gystadleuaeth am gyfleoedd a llwybrau cyfyngedig' (t.795). At hynny, fe wnaethant ddadlau bod eu canfyddiadau yn cyd-fynd â chanfyddiadau Billett et al. (2010) a oedd yn honni mai llawer o'r ysgolion y mae'r newid yn yr

oedran gadael yn effeithio fwyaf arnynt yw'r union rai nad oes ganddynt y modd i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn sgil y newid.

Costau, capasiti a gweithredu

Mae edrych ar y dystiolaeth o UDA, lle mae nifer o daleithiau dros y blynyddoedd diwethaf wedi gweithredu deddfwriaeth i sicrhau bod pobl ifanc yn aros mewn addysg (ac mewn rhai achosion hyfforddiant neu waith), yn rhoi inni ddealltwriaeth a throsolwg ar faterion cost, capasiti a gweithredu. Fe wnaeth un ar ddeg o daleithiau godi'r oed presenoldeb gorfodol yn 2002-11,⁷ ac mewn taleithiau megis Oklahoma, Oregon ac Utah, bu'r ddarpariaeth hon yn gweithredu ers dros ugain mlynedd. Mae'r graddau y caiff deddfwriaeth ei gorfodi yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, mewn rhai taleithiau, gall pobl ifanc adael addysg os gallant gael gwaith, tra bo myfyrwyr mewn taleithiau eraill yn cael gadael addysg os yw eu rheini yn cytuno. Gallai'r dulliau o weithredu'r deddfwriaeth i leihau cyfraddau rhoi'r gorau iddi gynnwys dirwyon, dileu breintiau gyrru neu garchar ieuencid, er nad yw'r dulliau gorfodi, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gaeth. Yn bwysig, dengys y dystiolaeth gynnar na cheid dim gwahaniaethau yn y cyfraddau rhoi'r gorau iddi na'r cyfraddau cyrhaeddiad ôl-16 rhwng taleithiau a oedd â gwahanol oedrannau gadael (Oreopoulos, 2005).

Mae rhai sydd o blaid ymestyn yr oed ysgol/dysgu yn pwyntio at dystiolaeth hanesyddol ar y potensial i gael gwell gyflog, gwell cymwysterau, gwell lefelau sgiliau, ynghyd â chyfraddau troseddu a beichiogrwydd is ymysg pobl ifanc, sy'n gwneud iawn am gost ychwanegol yr addysgu, y gofynion seilwaith a'r cyfundrefnau monitro presenoldeb. Er enghraifft, mae Messacar ac Oreopoulos (2012) yn amcangyfrif:

“cynnydd o tua 10 y cant mewn incwm blynyddol, ar gyfartaledd, o annog myfyriwr i aros blwyddyn yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod enillion oes yn cynyddu, o amser gadael yr ysgol uwchradd ac ymuno â'r gweithlu yn ddeunaw oed, yn hytrach na gadael yr ysgol uwchradd yn un ar bymtheg, yn oddeutu \$226,700 yn ystod oes rhywun. O gywiro hyn oherwydd bod llawer o'r incwm hwn yn dod yn hir ar ôl blynyddoedd yr ysgol uwchradd, mae'r swm hwn yn cyfateb i daliad unwaith ac am byth o \$94,300 yn un ar bymtheg

⁷ Alabama, Colorado, Illinois, Indiana, Michigan, Nebraska, Nevada, New Hampshire, Rhode Island, South Dakota, a West Virginia.

oed (pan fo unigolion yn wynebu'r penderfyniad i adael ai peidio)."⁸
(Messacar ac Oreopoulos, 2012 t.18)

Maent yn cyfrifo'r costau uniongyrchol ychwanegol yn sgîl cyfuniad o recriwtio mwy o athrawon, adeiladu ysgolion newydd, neu gynyddu maint dosbarthiadau, yn ogystal â staff cymorth lles ychwanegol ac amcangyfrifant y byddai talaith yn talu bron \$25,000 i gadw un person ifanc un ar bymtheg oed yn yr ysgol drwodd nes iddynt raddio. Fodd bynnag, dadleuant y gallai'r capasiti ysgol ychwanegol fodoli eisoes, a gallai hynny leihau'r costau i \$10,000 neu \$15,000 ar gyfer pob myfyriwr ychwanegol. Mae'r costau anuniongyrchol yn cynnwys dosbarthiadau mwy, delio ag achosion cynyddol o ymddygiad sy'n tarfu ymysg myfyrwyr a gweithgaredd troseddol a thrais posibl mewn ysgolion (Messacar ac Oreopoulos, 2012, t.18). Ni ddarperir dim costau anuniongyrchol nac amcangyfrifon o sut byddai costau unrhyw newidiadau yn y cwricwlwm, a fyddai'n angenrheidiol i fodloni gofynion carfan ehangach o ddysgwyr, yn cael eu talu.

I gynorthwyo talaith Maryland i weithredu ei hoed ysgol gorfodol a godwyd yn ddiweddar o 16 i 18 (o 16 i 17 ar ddechrau blwyddyn ysgol 2014/15 ac o 17 i 18 ar ddechrau blwyddyn ysgol 2016/17), comisiynwyd adolygiad o dystiolaeth o UDA (Mackey a Duncan, 2013). Canfu adolygiad amrywiadau mawr mewn amcangyfrifon o'r gost o godi'r oed ysgol gorfodol, sy'n aml yn rhan o'r ddadl cyn deddfu deddfwriaeth newydd. Fe wnaeth yr Adran Gwasanaethau Deddfwriaethol lunio Nodyn Polisi a Chyllidol ar gyfer Maryland a oedd yn rhagamcanu gwariant cynyddol o'r gronfa gyffredinol o \$8.8 miliwn ym mlwyddyn gyllidol 2017, \$35.6 miliwn ym mlwyddyn gyllidol 2018, ac oddeutu \$71.2 miliwn ym mlwyddyn gyllidol 2020, ynghyd â chostau ychwanegol ar gyfer cyfleusterau dosbarth mewn rhai ardaloedd. Fe wnaethant hefyd adrodd am dystiolaeth o waith ymchwil arall a ganfu 'fod costau ystafelloedd dosbarth ac athrawon ychwanegol yn debygol o fod yn fychan iawn oherwydd ... y bydd y lefelau cydymffurfio yn isel' (Whitehurst a Whitfield, 2012, t.6).

Ni chanfu Mackey a Duncan ond nifer gyfyngedig o astudiaethau ar ganlyniadau codi'r oed gadael ysgol, ac roedd llawer o'r rhain yn ddiffygiol eu methodoleg. Ni adroddodd dim un o'r un ar ddeg talaith yn America y craffwyd arnynt fel rhan o'r adolygiad am unrhyw astudiaethau, adroddiadau nac ymdrechion trefnus perthnasol i dracio canlyniadau yn sgîl y newidiadau yn y gyfraith presenoldeb gorfodol i fyfyrwyr.

⁸ "roughly a 10 percent increase in annual income, on average, from nudging a student to stay a year in school. This means that the lifetime-earnings increase from finishing high school and joining the labor force at age eighteen rather than exiting high school at age sixteen is approximately \$226,700 over the course of one's life. When we correct for the fact that much of this income comes long after the high school years, this sum is equivalent to a one-time payment of \$94,300 at the age of sixteen (when individuals are facing the decision of whether to drop out)."

Fe wnaeth adolygiad o'r dystiolaeth am roi'r gorau iddi a thriwantiaeth dynnu sylw at y ffaith, er bod rhai astudiaethau cenedlaethol ac aml-daleithiol wedi cofnodi cysylltiadau rhwng oedran mynychu'r ysgol gorfodol a chanlyniadau addysg cadarnhaol, megis cyfraddau presenoldeb gwell mewn ysgolion uwchradd, cyfraddau rhoi'r gorau iddi is, cyrhaeddiad addysgol gwell, roedd rhai o'r setiau data wedi dyddio. Canfu un astudiaeth fod cynnydd o flwyddyn yn yr oed ysgol gorfodol yn cael ei gysylltu â chynnydd o 0.07 blwyddyn (oddeutu 26 diwrnod) yn yr amser y mae'r myfyriwr arferol yn aros yn yr ysgol (Oreopoulos, 2007). Awgrymai astudiaeth arall nad oedd gan oed ysgol gorfodol ond 'perthynas wan ag amseriad rhoi'r gorau iddi (yn ystod blynnyddoedd uwch yn hytrach na'r rhai is) a dim perthynas ystyrlon â chwblhau'r ysgol uwchradd', a dim cydberthyniadau sylweddol rhwng cyfraddau rhoi'r gorau iddi a chynnydd mewn oedrannau presenoldeb gorfodol (Landis a Reschly, 2011). Dangosodd astudiaeth bellach, wrth ddefnyddio rheolaeth ar gyfer demograffeg myfyrwyr, na welwyd dim effaith gadarnhaol ar gyfraddau graddio'r dalaith o ganlyniad i godi'r oed gadael ysgol i 18 (Whitehurst a Whitfield, 2012).

Fe wnaeth adolygiad o'r dystiolaeth o droseddu mewn ysgolion ddefnyddio canfyddiadau Gilpin a Pennig (2012), a adroddodd nad oedd codi'r oed gadael ysgol o 16 i 17 yn nhaleithiau UDA yn cael ei gysylltu â chynnydd mewn troseddu mewn ysgolion, tra bod codi'r oedi i 18 oed yn cael ei gysylltu â chynnydd o 6.2% mewn pedair allan o'r pum talaith a oedd yn rhan o'r astudiaeth. Roedd codi'r oed gadael ysgol i 18 hefyd yn cael ei gysylltu â chyfraddau atal dros dro uwch a chyfraddau gwahardd is. Canfu astudiaeth arall fod oed ysgol gorfodol uwch yn gysylltiedig â llai o droseddau cyffuriau ac eiddo ymysg myfyrwyr gwryw gan fod y drwgweithredwyr posibl i fod yn yr ysgol (Chan, 2012). Yn olaf, canfu ymchwil a archwiliodd i broblemau penodol mewn ysgolion a oedd yn gysylltiedig ag oedran ysgol gorfodol uwch dueddiad i fyfyrwyr benyw a myfyrwyr iau fethu'r ysgol oherwydd pryderon am eu diogelwch personol yn yr ysgol, a hefyd bod eiddo'n cael ei ddwyn yn yr ysgol (Anderson, Hansen a Walker, 2012).

Adroddodd adolygiad Mackay a Duncan (2013) negeseuon cymysg o safbwynt gwell canlyniadau cymdeithasol sy'n cronni yn sgil oed ysgol gorfodol uwch. Er enghraifft, daeth un astudiaeth i'r casgliad bod ansawdd yr addysg wedi dirywio ar ôl deddfu deddfau presenoldeb ysgol gorfodol mwy caeth dros 1917-39 (Sansani, 2010). Adroddodd astudiaeth arall ganlyniadau cymysg, gyda myfyrwyr mwy abl yn cymryd mwy o ddosbarthiadau anrhydedd ac arholiadau mynediad i golegau a myfyrwyr llai abl yn cael addysg o ansawdd is oherwydd eu bod yn rhannu dosbarthiadau â myfyrwyr y byddent fel arall wedi gadael (Luppino, 2011).

Yn gyffredinol, dyma'r prif ganfyddiadau o adolygiad Mackey a Duncan:

“Mae’r dystiolaeth ar gyfer codi’r oed ysgol gorfodol yn amhendant, felly ni ellir dwyn dim goblygiadau polisi clir ar rinweddau polisiâu o’r fath. Daw’r rhan fwyaf o’r astudiaethau diweddar i’r casgliad y dylai unrhyw benderfyniad i godi’r oed ysgol gorfodol fod yn rhan o becyn o bolisiâu cadw ac atal disgyblion rhag rhoi’r gorau iddi yn hytrach nag yn un newid polisi ar ei ben ei hun.”⁹ (Mackay a Duncan, 2013 t.3)

Caiff diffyg tystiolaeth am baratoi ac effaith yn dilyn deddfwriaeth i weithredu polisiâu ar gyfer oed ysgol gorfodol uwch ei adleisio mewn canfyddiadau ymchwil o wledydd/taleithiau eraill. Er enghraifft, o 2008 ymlaen, roedd gofyn i bobl ifanc yn nhalaith Western Australia aros mewn addysg, hyfforddiant, neu waith cymeradwy tan y flwyddyn pan oeddent yn troi’n 17. Adroddodd Hodgson (2019), yn fuan ar ôl gweithredu’r oed gadael ysgol uwch (ac er gwaethaf llw o raglenni ac ymyraethau yn targedu pobl ifanc uchel eu risg), daeth Archwilydd Cyffredinol Western Australia i’r casgliad bod ffigurau presenoldeb mewn ysgolion yn cwmpo a bod strategaethau a pholisiâu presenoldeb darparwyr ôl-16 yn methu â chipio’r achosion a’r rhesymau am y diffyg presenoldeb. Daw esiampl fwy eithafol o Hwngari, lle wnaeth y Ddeddf Addysg Gyhoeddus (1996) gynyddu’r oed ysgol gorfodol o 16 i 18, gan fynnu bod myfyrwyr yn treulio dwy flynedd arall yn y system addysg. Effeithiai’r ddeddfwriaeth ar fyfyrwyr a oedd yn dechrau’r ysgol elfennol ym mis Medi 1998, gan roi i’r system addysg felly gryn dipyn o amser i baratoi ar gyfer y newid. Mae Adamecz-Volgyi (2018) yn dangos, er gwaetha’r rhybudd hir, nad oedd ysgolion yn barod am y newid, o ran delio â charfannau mwy o bobl ifanc ac, yn fwy penodol, ennyn diddordeb myfyrwyr digymhellant mewn dysgu a datblygu cyrsiau a oedd wedi’u targedu at fyfyrwyr difreintiedig a/neu isel eu gallu. O ganlyniad, fe wnaeth Deddf Addysg Gyhoeddus Genedlaethol (2011) ostwng yr oed ysgol gorfodol o 18 yn ôl i 16, gan ddechrau o fis Medi 2012. At hynny, o ddadasoddi’r ystadegau gwelwyd bod codi’r oed gadael ysgol gorfodol wedi cael effaith anghymesur ar ysgolion galwedigaethol, gan iddynt weld cyfraddau rhoi’r gorau iddi uwch, gostyngiad yn ansawdd yr addysgu a newid yng nghyfansoddiad y myfyrwyr i gynnwys mwy o fyfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is (Adamecz-Volgyi, 2018, t.1).

Yn olaf, gan gysylltu perfformiad athrawon â chodi’r oed gadael ysgol, bu Green a Paniagua Navarro (2012) yn pwysu a mesur effaith y cynnydd yn yr oed gadael ysgol a ddigwyddodd yn Sbaen yn y flwyddyn academaidd 1998-1999. Dangosodd eu canlyniadau nhw bod y polisi wedi arwain at gynnydd o bron 15% yn absenoldeb

⁹ “The evidence for raising the compulsory school attendance age is inconclusive, so no clear policy implications can be drawn on the merits of such policies. Most of the recent studies conclude that any decision to raise the compulsory school attendance age should be part of a package of retention and dropout prevention policies rather than a solitary policy change.”

athrawon drwy salwch, gan godi i bron 50% mewn ardaloedd a oedd â chyfraddau cyfranogi mewn addysg ôl-orfodol is yn draddodiadol. Amlygant dystiolaeth ymchwil sy'n cysylltu absenoldeb athrawon â pherfformiad is gan fyfyrwyr a dônt i'r casgliad bod cynyddu'r oed gadael ysgol yn gallu lleihau ansawdd addysg (Green a Paniagua Navarro, 2012, t.1018).

Gorfodi

Roedd amrywiol sancsiynau'n bodoli i ddelio â diffyg cyfranogi, yn enwedig ar draws Gogledd America. Roedd y rhain yn cynnwys dirwyon, dedfrydau carchar, gorchmynion gwasanaeth cymunedol (rhieni), ac atal trwyddedau gyrru pobl ifanc. Yn yr Iseldiroedd, pennir dirwyon cynyddol ar rieni i atal absenoldeb mynnych o'r ysgol ymysg pobl ifanc. Er bod sancsiynau ar waith mewn nifer o wledydd, mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth o raddau'r gorfodi ac, yn holl bwysig, effaith bygwth y sancsiynau neu effaith eu gorfodi. Dadleua Lambert et al. (2015) y gallai diffyg manylder o'r fath am bolisi cyfranogi gwlad neu dalaith awgrymu nad yw'r llunwyr polisïau o bosibl wedi ystyried yn llawn sut i weithredu'r camau gorfodi neu eu bod yn ansicr sut groeso gaiff y polisi gan yr asiantaethau lleol a fyddai'n gorfod ei orfodi.

Tynnodd Messacar ac Oreopoulos (2012) sylw at y ffaith y dangoswyd bod gosod cyfyngiadau ar freintiau gyrru yn ffordd lwyddiannus o ddelio â diffyg cydymffurfio. Fodd bynnag, yn eu hadolygiad o'r sancsiynau a ddefnyddiwyd ar draws taleithiau UDA, haerant na châi mesurau cosbi eu gorfodi'r gaeth yn aml, am resymau cost. Rhoddir y cyfle i gyfranogi mewn rhaglenni cwnsela a mentora cyn mynd ar drywydd achos llys a phennu cosbau ariannol.

Ontario, Canada

Yn 2005, cododd y dalaith yr oed ysgol gorfodol o 16 i 18 drwy orfodaeth gyfreithiol. I ategu hyn cyflwynwyd rhaglen o ddysgu a fwriadwyd i gynnig cwricwlwm hyblyg dan arweiniad dysgwyr, hefyd, cafodd yr adnoddau dysgu eu hymestyn i fodloni galwadau cyfranogaeth estynedig mewn dysgu. Cynigir lluo o gymhellion cadarnhaol i bobl ifanc i aros yn yr ysgol ac ennill cymhwyster yn ei strategaeth Student Success/Learning to 18 (SS/L18), gan gynnwys cwricwlwm mwy amrywiol a galwedigaethol yn yr ysgolion uwchradd uwch. Nod y rhaglen oedd annog datblygiad cyfleoedd addysgol arloesol a hyblyg i fodloni anghenion gwahanol y myfyrwyr a meithrin ymgysylltiad cadarnhaol ag addysg ymysg y myfyrwyr. Roedd yn cynnwys yr Ontario Youth Apprenticeship Program (OYAP), sy'n rhaglen pontio o'r ysgol i waith a gynigir drwy ysgolion uwchradd ac a gefnogir drwy gyflwyno credyd treth hyfforddiant i gyflogwyr (OECD, 2008). O fewn y ddeddfwriaeth, ceir sancsiynau llys i bobl ifanc 16-17 oed a oedd yn gwrthod cydymffurfio, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai'r llysoedd atal trwydded yrru myfyriwr a gafwyd yn euog o driwantiaeth. Roedd hefyd yn cynnwys sancsiynau i rieni a gafwyd yn euog o esgeuluso neu o wrthod anfon eu plant 16-17 oed i'r ysgol ac i gyflogwyr a gafwyd yn euog o gyflogi pobl ifanc 16-17 oed yn ystod oriau ysgol os nad oedd y myfyrwyr wedi'u hesgusodi'n gyfreithlon rhag mynd i'r ysgol.

Canfu'r gwerthusiad o strategaeth SS/L18 Gweinyddiaeth Addysg Ontario fod y rhaglen: yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr; yn hyrwyddo gweithio rhyng-asiantaethol; yn annog hyblygrwydd yn y ddarpariaeth; yn ymestyn dewis; ac yn rhoi mwy o ffocws ar dracio a monitro myfyrwyr. Adroddodd y gwerthusiad fod y Strategaeth SS/L18 yn gwella'r amodau dysgu i fyfyrwyr uwchradd yn Ontario a'u llwyddiant (Ungerleider, 2008). Er mai ychydig o dystiolaeth sydd i'w chael am i ba raddau y caiff sancsiynau eu defnyddio â phobl ifanc, eu rhieni neu'u cyflogwyr, rhwng 2004 a 2010 gwelwyd cynnydd o 13 y cant mewn cyfraddau graddio mewn diplomâu. Un cafeat yma yw nad oes modd priodoli'r cyflawniad hwn o anghenraid i un ymyrraeth bolisi.

Canlyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach

Ceir nifer o astudiaethau sydd wedi archwilio effaith ROSLA ar ganlyniadau cymdeithasol ehangach, yn fwyaf nodedig ar leihau'r cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau, cyfraddau troseddu ymysg ieuenctid a lleihau anghydraddoldebau iechyd,

yn ogystal â gwella'r gyfranogaeth mewn dyletswyddau dinesig e.e. pleidleisio. Mae llai o ddata cadarn i'w gael ar yr effeithiau byrdymor a hirdymor ar leihau lefel diweithdra a NEET.

Amcangyfrifodd Messacar ac Oreopoulos (2012), gan ddefnyddio newidiadau amrywiol daleithiau America i'r oed gadael ysgol, fod pob blwyddyn ychwanegol o ysgol y mae myfyriwr yn ei gael:

- Yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn ddiwaith yn y pendraw 3.6 y cant;
- Yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant ar fudd-daliadau lles 5.5 y cant; ac
- Yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn byw islaw'r llinell dlodi 8.1 y cant.

Mae amcangyfrifon o effaith codi'r oed gadael ysgol gorfodol ar leihau cyfraddau NEET ar goll o'r sylfaen dystiolaeth. Fodd bynnag, dangosodd data o'r OECD fod gwledydd a oedd â chyfrannau llawer uwch o bobl ifanc mewn addysg ôl-orfodol na'r y Deyrnas Unedig (er enghraifft, Gwlad Belg, Gwlad Pŵyl ac Iwerddon) yn adrodd am gyfraddau llawer uwch nag arfer o ddiweithdra ymysg pobl ifanc (OECD, 2010, t.28). Felly, mae'n bosibl na fyddai ymestyn cyfranogaeth mewn dysgu o anghenraid yn gwneud gwahaniaeth mawr i ddiweithdra ymysg ieuencid na chyfraddau NEET.

O ran gwelliannau a wnaed i symudedd addysgol rhyng-genedlaethol, canfu Sturgis a Buscha (2015) ddim effaith i bob pwrpas yn deillio o gynyddu'r oed gadael ysgol gorfodol yng Nghymru a Lloegr yn 1972. Yn yr Almaen, adroddodd Betthäuser (2017) well cyrhaeddiad addysgol ymysg aelwydydd incwm canol, o'i gymharu â'r grŵp mwyaf breintiedig, oherwydd y cynnydd yn yr oed gadael ysgol gorfodol. Bu Grätz (2019) yn dadansoddi data ar draws Awstria, Denmarc, Ffrainc, a'r Iseldiroedd, gan ddadlau:

“Bod y canlyniadau yn awgrymu bod cynyddu'r oed gadael ysgol gorfodol yn cynyddu symudedd addysgol i ddynion a menywod yn Ffrainc ond nad oedd yn cael effaith ar drosglwyddo addysg rhwng cenedlaethau i ddynion a menywod yn Awstria, Denmarc na'r Iseldiroedd. Dengys y canfyddiadau hyn y gall effeithiau diwygiadau yn yr oed gadael ysgol gorfodol ar symudedd rhwng cenedlaethau gael eu cymedroli gan y cyd-destunau cymdeithasol lle mae'r diwygiadau hyn yn cael eu gweithredu. Mae'r canlyniadau'n cyd-fynd ag un ddamcaniaeth sy'n honni bod

effeithiau diwygiadau yn yr oed gadael ysgol gorfodol yn amlycach yng nghyd-destunau cyrhaeddiad addysgol isel.”¹⁰ (Grätz, 2019, t.2).

Mae nifer o ymchwilwyr wedi archwilio effeithiau codi oed dysgu gorfodol ar iechyd, gan ystyried bod cyfranogaeth addysgol wedi'i chysylltu'n agos â chael gwell canlyniadau iechyd ymysg y boblogaeth gyffredinol. Bu Courtin et al. (2019), yn archwilio'r manteision iechyd a geir o gynyddu'r oed gadael ysgol yn Ffrainc o 14-16 oed yn 1959 a chanfu nad oedd cyfranogaeth gynyddol yn arwain at well canlyniadau iechyd pan oedd y bobl ifanc yn oedolion. Daethant i'r casgliad:

“Ni chanfuom ddim tystiolaeth o fanteision iechyd cadarnhaol yn sgil mwy o addysg ar farcwyr biolegol iechyd, a gwelsom rywfaint o dystiolaeth o bwysedd gwaed uwch a llid ymysg cyfranogwyr yr oedd eu rhieni o ddsbarth cymdeithasol is. Mae'n bosibl na fydd cynnydd a orchmynnir drwy'r gyfraith yn esgor ar fanteision iechyd i ymatebwyr o gefndiroedd difreintiedig, os na chaiff mwy o addysg ei drosi yn ganlyniadau cymdeithasol-economaidd canolraddol. Nid yw ein canfyddiadau o anghenraid yn amau'r cysyniad bod addysg yn arwain at well iechyd ond maent yn awgrymu nad yw cynnydd yn y cyfnod dysgu ar ei ben ei hun a orchmynnir drwy'r gyfraith o bosibl yn ddigon i wella iechyd grwpiau dan anfantais.”¹¹ (Courtin et al., 2019, t.379).

Fe wnaeth Courtin et al. (2019) hefyd dynnu sylw at ganfyddiadau tebyg o astudiaeth a wnaed gan Jürges et al. (2013) a ganfu dim effaith sylweddol gan ddau ddiwygiad mewn addysg orfodol ym Mhrydain ar fofarcwyr llid a straen cronig ar gyfer y boblogaeth gyfan. Fe wnaeth Avendano et al. (2020) ddadansoddi faint o effaith a gafodd cyflwyno'r ROSLA yn 1972 ym Mhrydain Fawr ar iechyd meddwl a chanfu fod cyfranogaeth orfodol wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl rhai grwpiau o bobl ifanc, yn fwyaf nodedig rhai a fyddai wedi dewis symud i'r farchnad lafur yn hytrach na threulio blwyddyn arall yn yr ysgol. At hynny, adroddasant na chafodd y flwyddyn

¹⁰ “Results suggest that increasing compulsory school leaving age did increase educational mobility for men and women in France but left the intergenerational transmission of education unaffected for men and women in Austria, Denmark, and the Netherlands. These findings show that the effects of reforms in compulsory school leaving age on intergenerational mobility can be moderated by the societal contexts in which these reforms occur. Results are in line with a hypothesis according to which the effects of compulsory school leaving age reforms are more pronounced in contexts of low educational attainment.”

¹¹ “We found no evidence of positive health benefits of increased schooling on biological markers of health, and some evidence of worsening blood pressure and inflammation for participants from lower parental social class. Law-mandated increases in schooling may not bring health benefits to respondents from disadvantaged backgrounds, if longer schooling is not translated into improved intermediate socio-economic outcomes. Our findings do not necessarily question the notion that education leads to better health but suggest that law-mandated increases in schooling duration alone may not be sufficient to improve the health of disadvantaged groups.”

ychwanegol o ysgol ddim effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl ac, i rai unigolion, fe wnaeth gynyddu hunan-adroddiadau o ddiagnosis o iselder ac anhwylder gorbryderu.

Bu Wilson (2017) yn archwilio effaith ROSLA yng Nghymru a Lloegr yn 1972 ar gyfraddau ffrwythlondeb. Canfu fod cyfranogaeth estynedig mewn addysg wedi gohirio ffrwythlondeb o ddechrau i ddiwedd yr arddegau, gyda chynnydd mawr mewn achosion o ffrwythlondeb yn 19 oed. Roedd effaith y cynnydd mewn addysg orfodol yn gwanhau ar ôl 20 oed.

Gadael ysgol yn gynnar (ESL)/ Gadael yn gynnar (EL)

Os yw RPA yn llwybr posibl ar gyfer gwella siawns rhagor o bobl ifanc mewn bywyd drwy cyfranogi'n hwy mewn addysg a hyfforddiant, yna dylai tystiolaeth ynglŷn â gadael ysgol yn gynnar (ESL)/gadael yn gynnar (EL) gael ei hystyried, yn benodol o safbwynt:

- Eu rhesymau am adael addysg cyn cyrraedd y pwynt pan nad yw bod mewn addysg yn orfodol mwyach;
- Yr effaith y gall gadael addysg ar y pwynt hwn ei chael ar eu taflwybrau ôl-addysg; a'r
- Polisiâu a'r arferion a gyflwynwyd i roi sylw i 'broblem' ESL.

Mae dadleuon am ESL/EL yn canolbwyntio ar y rhagosodiad y dylai polisi ac ymyrraeth flaenoriaethu strategaeth sy'n cynnwys mesurau ataliol ac ailintgreiddio, er mwyn amlhau a gwella cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg.

Beth yw gadael ysgol yn gynnar?

Ni cheir un diffiniad hollgynhwysfawr o adawyr ysgol cynnar, neu rai sydd wedi 'rhoi'r gorau iddi', neu, weithiau, fe gânt eu cynnwys yn y categori NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Yn Ewrop, mae'r diffiniad yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag oedran ac mae'n cyfeirio'n bennaf at rai sy'n gadael addysg ar ddiwedd addysg orfodol. Mae'r diffiniad a ddefnyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd (2013), yn ei leihau i 'bobl ifanc 18-24 oed sydd ond â'r addysg uwchradd isaf neu lai ac nad ydynt mwyach mewn addysg na hyfforddiant' (t.8).

I'r gwrthwyneb, yn yr Unol Daleithiau, er na cheir diffiniad y cytunir arno o ESL, tueddir ei ddefnyddio yn y llenyddiaeth i ddisgrifio rhai sy'n gadael addysg amser

llawn cyn graddio ac felly nad ydynt yn ennill eu diploma ysgol uwchradd (Neild a Balfanz, 2006). Mae dulliau o adnabod ESL yn America felly yn canolbwyntio ar rai sy'n debygol o roi'r gorau i'r ysgol cyn ennill cymhwyster penodol.

Mae Estêvão ac Álvares (2014) yn gwahaniaethu mewn ffordd debyg rhwng gadael swyddogaethol a ffurfiol, gyda'r cyntaf yn pwysleisio ar 'yr agweddau cyfreithiol ar adael yr ysgol cyn cwblhau addysg orfodol' (EASNIE, 2016, t.15) a'r olaf yn canolbwyntio ar adael yr ysgol 'heb sgiliau, gwybodaeth na chymwysterau digonol i ddelio â bywyd oedolyn a chyflogaeth' (t.5). Mae hyn yn amlwg yn awgrymu bod gadael yn gynnar yn debygol o gael canlyniadau negyddol hirdymor i'r rhai sy'n gwneud hynny.

Yn niffyg diffiniad ffurfiol o 'adawr cynnar', mae amrywiol lenyddiaeth a amlygir gan EASNIE (2016, t.49) yn rhannu 'gadael yn gynnar' fel canlyniad yn brosesau unigol, yn bennaf:

- **Gwthio allan:** Awgryma hyn mai ffactorau yn system yr ysgol sy'n arwain at fod pobl ifanc yn gadael yn gynnar. Gallai'r rhain gynnwys: presenoldeb gwael; bod yn ddarostyngedig i bolisïau disgyblu'r ysgol; canlyniadau ymddygiad gwael; cael eu gwahardd; a chanlyniadau arholiadau gwael.
- **Tynnu allan:** Myfyrwyr sy'n cael eu 'tynnu allan' o'r ysgol yw rhai sy'n penderfynu tynnu'n ôl oherwydd ffactorau megis: pryderon ariannol; cael cynnig gwaith; gofalu am aelod o'r teulu; genedigaeth; bod yn rhan o weithgaredd troseddol; a salwch (Doll et al., 2013, t.2).
- **Syrthio allan:** Yma, mae myfyrwyr yn ymddieithrio o'r ysgol oherwydd ffactorau megis: difaterwch myfyrwyr; ddim yn cwblhau gwaith ysgol; a chefnogaeth addysgol annigonol.

Mae labeli eraill sydd ynghlwm wrth adael yn gynnar yn cynnwys 'optio allan', 'pylu allan', 'llithro allan', 'gadael yn gynnar', 'ddim cwblhau', a 'gadael' (EASNIE, t.14).

Achosion ac effeithiau

Heb ystyried y gwahaniaethau mewn diffiniadau ac amrywiol ddulliau polisi, nodweddai Dale ESL fel proses sy'n deillio o:

“ryngweithio rhwng cefndir teulu a chymdeithas, a phrosesau a phrofiadau'r ysgol. Dyma benllanw yr hyn sydd fel arfer yn broses hir

sy'n aml yn dechrau cyn bo person ifanc yn dechrau'r ysgol"¹²

(Dale, 2020, t.5)

Mae'n amlygu'n ddiweddarach y ffaith bod yna 'gonsensws eang parhaus ar achosion ac effeithiau ESL' (t.9). Yn bendant, mae lluo o gyfeiriadau'n bodoli i gefnogi'r ddadl mai 'cefnidir cymdeithasol' yw prif 'ffactor risg' ESL.

Mae'r llenyddiaeth yn cynnig lluo o wahanol gategoreiddiau ar gyfer y 'ffactorau risg' neu 'ddangosyddion' o achosion ESL. Ar sail yr 'holl astudiaethau (sydd) wedi nodi rhagfynegwyr ac amrywiadau sy'n gysylltiedig â gadael yn gynnar' yn yr Unol Daleithiau, fe wnaeth Lehr et al. (2004, t.16) wahaniaethu rhwng:

- (a) **newidion statws**, a ddiffinir fel newidion sy'n anodd ac yn annhebygol o newid, megis 'statws cymdeithasol-economaidd, anabledd neu lefel gallu, strwythur teuluol'; a
- (b) **Newidion newidadwy**, sy'n haws eu newid, yn enwedig drwy fewnbwn rhieni, athrawon, ayb. megis 'presenoldeb, uniaethu â'r ysgol'.

Yn y Deyrnas Unedig, gwahaniaethodd adroddiad gan yr Uned Allgau Cymdeithasol (2000) rhwng 'ffactorau risg' a 'chanlyniadau niweidiol', gyda'r ffactorau risg yn syrthio i dri chategori, sef teulu, ysgol a chymuned, a'r canlyniadau niweidiol yn cynnwys camddefnyddio cyffuriau, troseddu ymysg ieuenctid, beichiogrwydd mewn oed ysgol, methiant yr ysgol, priodasol, problemau iechyd a digartrefedd.

Yn Awstralia, cyflwynodd Hull (2005) lu o 'ffactorau risg' y gellir eu cynnwys mewn categorïau ehangach, sef: ymddygiad; agwedd; a lefelau llythrennedd a rhifedd. Cafodd y ffactorau risg a oedd yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd o fod 'â risg uchel' eu grwpio yn:

- Ffactorau risg cymuned a theulu (cyfanswm o 16 o ffactorau);
- Ffactorau risg personol (19 o ffactorau); a
- Ffactorau risg yr ysgol (12 o ffactorau).

Ceisiodd Dale (2010) ddwyn ynghyd ganfyddiadau o amrywiol astudiaethau gwahanol i ddarparu 'Fframwaith Pob Ffactor', sy'n 'nodi'r holl ffactorau sy'n cynyddu'r risg o ESL ar bum lefel:

- Teulu a Chymuned

¹² "interaction between family and social background, and school processes and experiences. It is the culmination of what is usually a long process that often begins before a young person enters school"

- Yr addysg
- Disgyblion a Chyfoedion
- Y System Addysg
- Cyflogaeth a Hyfforddiant (Dale, 2010, t.17)

Yn fwy diweddar, honnai un adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth, yn hytrach na bod un peth yn achosi ESL, fod amryfal 'ffactorau risg a ffactorau gwarchodol' ar waith, a'u bod yn ymwneud â 'nodweddion unigol, cefndir teuluol, ysgolion, systemau addysg ac amodau cymdeithasol ac economaidd ehangach' (EASNIE, 2016, t.5). Gan gyfeirio at ystod eang o astudiaethau, mae'r adroddiad hwn yn nodi ffactorau risg mewn tri maes gwahanol. Sef:

1. Ffactorau teuluol, gan gynnwys:

- statws cymdeithasol economaidd rhieni;
- lefel addysgol rhieni;
- cefnogaeth rhieni a'u diddordeb yn addysg eu plant;
- cyfansoddiad yr aelwyd;
- sefydlogrwydd teuluol;
- yn derbyn gofal neu mewn gofal;
- adnoddau materol yn y cartref;
- aelwyd un rhiant; a
- bod yn fewnfudwr.

2. Ffactorau unigol, gan gynnwys:

- gallu academaidd;
- dyheadau ar gyfer y dyfodol;
- cymhelliant yn yr ysgol;
- diffyg hunan-hyder; a
- hunan-gysyniad academaidd.

3. Ffactorau cymdeithasol ehangach sy'n tueddu i ganolbwyntio ar yr ysgol, gan gynnwys:

- cyfansoddiad yr ysgol; ac
- athrawon cefnogol.

Effaith

Drwyddo draw, daw'r llenyddiaeth i'r casgliad bod ESL yn cael effaith negyddol, er enghraifft:

“Mae gadael ysgol yn gynnar (ESL) yn ddrud i'r unigolyn, i gymdeithas ac i'r economi. Nid yn economaidd yn unig, ond hefyd o ran diffyg hunan-hyder, a'r risg o allgau cymdeithasol. Gall mwy o addysg, ac, yn benodol, gwell addysg arwain at ganlyniadau cadarnhaol, o safbwynt cyflogaeth, lefel cyflogau, gwell iechyd, llai o droseddu, gwell cydlyniant cymdeithasol, costau cymdeithasol a chyhoeddus is, a gwell cynhyrchiant.”¹³ (Oomen a Plant, 2014, t.5).

Mae rhan gyntaf y dyfyniad hwn yn adleisio casgliadau Dale's bod ESL, yn ogystal ag yn cael effeithiau niweidiol ar unigolion, hefyd yn 'arwain at gostau cymdeithasol ac ariannol aruthrol ar draws cymdeithasau oherwydd y beichiau y mae'n eu creu i amrywiol wasanaethau cyhoeddus' (Dale, 2010, t.10). Yn 2009, amcangyfrifiwyd bod ESL yng Nghanada yn costio dros \$37.1 biliwn y flwyddyn drwy gynhyrchiant is, refeniw treth is a thaliadau lles uwch (Dale, 2010, t.5).

Mae effaith ESL ar unigolion yn sylweddol, oherwydd fe'i cysylltwyd â diweithdra, enillion is, gwaith mewn galwedigaethau coler las a chyflogaeth ansefydlog ac ansicr (Dale, 2010, t.49). Mae canlyniadau eraill ESL yn cynnwys mwy o dueddiad i wynebu: beichiogrwydd cynnar/anfwriadol; troseddu; trais; camddefnyddio alcohol a chyffuriau; hunanladdiad; dibyniaeth ar fudd-daliadau lles; a hyd oes disgwylledig llai (Dale, 2020, t.32). Deilliodd y dystiolaeth hon o astudiaeth yn Ewrop ac mewn pedair gwlad OECD y tu allan i Ewrop (sef UDA, Awstralia, Canada a Japan) (GHK, 2005). Gwelwyd canlyniadau tebyg mewn adroddiad gan yr UE yn 2014 (y Comisiwn Ewropeaidd, 2014). Mae adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd *Tackling Early Leaving* yn dyfynnu astudiaethau o Ffrainc, y Ffindir, yr Alban, ac astudiaethau ar draws Ewrop sydd wedi cynhyrchu cyfrifiadau o effaith ariannol ESL ar ofal iechyd, cyfiawnder troseddol, a thaliadau budd-daliadau cymdeithasol (Comisiwn Ewropeaidd, 2014, t.23).

¹³ “Early school leaving (ESL) is costly for the individual, for society and for the economy. Not just in economic terms, but also in terms of low self-esteem, and the risk of social exclusion. More, and, in particular, better education can lead to positive outcomes, in relation to employment, level of salaries, better health, less crime, higher social cohesion, lower public and social costs, and higher productivity.”

Polisiau a strategaethau

O ran polisiau i roi sylw i ESL, ceir cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r angen i gael polisiau sy'n ceisio atal ESL rhag digwydd a pholisiau sy'n ceisio ail-integreiddio pobl ifanc sydd eisoes wedi gadael y system addysg. Mae'r gwahaniaeth rhwng strategaethau 'ataliol' ac 'ailintegreiddio' yn holl bwysig wrth benderfynu pryd ac ymhle y dylid cyflwyno peirianweithiau ar gyfer canfod y ffactorau risg a chaiff hyn ei adlewyrchu yn strategaeth yr Undeb Ewropeaidd fel y disgrifir yn Argymhellion y Cyngor yn 2011 ar bolisiau i leihau ESL. Crëwyd hon ar sail tri math o ddulliau:

Polisiau atal

Y prif amcan yma yw 'mynd i'r afael ag ESL cyn i'r symptomau cyntaf ddod i'r amlwg' (Comisiwn Ewropeaidd, 2013, t.18). Dyma'r cydrannau allweddol:

- Darparu addysg a gofal o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar;
- Cynyddu addysg drwy ddarparu addysg a hyfforddiant y tu hwnt i addysg orfodol;
- Hyrwyddo polisiau cynhwysol a darparu cymorth ychwanegol i ysgolion mewn ardaloedd tlotach;
- Cefnogi plant o wahanol grwpiau ethnig ac amrywiaeth ieithyddol; ac
- Annog rhieni i chwarae mwy o ran yn yr addysg.

Polisiau ymyrryd

Yma, yr amcan yw 'gweddnwidd ysgolion yn amgylcheddau cyfforddus ac ysbrydoledig a fyddai'n annog pobl ifanc i barhau â'u haddysg (Przybylski, 2014, t.160). Dyma rai o'r cydrannau:

- Monitro myfyrwyr sydd fwyaf mewn perygl o ESL;
- Sefydlu rhwydweithiau i gynnwys rhieni a'r gymuned leol;
- Helpu athrawon i weithio â myfyrwyr sydd mewn perygl i deilwra eu dulliau addysgu yn unol ag anghenion myfyrwyr unigol;
- Darparu cymorth mentora i fyfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig; a
- Darparu cymorth ariannol i ddysgwyr o gefndiroedd statws cymdeithasol economaidd isel (EASNIE, 2016, t.32).

Polisiau cyfadferol

Bwriedir y rhain ar gyfer pobl ifanc a adawodd yr ysgol yn gynnar ac y dylid cynnig iddynt 'ail gyfle' drwy ddosbarthiadau pontio; dilysu'r addysg anffurfiol y maent wedi'i chronni y tu allan i'r ysgol; a darparu cefnogaeth gymdeithasol, ariannol, addysgol a seicolegol.

Mae'r dull cyfan hwn yn cyd-fynd â dull Dale (2010, t.7), a awgrymodd strategaethau achub y blaen; rhoi sylw i ffactorau systemol-ddiwylliannol; cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer myfyrwyr sydd mewn perygl; a strategaethau ysgol gyfan, gan gynnwys llunio cwricwla mwy atyniadol gyda chynnwys galwedigaethol.

Yn yr un modd, mynnai Lyche (2010, t.7) fod 'atebion un elfen' yn annigonol ac y dylid gweithredu ystod eang o fesurau cydgysylltiedig, gyda'r hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau lleol. Byddai'r rhain yn cynnwys:

- **Mesurau ataliol** sy'n canolbwyntio ar sgiliau gwybyddol ac anwybyddol, cyfraniad rhieni, a chefnogaeth gymdeithasol i deuluoedd;
- **Cefnogaeth bontio** mewn ysgolion, gyda disgwyliadau uchel i'r myfyrwyr, rhaglenni camddefnyddio sylweddol, tiwtora cyfoedion a rhaglenni i fynd i'r afael ag ymddygiad peryglus;
- **Cefnogaeth a mentoriaeth unigol** i fyfyrwyr sy'n ei chael yn anodd; a
- Sefydlu **rhaglenni ESL cydlynol**.

Un elfen gyffredin yn y dulliau strategol hyn yw ei bod yn hanfodol ymyrryd yn gynnar yng nghyfranogaeth y person ifanc yn y system addysg. At hynny, mae angen sefydlu peirianweithiau er mwyn gallu mapio a thracio myfyrwyr gydol eu haddysg. Yn ei hastudiaeth o ESL ymysg yr aelod-wladwriaethau, amlygodd yr UE (2011) esiamplau o systemau tracio a gafodd neu a oedd wrthi'n cael eu cyflwyno.

Mae cronfa ddata monitro myfyrwyr a phorth e-dracio a gyflwynwyd yn yr Iseldiroedd yn y fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer ESL (UE, 2011, t.70) yn un esiampl o system rhybudd cynnar. Mae'n defnyddio'r system cofrestru myfyrwyr i gynhyrchu data ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, wedi'i fapio â data cymdeithasol economaidd gan gynnwys data ar ethnigrwydd, cyfraddau diweithdra a budd-daliadau cymdeithasol. O'r herwydd, mae'n lleoli ymddygiad disgyblion unigol (o ran eu presenoldeb) yn eu cyd-destun lleol. Swyddogion asiantaethau y tu allan i'r ysgol sy'n gwneud penderfyniadau am y camau i'w cymryd (os o gwbl) a hynny ar sail data presenoldeb y model. Mae ganddo hefyd 'School Dropout Explorer', sy'n 'offer rhyngweithiol sy'n darparu data meintiol ar ESL, a gwybodaeth gefndir gan gynnwys rhaglenni addysgol, esiamplau o brosiectau a chysylltiadau rhanbarthol'. Mae'n gwneud tueddiadau mewn ESL yn haws eu canfod a'u monitro drwy ddarparu data

cymaradwy fesul rhanbarth, sefydliad addysgol a blynyddoedd ysgol (UE, 2011, t.224).

Mae cymariaethau rhwng gwledydd a fu'n fwy llwyddiannus yn cynnal lefelau isel o ddiweithdra ac anweithgarwch ymysg pobl ifanc 15-19 oed (Awstria, Denmarc, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Norwy a'r Swisdir), a gwledydd llai effeithiol (Awstralia), yn awgrymu'r ffactorau sylfaenol posibl canlynol (Sweet, 2012, t.iv-v):

- **Trefniadau sefydliadol**, megis bod ganddynt raglenni uwchradd uwch hirach ar waith, sydd felly'n cadw pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant;
- Presenoldeb **systemau prentisiaethau cadarn**, a gefnogir gan gyflogwyr ac undebau llafur, sy'n hwyluso cyfnodau pontio pobl ifanc; a
- Rhoi pwyslais ar **atal disgyblion rhag gadael yr ysgol yn gynnar**, yn hytrach na dibynnu ar fesurau ailintegreiddio ar ôl i ddisgyblion adael.

Er mai ychydig o dystiolaeth sydd ar gael i awgrymu y byddai RPA yn cael effaith gadarnhaol ar ESL, mae dwy astudiaeth a wnaed yn UDA wedi esgor ar ganfyddiadau diddorol. Roedd y gwaith o ddadansoddi'r set ddata genedlaethol ar gyfer blynyddoedd academaidd 2001-02 i 2005-06 er mwyn archwilio'r cyfraddau gadael fesul talaith, rhanbarth o'r wlad, ac oedrannau ysgol gorfodol o 16, 17, ac 18 yn awgrymu mai 'perthynas fechan iawn oedd gan oed ysgol gorfodol ag amseriad gadael yr ysgol a dim perthynas ystyrion â graddio o'r ysgol uwchradd' (Landis a Reschly, 2011, t.719). At hynny, 'nid oedd patrwm amlwg o ostyngiadau yn y cyfraddau gadael i'w weld ar gyfer taleithiau a gododd eu hoedrannau mynychu'. Daeth adolygiad o ymchwil a oedd yn archwilio effeithiolrwydd deddfau presenoldeb gorfodol ym Massachusetts i leihau'r gyfradd gadael a chynyddu'r gyfradd raddio i'r casgliad, er bod angen creu ymateb i'r argyfwng gadael, y ceid diffyg dystiolaeth i gefnogi'r symudiad i godi'r oed ysgol gorfodol (Norton et al., 2009).

Effeithiau codi'r oed cyfranogi yng Nghymru

Cyfweliadau â hysbyswyr allweddol

Fel rhan o'r adolygiad byr hwn o'r dystiolaeth, cynhaliwyd cyfweliadau fideo â naw o hysbyswyr allweddol, a oedd yn cynnwys uwch lunwyr polisïau, yn ogystal ag uwch gynrychiolwyr o blith sefydliadau sy'n chwarae rhan allweddol mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ar draws Cymru. Diben y cyfweliadau oedd casglu barn yr

hysbyswyr ar y tirlun addysg, cyflogaeth a hyfforddiant (EET) cyfredol yng Nghymru, yr angen am newid ac a yw'n deilwng gweithredu RPA yng Nghymru.

Trosolwg ar y tirlun addysg ôl-16/ cyflogaeth/hyfforddiant presennol

Er y ceid consensws cyffredinol bod amrediad o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yn bodoli ar draws Cymru, cafodd nifer o faterion eu codi o safbwynt y cwnpas, dyblygu, hygyrchedd a'r gwerth ymddangosiadol. Amlygwyd y materion allweddol canlynol:

Y gagendor rhwng yr academiaidd a'r galwedigaethol

Mae'r gagendor rhwng yr academiaidd a'r galwedigaethol yn dal i reoli a siapio addysg ôl-16, gan gynnwys:

- **Amgyffrediad:** Erys barn eang ymysg llawer o bobl ifanc, eu rhieni a'u cyfoedion bod addysg academiaidd a gyflwynir mewn amgylchedd chweched dosbarth traddodiadol yn cynnig darpariaeth a chyfle o safon ac ansawdd uwch o'i chymharu â'r addysg alwedigaethol a gynigir mewn sefydliad addysg bellach (AB). At hynny, dywedwyd bod addysg academiaidd a gyflwynir mewn amgylchedd AB hefyd yn dioddef o'r un broblem â'i 'delwedd'. Ym marn nifer o hysbyswyr allweddol, mae hyn yn pwyntio at angen am well gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl ifanc a'u rhieni, er mwyn chwalu amgyffredion negyddol a chamarweiniol am ddewis ac ansawdd yr arlwy ôl-16 sydd ar gael o fewn a rhwng ardaloedd. Yn benodol, roedd angen newid dylanwad rhai credoau sy'n cael eu harddel gan gyfoedion, teuluoedd a'r gymuned, er mwyn cael rhagor o bobl ifanc i ddewis addysg alwedigaethol.
- **Rheoli:** Caiff addysg alwedigaethol ac addysg academiaidd eu rhannu ar lefel y llywodraeth, yn rhanbarthol ac yn lleol. Ceid consensws, er gwaethaf ymdrechion i gydgordio'r arlwy ôl-16 galwedigaethol ac academiaidd, eu bod yn dal yn rhanedig oherwydd bod ysgolion a cholegau AB dan reolaeth gwahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru ac yn cael eu gwahanu ar lefel ranbarthol a lleol, h.y. pedwar rhwydwaith ysgolion rhanbarthol a thair gwahanol bartneriaeth sgiliau rhanbarthol; trefniadau ariannu gwahanol; gyda cholegau AB yn annibynnol ar reolaeth awdurdodau lleol. At hynny, ceir amwysedd yn y trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd rhwng awdurdodau lleol a chonsortia ysgolion rhanbarthol. Caiff y gwahaniaethau eu dwysau drwy fod trefniadau llywodraethu ar wahân yn bodoli mewn ysgolion a cholegau, o ran eu hamodau gweithio, contractau cyflogaeth a safonau arweinyddiaeth / proffesiynol. Mae gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith hefyd eu strwythur

rheoli, eu trefniadau contractio a'u telerau ac amodau staff eu hunain. O ran ymatebolrwydd i anghenion y farchnad lafur, mynegwyd pryder ynglŷn â'r oedi rhwng cyflwyno'r ddadl dros y ddarpariaeth newydd mewn AB a sefydlu cyrsiau newydd i fodloni anghenion sgiliau'r presennol a'r dyfodol.

- **Cystadleuaeth:** Mae'r gwahaniaeth mewn trefniadau llywodraethu a rheoli rhwng ysgolion a cholegau AB yn creu cystadleuaeth ac, yn rhy aml, yn gweithio yn erbyn buddiannau cael arlwy addysg a hyfforddiant ôl-16 cydlynol. Yn hollbwysig, mae trefniadau a chymhellion ariannol sefydliadol yn aml yn lliniaru yn erbyn cefnogi buddiannau dysgwyr unigol. Er bod ymgeisiau wedi'u gwneud i feithrin partneriaethau yn lleol i ddatblygu arlwy ôl-16 integredig, ac mae rhai esiamplau o ymarfer da yn bodoli ar draws Cymru, maent yn dal yn ddibynnol ar gysylltiadau a pherthnasoedd unigol.

“....mae rhai ardaloedd yn y rhwydweithiau 14-19 lle mae ganddynt yn dal gysylltiadau cydweithredol a phartneriaethau strategol ond mewn ardaloedd eraill mae'n ymwneud â pherthnasoedd rhwng darparwyr lleol, e.e. Ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mewn rhai ardaloedd yn y Gogledd Orllewin, roedd ganddnt arian gan rwydweithiau ac yna roeddent yn defnyddio arian UE ac maent wedi datblygu arlwy cyffredin... Mewn ardaloedd eraill mae wedi dychwelyd at gystadleuaeth rhwng darparwyr a) oherwydd diffyg ffocws a b) mae'r polisi wedi newid ac mae'r ymdeimlad hwnnw o weithio cymunedol wedi darfod.”¹⁴ (Cyfwelai 5)

Pobl ifanc yn y farchnad lafur

Yn cyd-fynd â'r ddadl uchod ynglŷn â'r gwahaniaeth gwerth a roddir ar addysg alwedigaethol, yr oedd cryfder teimlad, er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddatblygu llwybr prentisiaethau ôl-16 cyffrous, ei fod yn dal yn ddewis eilradd yng ngolwg gormod o bobl ifanc. Mynnwyd bod angen gwneud a chynnal mwy o ymdrech i hyrwyddo'r llwybr prentisiaethau i bobl ifanc mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r camagraffiadau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau pobl ifanc, yn benodol drwy ddylanwad grwpiau cyfoedion a theulu. At hynny, er gwaethaf ymdrechion amlwg i gynyddu ymwybyddiaeth yn well ymysg pobl ifanc am yr holl

¹⁴ “....there are a few areas in the 14-19 networks where they still have strategic partnerships and collaborative links but in other areas it is down to good relations between local providers, e.g. Welsh-medium schools and in some areas in the North West, they had money from networks and then used EU money and have developed a common offer... In other areas it has gone back to competition between providers a) because of a lack of focus and b) policy has changed and that sense of community working has gone.”

ddewisiadau ôl-16, mae gormod o bobl ifanc yn cymryd y dewis 'diogel' o aros yn yr ysgol.

Er gwaethaf y cynnydd mewn cyfraddau dysgu ôl-16 yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, ceir nifer fynnych o bobl ifanc o hyd sy'n gadael yr ysgol cyn gynted â phosibl ac yn symud i waith heb hyfforddiant. Er bod y ffigurau hyn mewn rhai rhannu o Gymru yn cynnwys pobl ifanc sy'n symud i fusnesau teuluol neu'n hyfforddi 'wrth eu gwaith', ychydig sy'n hysbys i raddau helaeth am ddata a phroffil y grŵp hwn o ddysgwyr. Yn hollbwysig, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut mae pobl ifanc yn cael cyflogaeth, eu hamodau gweithio, natur y gwaith a wneir a pha mor gynaliadwy ydyw. At hynny, ychydig a wyddys am eu cyflogwyr a'u parodwydd a'u gallu i gynnig hyfforddiant i bobl ifanc pe'i cynigiwyd iddynt drwy gynlluniau prentisiaethau neu swyddi dan hyfforddiant. Cafwyd arwydd clir bod angen gwybod rhagor am bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad dan 18 oed, os oedd yr oed cyfranogi mewn dysgu yn mynd i gael ei godi.

Pobl ifanc yn y grŵp NEET

Er y ceid consensws cyffredinol bod pobl ifanc yn y grŵp NEET yn flaenoriaeth uchel yn y trefniadau llunio a darparu polisiau yng Nghymru, o ran mesurau ataliol ac ailintegreiddio fel ei gilydd, cafodd cynaliadwyedd cyllid i gefnogi ymyraethau ei godi fel mater a oedd yn peri pryder. Yn fwy penodol, roedd hyn yn ymwneud â'r ffaith mai arian ESF/UE a oedd yn syflaen i rai ymyraethau NEET a hefyd ansicrwydd ynglŷn â pheirianweithiau cyllid i'r dyfodol i helpu pobl ifanc sydd mewn perygl o adael addysg, yn ogystal â phobl ifanc a oedd yn rhan o'r grŵp NEET cyn eu bod yn 18 oed.

Dysgu cyn-16

Fe wnaeth nifer o ymatebwyr godi pryderon am ansawdd a chynnwys addysg cyn-16 ac effaith hynny ar y tueddiad i rai grwpiau o bobl ifanc gyfranogi a chwblhau ar ôl-16. Roedd rhywfaint o'r pryder hwn yn ymwneud â'r system gymwysterau a'r ymgyrch i wella canlyniadau cymwysterau, ar draul bodloni anghenion dysgwyr unigol.

“A allwch chi ddychmygu rhywun yn dweud wrthyhych pan ydych yn 15, oherwydd y system haenau, yr oll a gewch yw gradd D ond mai'r tocyn aur yw gradd C ac uwch, pam byddech chi'n trafferthu?...Mae'r

system yn llawn methiannau a dim ond rhai sydd â manteision penodol sy'n gallu elwa ohoni.”¹⁵ (Cyfwelai 4)

“Yr oll a wna'r ymyrraeth yn 16 oed i fynd i'r afael â statws NEET yw dangos y methiant a gawsant cyn hynny.”¹⁶ (Cyfwelai 2)

Codwyd materion penodol o safbwynt grwpiau dysgwyr agored i niwed a'r culhau yn y dewisiadau yn y cwricwlwm i fodloni eu hanghenion oherwydd y ffocws ar addysgu Saesneg a mathemateg. Adroddwyd bod llai o ddewisiadau galwedigaethol ar gael i bobl ifanc mewn ysgolion neu mewn ysgolion sy'n gweithio mewn partneriaethau â cholegau, darpariaeth cyrsiau Lefel 1 yn benodol. Er bod rhaglenni prentisiaethau i rai 14-16 oed yn effeithiol, fe allant arwain at fod rhai pobl ifanc yn cael eu cofrestru ddwywaith, a'u canlyniadau arholiadau i bob pwrpas yn cael eu 'cuddio' er mwyn gwarchod ffigurau perfformiad yr ysgol. Mae mater tebyg yn ymwneud â chofrestru rhai pobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion.

Mynegodd nifer o'r cyfweleion eu pryder ynglŷn â'r graddau yr oedd addysg ôl-16 ac, yn fwy penodol, colegau AB yn ffordd o wneud iawn â nifer o ddysgwyr yr oedd y system ysgol orfodol wedi eu siomi. Tynnwyd sylw at yr holl amser yr oedd staff colegau yn gorfod ei dreulio yn galluogi dysgwyr i feithrin neu ail-ddysgu sgiliau y dylent fod wedi'u dysgu yn yr ysgol. Yn debyg i'r pwynt hwn yr oedd sylw ar y diffyg trefniadau ffurfiol rhwng nifer o ysgolion a cholegau i helpu myfyrwyr yn y cyfnod pontio yn 16 oed, yn benodol o ran rhannu gwybodaeth am faterion a allai roi myfyriwr mewn sefyllfa lle mae'n berygl o adael addysg.

“Mae'n teimlo bod pob cam o brofiad dysgwr, boed nhw mewn oed cynradd, uwchradd neu ôl-16, yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun yn hytrach na fel siwrnai drwy'r broses gyfan. Mae pethau wedi'u hynysu. Cyfeiriais at hyn yn ddiweddar fel ras gyfnewid ac y dylech wastad drosglwyddo'r baton ymlaen (y dysgwr) gyda chyfrifoldeb. Mewn gormod o achosion, mae pobl yn trosglwyddo'r baton ymlaen heb ddim perchnogaeth o'r hyn ddigwyddodd o'r blaen.”¹⁷ (Cyfwelai 3)

¹⁵ “Can you imagine being told at the age of 15 because of the tiered system that all you will get is a D grade but the golden ticket is C grade and above, why would you bother?....The system is baking in failure and only those who have specific advantages are able to take benefit from it.”

¹⁶ “The intervention at 16 to tackle NEET status is only demonstrating the failure that they have received before.”

¹⁷ “It feels that each phase of a learner's experience, lest that be primary, secondary or post-16, is looked at in isolation rather than a journey through the whole process. There are a lot of silos. I referred to it recently as a relay race and you should always pass the baton on (the learner) with responsibility. In too many instances, people are passing the baton on without ownership of what happened before.”

Trafnidiaeth

Ystyrir bod trafndiaeth yn dal i fod yn broblem fawr. Mae cost, amser a chymhlethdod cludo dysgwyr at ddarparwyr eraill, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn rhwystrau ymarferol rhag gweithio'n gydweithredol a chysoni'r ddarpariaeth. Roedd dysgu o bell, fideo-gynadleddau a thiwtoriaid yn teithio rhwng safleoedd yn dechrau cael eu datblygu a'u gweithredu cyn pandemig y Coronafeirws, er y dylai arferion da gwerthfawr gael eu rhannu a'u datblygu ymhellach.

Newid posibl a'i weithredu

Er y ceid cytundeb cyffredinol y dylai pobl ifanc ar draws Cymru gyfranogi mewn dysgu o ryw fath nes eu bod yn 18 oed, cafwyd safbwyntiau cymysg am sut gellir cyflawni hyn. Canolbwyntiai'r drafodaeth ar rinweddau a pheryglon cyflwyno deddfwriaeth RPA i orfodi pobl ifanc i aros mewn addysg a'r dewis amgen sef cyflwyno newidiadau polisi a fyddai'n cael eu llunio i annog ac ymestyn cyfranogaeth, cyfraddau cadw a chyflawniad mewn addysg ôl-16. Un farn gyffredinol oedd y dylid cynnig amrywiol ddewisiadau ôl-16 i bobl ifanc (addysg, cyflogaeth a hyfforddiant), ac y byddai llwybr ôl-16 gorfodol, yn yr ysgol yn ddewis rhy gul i rai grwpiau o bobl ifanc. At hynny, er bod bron 90% o bobl ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd yn symud i addysg neu hyfforddiant y tu hwnt i'r oedran gadael ysgol statudol, sef 16 oed, mae'r cyfraddau cadw a chyflawni ymysg pobl ifanc 17-18 oed yn llawer is. Mae hyn yn awgrymu bod angen ymyrryd.

Rhoddwyd cryn bwysigrwydd ar y newidiadau a gyflwynir drwy'r Cwricwlwm Newydd i Gymru mewn addysg cyn-16, yn ogystal â'r diwygiadau arfaethedig mewn addysg orfodol, ac addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET), fel datblygiadau allweddol i'w gwneud yn angenrheidiol i wneud newid yn yr arena ôl-16. Dadleuai rhai ymatebwyr y byddai angen i'r newidiadau uchelgeisiol a wneir i addysg cyn-16 gael eu cefnogi gan newidiadau ategol i addysg ôl-16 o 2027 ymlaen, pan fydd y garfan gyntaf o ddysgwyr y cwricwlwm newydd yn cwblhau Blwyddyn 11. Mae hwn yn gyfle i edrych ar sut gellir cydgordio arlwy ôl-16 gyda llwybrau clir. Hefyd, bydd y PCET, yn amodol ar ddeddfwriaeth, yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) fel yr un awdurdod strategol a fydd yn gyfrifiol am oruchwyllo pob agwedd ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol erbyn 2023. Pwrpas sefydlu'r Comisiwn yw cryfhau a symleiddio'r sector ôl-16 yng Nghymru a gwneud cyfleoedd dysgu yn fwy perthnasol ac ymatebol i anghenion dysgwyr.¹⁸

¹⁸ https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-08/Post16_2018_2019_en_0.pdf

Defnyddio gorfodaeth i wella cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawniad mewn addysg ôl-16

Codwyd nifer o faterion am gyflwyno'r ddeddfwriaeth RPA yng Nghymru, o safbwynt ei effaith, cyllid a gweithredu. Ar yr ochr gadarnhaol, dadleuwyd y byddai cyflwyno deddfwriaeth RPA yn codi disgwyliadau ymysg pobl ifanc, eu cyfoedion, rhieni a chyflogwyr bod yn rhaid i ddysgu barhau ar ôl 16 oed ac y byddai hynny yn cynyddu'r cyfraddau cyfranogi ar ddiwedd Blwyddyn 11. Fodd bynnag, codwyd amheuan ynglŷn â'r angen i weithredu deddfwriaeth, pan fo'r mwyafrif o bobl ifanc 16 oed yn aros mewn addysg o ryw fath ar hyn o bryd. Erys y pryder sylfaenol ynglŷn ag a fyddai deddfwriaeth RPA yn gwella cyfraddau cadw ymysg pobl ifanc 17 ac 18 oed. Un farn gyffredin oedd mai'r unig ffordd o wella'r cyfraddau cadw oedd drwy wella arlwy'r cwricwlwm ôl-16 a'i hygyrchedd ar draws Cymru.

Roedd disgwyl y byddai angen rhoi hwb i gyllid ôl-16 ochr yn ochr â chyflwyno'r ddeddfwriaeth RPA, a chafodd hynny, yng nghyd-destun toriadau i'r gyllideb dros y blynnyddoedd diwethaf, ei groesawu'n eang. Cafodd rhaglenni sy'n cefnogi pobl ifanc yn y grŵp NEET ar hyn o bryd eu neilltuo fel maes a fyddai'n elwa o gyllid parhaus. Ar hyn o bryd, caiff y rhain eu cynnal gan arian o amrywiol lifoedd cyllid, ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd iawn cynnal y ddarpariaeth.

At hynny, byddai gofyn gwneud cryn fuddsoddiad i ehangu arlwy'r cwricwlwm i fodloni anghenion grŵp ehangach o ddysgwyr, yn fwyaf penodol bobl ifanc sy'n NEET, mewn gwaith heb hyfforddiant neu'n cael ffurfiau amgen ar addysg cyn-16. Mae'n bosibl y byddai angen cynyddu lefelau staffio a chapasiti adeiladau mewn ysgolion a cholegau (yn ddibynnol ar dueddiadau demograffig), yn ogystal â buddsoddi i hyfforddi a datblygu staff. Byddai hefyd angen asesu a rheoli anghenion cyflogwyr, yn enwedig rhai sydd ar hyn o bryd yn recriwtio gweithwyr ifanc heb gynnig hyfforddiant achrededig. Hefyd, byddai strategaeth orfodi gadarn yn ofynnol, gydag ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i ba sancsiynau i'w defnyddio a sut, ynghyd â fformat unrhyw broses apeliadau a'r amserlen ar gyfer gweithredu.

Dyma rai ystyriaeth eraill a godwyd o safbwynt gweithredu:

- Sicrhau bod gan bobl ifanc ar draws Cymru fynediad i arlwy ôl-16 tebyg;
- Lleihau'r gystadleuaeth a'r dyblygu rhwng darparwyr a meithrin gwaith partneriaeth er mwyn bodloni anghenion dysgwyr;
- Tracio a monitro cyrchfannau; a
- Delio ag ymddygiad posibl a fydd yn tarfu ar eraill a chyfraddau triwantiaeth uwch mewn ysgolion a cholegau oherwydd y gyfranogaeth orfodol.

Ystyriwyd bod rhoi cosbau a gorfodi dysgu ymysg grwpiau dysgwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth addysg erbyn 16 oed yn cyflwyno ffactor risg sylweddol. Gan mai pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig a grwpiau cymdeithasol economaidd isel yw'r rhain yn bennaf, gallai cyflwyno RPA arwain at gynyddu eu sefyllfa o fod wedi'u hallgau yn economaidd ac yn gymdeithasol, a'u cyfranogaeth mewn dysgu i'r dyfodol.

Gostwng y cyfraddau diffyg cyfranogi a chyfraddau gadael yn gynnar ar ôl-16 drwy ymestyn cefnogaeth ac ehangu dewis

Un llwybr a ffafriwyd ar gyfer sicrhau cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni gwell mewn addysg ôl-16 yng Nghymru oedd drwy well arlwy ôl-16. Gallai hyn darddu o adolygiad o ddarpariaeth a chyllid ôl-16, o ran cynnwys, modd ac ansawdd, gyda'r nod o gael gwell amrywiaeth ac ail-asesu sut gellir cyflwyno arlwy ôl-16 cyffredinol ar draws Cymru. Hefyd, byddai angen asesu a rheoli anghenion grwpiau dysgwyr sy'n gadael neu nad ydynt yn cyfranogi ar hyn o bryd, a'u rhesymau am ymddieithrio. Byddai hyn yn golygu adnabod ac ehangu mynediad i hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ifanc a chyflogwyr, o bosibl drwy gynyddu nifer y prentisiaethau a'r swyddi dan hyfforddiant a/neu gyflwyno rhaglenni hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc.

Ymysg y problemau gweithredu sylweddol a nodwyd yr oedd:

- Y gost;
- Sefydlu arlwy cydlynol a chyson sy'n canolbwyntio ar y dysgwr;
- Lleihau'r cyfleoedd a'r cymhellion sy'n creu cystadleuaeth rhwng darparwyr ôl-16;
- Sefydlu gwaith partneriaeth rhwng darparwyr ôl-16;
- Lleihau dyblygu;
- Archwilio dewisiadau addysgu a dysgu amgen y tu allan i addysgu yn yr ystafell ddosbarth;
- Mynediad cyfartal i gyngor ac arweiniad diduedd;
- Cynnig cymhellion ariannol i ddysgwyr a chyflogwyr;
- Cyflwyno systemau lefel uwch i fapio a thracio dysgwyr ôl-16; a
- Systemau cefnogi cadarn i leihau'r cyfraddau gadael yn gynnar.

Ac ystyried y rhwystrau diwylliannol sefydlog rhag cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant sy'n dal i fodoli mewn rhai cymunedau, un nod hirdymor o anghenraid fyddai sicrhau cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni gwell mewn addysg ôl-16 ar

draws Cymru. Fodd bynnag, ystyriwyd bod mynd i'r afael â rhwystrau pobl ifanc rhag ymgysylltu mewn dysgu parhaus yn holl bwysig i roi sylw i allgau cymdeithasol ac economaidd.

Y Gymraeg

Ni waith pa drywydd a gymerir i gryfhau cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni, un farn gadarn oedd bod angen gwneud ymdrechion glew i wella ac ymestyn addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Amlygwyd y prinder athrawon a darlithwyr fel un broblem sylweddol a pharhaus. Yn benodol, mae absenoldeb athrawon medrus i gyflwyno cyrsiau galwedigaethol lefel uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector AB yn dal yn broblem gyffredin, ochr yn ochr â diffyg cymwysterau a phrinder dilyswyr ac adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg. Erys hyn yn rhwystr rhag ymestyn nifer yr athrawon/darlithwyr sydd â'r sgiliau gofynnol a dysgwyr ôl-16 cyfrwng Gymraeg. Honnwyd bod cynllun deng mlynedd yn ofynnol i:

- Wneud gwelliant radical yn ansawdd addysgu Cymraeg mewn ysgolion Saesnig;
- Cynyddu carfan y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, sy'n cynnal eu sgiliau iaith a'u sgiliau ysgrifenedig y tu hwnt i addysg orfodol/ôl-orfodol;
- Cryfhau'r capasiti hyfforddi athrawon.

Hefyd, dylid annog pobl ifanc i gydnabod a datblygu manteision eu sgiliau dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, o ran gwella'u cyflogadwyedd.

Casgliadau

Nod adolygiad 2007 NfER oedd asesu'r dystiolaeth ar yr effaith, y manteision a'r heriau disgwyledig sy'n gysylltiedig ag RPA. Cyfyngwyd y llenyddiaeth i ddeunydd a gyhoeddwyd er 2000, ac roedd hynny'n cyfyngu ar y sylfaen dystiolaeth. At hynny, roedd swmp y dystiolaeth a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar fanteision ehangach addysg ôl-16, yn hytrach nag yn cyflwyno dadl argyhoeddiadol dros orfodi. Hefyd, tra bod rhan sylweddol o'r adroddiad wedi'i neilltuo i adnabod nodweddion pobl ifanc nad ydynt mewn grŵp NEET a phobl ifanc sydd mewn swyddi heb hyfforddiant, diystyrir y mater dyrys o sut bydd gweithredu'r RPA yn goresgyn eu rhwystrau rhag dysgu.

Yn Lloegr, codwyd yr oed cyfranogi i 17 yn 2013 ac i 18 oed yn 2015. Er bod y cynigion gwreiddiol a ddisgrifiwyd yn bwriadu gwneud pobl ifanc nad oeddent yn cyfranogi mewn unrhyw fath o addysg a hyfforddiant ôl-16 yn droseddwyd (DfES, 2007), roedd diffyg gorfodi o unrhyw fath ym mhroses y llywodraeth glymblaid o

weithredu'r RPA, gan awgrymu felly ymrwymiad gwirfoddol ar ran pobl ifanc i gyfranogi.

Er bod y treialon RPA wedi darparu gwersi gwerthfawr i gefnogi gweithredu yn ehangach, ni welwyd dim gwerthusiad cyhoeddedig ac annibynnol o effaith y ddeddfwriaeth ers ei chyflwyno. Mae data ar gyrchfannau ôl-16 yn darparu tystiolaeth bod cyfraddau cyfranogi mewn addysg wedi cynyddu er 2013, er bod cyfraddau hyfforddiant wedi syrthio. Mae hyn yn awgrymu bod yr RPA yn annog rhagor o bobl ifanc i aros yn yr ysgol, er ei bod yn amhosibl ynysu ei effaith oddi wrth newidiadau eraill a ddigwyddodd dros yr un cyfnod e.e. cyflwyno'r ardoll prentisiaethau.

Ochr yn ochr â Lloegr, mae nifer o daleithiau yn America ac Awstralia yn y blynyddoedd diwethaf wedi codi'r oed cyfranogi mewn addysg, dan ddylanwad y ddadl y byddai gweithlu â gwell cymwysterau yn gwella allbwn economaidd a'u perfformiad mewn marchnad economaidd fyd-eang sydd wedi globaleiddio fwyfwy. Mewn rhai achosion, cefnogwyd hyn gan agenda gynhwysiant, gydag ymrwymiad y byddai gorfodi unigolion ifanc i gyfranogi'n barhaus mewn addysg (neu hyfforddiant) am gyfnodau hwy yn helpu i leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd. Cymysg, ar ei gorau, yw'r dystiolaeth i gefnogi'r honiadau hyn.

Yn achos Prydain Fawr, gwnaed gwaith dadansoddi helaeth ar effaith codi'r oed gadael ysgol (ROSLA) yn 1972, pan gafodd ei ymestyn o 15 i 16. Er bod y dystiolaeth yn dangos effaith gadarnhaol ar gyflogau a chymwysterau a enillwyd, rhaid rhoi hyn yng nghyd-destun yr amodau economaidd gwahanol a geid ar y pryd, ynghyd â'r cyfraddau llawer is o gymwysterau addysgol yr oedd pobl ifanc yn eu hennill. Yn bwysig, o ran ei weithredu a'i gyflawni, cafodd yr ymrwymiad i godi'r oed gadael ysgol ei gorffori yn Neddf Addysg 1944, sy'n dangos yr amser a gymerwyd i ariannu a gweithredu'r broses o'i gyflawni.

Yn ehangach, yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o wledydd/taleithiau sydd wedi gweithredu RPA wedi mabwysiadu dewis ehangach o opsiynau i bobl ifanc y tu hwnt i aros yn yr ysgol, gan gynnwys llwybrau hyfforddiant, gwaith â hyfforddiant, yn ogystal â darpariaethau dysgu amgen. Er ei bod yn rhy fuan i asesu'r canlyniadau economaidd ac addysgol cyffredinol oddi wrth fesurau o'r fath, mae gwersi defnyddiol i'w dysgu am weithredu a chyflawni. Dengys tystiolaeth o America ac Awstralia fod y newidiadau yn aml yn cael eu gweithredu'n rhy gyflym, gydag amser a chyllid annigonol yn cael ei roi i ysgolion a darparwyr i baratoi ar gyfer y newidiadau, gan gynnwys rheoli a bodloni anghenion grŵp dysgwyr llawer mwy amrywiol.

Yn hytrach na, neu yn ogystal â, mynd ar drywydd polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i bobl ifanc aros mewn addysg am gyfnodau hwy, ceir lluo o ymyraethau yn rhyngwladol sydd wedi canolbwyntio ar leihau'r cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar (ESL). Ar annog a chynnal pobl ifanc mewn addysg am gyfnodau hwy y mae'r

ffocws, gyda'r nod cyffredinol o wella eu canlyniadau economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â gwella perfformiad a ffyniant economaidd gwledydd. Dangosodd adolygiad o'r dystiolaeth fod ESL/EL yn fater dyrys sy'n cynnwys nifer o brosesau achosol plethedig. Daeth i'r casgliad bod cymhlethdod o'r fath yn gofyn am ymateb cydlynus a strategol gan lunwyr polisïau yn hytrach na hap-ddetholiad o ymyraethau.

Cafodd y mater o godi'r oed cyfranogi drwy ddulliau gorfodol neu wirfoddol ei roi yn ei gyd-destun drwy drafodaethau â nifer o hysbyswyr allweddol yng Nghymru. Drwyddi draw, ystyriwyd bod y cyfraddau cyfranogi mewn addysg ôl-16 yng Nghymru yn uchel iawn yn 16 oed a chodwyd cwestiynau'n eang ynglŷn â'r angen am newidiadau statudol i orfodi cyfaddau cyfranogi uwch. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau cadw ymysg pobl ifanc 17-18 oed yn dal i fod yn llawer is. Codwyd pryder ynglŷn â chyfraddau NEET a'r taflwybrau a'r diffyg ymyrraeth i gefnogi pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn gynnar.

Gwan oedd yr awydd am yr angen i gyflwyno deddfwriaeth RPA i orfodi pobl ifanc i gyfranogi mewn dysgu ôl-16, gyda chwestiynau'n cael eu codi ynglŷn â logisteg gweithredu a gorfodi. Roedd manteision canfyddedig cyfranogaeth orfodol yn cynnwys sefydlu ymrwymiad i arlwy ôl-16 ehangach, er mwyn bodloni anghenion grŵp amrywiol o ddysgwyr, yn enwedig gweithwyr ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant (nad ydynt ar hyn o bryd yn cael unrhyw sylw nac ymyrraeth bolisi), a sicrhau cyllid parhaus i gefnogi cynlluniau a fwriedir ar gyfer y grŵp NEET. Gwelwyd pryderon llawer mwy yn ymwneud â graddau'r gystadleuaeth rhwng y ddarpariaeth a darparwyr ôl-16 (academaidd yn erbyn galwedigaethol) sydd ar hyn o bryd yn tanseilio'r cwmpas a'r effaith. Un neges gyson oedd yr angen am newid sefydliadol a strwythurol yn yr arena ôl-16 ar draws Cymru i sicrhau arlwy cydlynol, teg a chyson, wedi'i ategu gan fwy o gysylltiad rhwng llwybrau cyn-16 ac ôl-16. Ceid anogaeth eang i strategaethau sy'n cymhell ac yn annog pobl ifanc i gyfranogi ac aros a chyflawni mewn addysg ôl-16.

Gan edrych ar ddatblygiadau polisi a fydd yn digwydd yn fuan, roedd y newidiadau a gyflwynir drwy'r Cwricwlwm Newydd i Gymru mewn addysg cyn-16, yn ogystal â'r diwygiadau arfaethedig mewn addysg orfodol, ac addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET), yn cael eu cydnabod fel ysgogwyr allweddol ar gyfer ysgogi newid yn yr arena ôl-16. Dadleuwyd y byddai angen i'r newidiadau uchelgeisiol a wneir i addysg cyn-16 gael eu cefnogi gan newidiadau ategol i addysg ôl-16 o 2027 ymlaen, pan fydd y garfan gyntaf o ddysgwyr y cwricwlwm newydd yn cwblhau Blwyddyn 11. Mae hwn yn gyfle i edrych ar sut gellir cydgordio arlwy ôl-16 gyda llwybrau clir. Hefyd, bydd y PCET, yn amodol ar ddeddfwriaeth, yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) fel yr un awdurdod strategol a fydd yn gyfrifol am oruchwylio pob agwedd ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol erbyn 2023. Dylai bod gan CTER friff clir i

fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig o ran y gagendor rhwng yr academiaidd a'r galwedigaethol yn ogystal â lleoliad pobl ifanc yn y farchnad lafur.

Er y gellid cyflwyno deddfwriaeth i godi'r oed cyfranogi a/neu ostwng lefelau gadael yn gynnar yng Nghymru wrth gyflwyno a gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r diwygiadau PCET arfaethedig, byddai angen rhoi ystyriaeth i nifer o ffactorau. Heb ddeddfwriaeth, ceir cryn berygl y bydd rhaglenni i hybu dysgu ac ymgysylltu ôl-16, a gynhaliwyd yng Nghymru drwy gronfeydd strwythurol yr UE, yn dod i ben, gan fod y ffynhonnell gyllid hon yn dirwyn i ben rhwng 2021-23. Er enghraifft, mewn astudiaeth ddiweddar o ymyraethau NEET ar draws y Deyrnas Unedig, gwelwyd bod y llif arian hwn yn bwysig dros ben i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, i sicrhau eu hymrwymiad parhaus i gydnabod a chefnogi anghenion pobl ifanc yn y grŵp NEET (Maguire a Keep, a gyhoeddir maes o law). Roedd y rhan fwyaf o'r llunwyr polisiâu yn y sampl yn bryderus iawn ynglŷn ag effaith Brexit ar y maes polisi hwn. Yn absenoldeb cynlluniau ar draws y Deyrnas Unedig gyfan i gefnogi pobl ifanc yn y grŵp NEET, roedd arian UE yn cynnal yr ymyrraeth bolisi. Roedd y cwestiwn sut byddai'r llif arian presennol hwn yn cael ei gynnal ar ôl Brexit yn peri pryder mawr a hefyd pa ddarpariaeth, os o gwbl, a fyddai'n bodoli ac yn cael ei hariannu i'r dyfodol, yn absenoldeb ymrwymiad ar draws y Deyrnas Unedig gyfan i gyllid parhaus drwy gyfrwng y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Lefelu i Fyny.

Yn Lloegr, ni chafwyd cyllid ychwanegol i gyd-fynd â'r RPA diweddar, er gwaethaf y ddeddfwriaeth, yn bennaf oherwydd toriadau parhaus i'r cyllid a'r mesurau cyni er 2010. Er enghraifft, mewn astudiaeth ddiweddar o ymyraethau NEET ar draws y Deyrnas Unedig, canfuwyd bod Lloegr yn llawer mwy dibynnol ar elusennau a dyngarwch i gefnogi cynlluniau, o'i chymharu â llywodraethau datganoledig y Deyrnas Unedig (Maguire a Keep, a gyhoeddir maes o law).

Gan roi'r pryderon ynglŷn â chyllid o'r neilltu, nid yw gweithredu'r ddeddfwriaeth RPA heb ei anawsterau. Mae tystiolaeth a ddyfynnwyd yn yr adroddiad hwn o daleithiau America ac Awstralia sydd wedi mabwysiadu deddfwriaeth RPA yn cyfeirio at:

- Broblemau yn gysylltiedig ag amserlenni cyflwyno brysiog fel rhwystr rhag gweithredu'n llwyddiannus;
- Methiant i fesur a ffrwyno absenoldebau; a
- Phobl ifanc/cymunedau difreintiedig yn aml ddim yn elwa o ehangu'r gyfranogaeth sy'n gysylltiedig â gorfodi dysgu parhaus (Mackay a Duncan 2013; Hodgson, 2019).

Drwyddo draw, gwan yw'r dystiolaeth i gefnogi deddfwriaeth sy'n codi'r oed cyfranogi mewn dysgu. Gwelwyd mai tameidiog yw gorfodi hyn drwy wneud newidiadau

deddfwriaethol diweddar, ac, yn achos Lloegr, mae'n ymddangos i raddau helaeth nad yw'n bod. Fodd bynnag, heb ddeddfwriaeth RPA neu heb orfodi targedau caeth i leihau'r cyfraddau gadael yn gynnar, mae'r canlyniad yn aml yn set o bolisiâu tameidiog sy'n gyfyngedig o ran amser ac arian i fynd i'r afael ag anniddigrwydd ymysg grwpiau penodol. Mae'r Cwricwlwm Newydd i Gymru/PCET yn cynnig platfform ar gyfer newid sy'n adeiladu ar brofiad gwledydd OECD sy'n dangos yr angen i ganolbwyntio ar:

- Atal yn gynnar;
- Cefnogi ac ymgysylltu â dysgwyr cyn-16 sy'n cael anawsterau;
- Monitro'r rhai sydd mewn perygl;
- Cynnig llwybrau o ansawdd da i rai sy'n llai dawnus yn academiaidd; a
- Chynnig cefnogaeth ychwanegol ar gyfer dysgu ar ddiwedd yr ysgol uwchradd (OECD, 2007; OECD, 2018).

Yn holl bwysig, dylid ymestyn yr arlwy hwn y tu hwnt i'r arena ôl-16. Gan edrych y tu hwnt i ddysgwyr ôl-16 amser llawn, rhaid deall a rhoi sylw'n well i anghenion gweithwyr ifanc ôl-16, gan eu bod o hyd yn grŵp dysgwyr ôl-16 sy'n cael eu hesgeuluso, oherwydd eu bod ar wasgar yn y farchnad lafur. Gallai hyn gynnwys ymyraethau i gefnogi eu hanghenion dysgu, o bosibl drwy opsiynau astudio rhan amser a lleihau eu tueddiad i gael gwaith 'sâl' ac ansicrwydd economaidd. Mae'r her i sicrhau a chynnal cyllid i gefnogi ymyraethau NEET yn dal i fod yn rhan allweddol arall o'r broses o ddiwygio addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.

Mae'r llenyddiaeth ar ESL/EL yn dangos gorddibyniaeth ar ymyraethau polisi unigol ac ymyraethau gwirfoddol yn aml, yn hytrach na dull deddfwriaethol trosfwaol strategol. Mae esiampl dda o ymyrraeth ddeddfwriaethol i'w chael yn yr Iseldiroedd, lle mae fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer ESL yn cynnwys system rhybudd cynnar (EU, 2011, t.70). Er bod mesurau i atal ESL/EL wedi cael eu mabwysiadu'n eang yn rhwngwladol, fel ffordd o ffrwyno cyfraddau allgau cymdeithasol ac economaidd ymysg pobl ifanc, ni chaiff y term ei hun ei ddefnyddio'n eang ar draws y Deyrnas Unedig. Nid dweud y mae hynny nad yw'n bwysig mesur a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n syrthio allan o addysg (neu hyfforddiant) cyn cyrraedd y safonau cymwysterau a/neu'r oed gofynnol. Yn hytrach, mae'r pwyslais wedi aros ar sicrhau'r cyfraddau cyfranogi mewn dysgu gorau a lleihau'r cyfraddau NEET (ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant).

Yn olaf, er bod y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd wedi croesawu'r diffiniad ehangach o'r grŵp NEET (pobl ifanc 16-24 oed) ni chafodd peirianweithiau ei sefydlu

i fapio a thracio'r boblogaeth ehangach yn gydlynol i gyd-fynd â hynny. Mae'r ffocws wedi aros ar dracio cyrchfannau'r grŵp pobl ifanc 16-18 oed, er gwaethaf tystiolaeth sy'n awgrymu bod y grwpiau cyn ac ôl-18 yn ymgodymu â gwasanaethau cyflogaeth i oedolion (Cooke, 2013). Mae Llywodraeth Cymru wedi arloesi wrth sefydlu Cymru'n Gweithio, sy'n rhaglen a fwriedir i ddarparu cymorth cyflogaeth i grwpiau economaidd weithgar ac economaidd anweithgar (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae dyluniad y polisi hwn yn rhoi pwyslais ar fod unigolion yn cyfranogi o'u gwirfodd mewn gwasanaethau arweiniad a cheisio gwaith, a chynigia'r potensial i gael ei baru â'r cyfrifoldeb dros reoli a gweinyddu darpariaeth les ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed. Y DWP sy'n gyfrifol am hyn ar hyn o bryd, ond fe allai gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Fel arall, fe ddylid brocera cytundeb partneriaeth ffurfiol rhwng y DWP a Llywodraeth Cymru i gydreoli gwasanaethau lles a chymorth i bobl ifanc dan 25.

Argymhellion

- Dylid cadw'r ffocws presennol ar leihau cyfraddau gadael cyn gorffen a gwella canlyniadau cymwysterau ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16 ymysg pobl ifanc 17-18 oed ac i ategu hynny dylid gwneud adolygiad o fanteision cyflwyno strategaeth i leihau ESL/EL. Dylai hyn gynnwys ceisio barn pobl ifanc am eu dewisiadau a'r rhesymau am hynny.
- Mae angen gwneud adolygiad (i gyd-fynd â'r diwygiadau mewn PCET) i sicrhau bod arlwy ôl-16 cydlynus a chyson ar gael i'r holl bobl ifanc yng Nghymru; a bod hwnnw'n arlwy sy'n:
 - osgoi dyblygu;
 - yn cynnig hyblygrwydd i ddysgwyr a chyflogwyr;
 - yn darparu dewisiadau eang i gwmpasu anghenion amrywiol pobl ifanc a chyflogwyr;
 - yn egluro rolau a chyfrifoldebau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol; ac
 - yn lleihau'r gystadleuaeth rhwng darparwyr a gwahanol lwybrau ôl-16.
- Mae angen adolygu cynnwys yr arlwy dysgu ôl-16 a'i gysoni ag amcanion y Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Mae angen rhoi ystyriaeth ddyledus i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol a fyddai:
 - Yn sefydlu fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer rhoi sylw i ESL; ac
 - Yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru i ddelio â gwasanaethau lles a chymorth i bobl ifanc dan 25, o bosibl mewn partneriaeth â'r DWP.
- Dylid datblygu a threialu system well a mwy trylwyr ar gyfer mapio a thracio cyrchfannau dysgwyr ôl-16, nes eu bod yn 24 oed o bosibl, gyda'r nod o leihau'r cyfraddau gadael ymysg dysgwyr a chynnig mwy o gefnogaeth i weithwyr ifanc (yn enwedig rhai sydd mewn gwaith ansicr).
- Dylid cyflwyno cyfundrefnau ariannu parhaus i gefnogi cynlluniau a fwriedir fel mesurau i atal ac ailintegreiddio pobl ifanc NEET.
- Mae angen rhoi sylw i'r bylchau mewn addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg, yn enwedig o safbwynt:
 - prinder athrawon ac adnoddau eraill mewn pynciau galwedigaethol a sut gellir llenwi'r bwlch hwn; a

- sut gellir gwella proffil y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach a'i gwneud yn fwy cyfoes mewn addysg ôl-16 a thu hwnt, gan gynnwys gweithio'n agosach â rhieni.
- Mae angen gwneud ymchwil er mwyn cael gwell dealltwriaeth o weithwyr ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant (a'u cyflogwyr) cyn cyflwyno ymyrraeth bolisi i gefnogi eu hanghenion hyfforddiant a'u hanghenion ehangach. Dylid cysoni hyn â'r argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Gwaith Teg,¹⁹ gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gynnig mwy o gefnogaeth i rai dan 18 sydd mewn gwaith ansicr a heb sgiliau.

¹⁹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf>

Cyfeiriadau

Adanecz-Volgyi, A. (2018) **Increased compulsory school leaving age affects secondary school track choice and increases drop-out rates in vocational schools.** Budapest: Papurau Gweithio Budapest, BWP – 2018/1.

Anderson D. M., Hansen, B., a Walker, M. B. (2012). **The minimum dropout age and student victimization.** (Papur Gweithio Rhif 12–17). Atlanta: Prifysgol Talaith Georgia, Ysgol Astudiaethau Polisi Andrew Young.

Swyddfa Archwilio. (2012). **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol New South Wales. Archwiliad o Berfformiad. The impact of raised school leaving age. Adran Addysg a Chymunedau.** Sydney: Archwilydd Cyffredinol New South Wales.

Swyddfa Ystadegau Awstralia. (2006). **A picture of the nation.** Canberra: Swyddfa Ystadegau Awstralia.

Avendano, M., de Coulon, A., a Nafilyan, V. (2020). **Does longer compulsory schooling affect mental health? Evidence from a British Reform.** Journal of Public Economics. 183: 104137.

Balls, E. (2007). **Raising the Participation Age: Opportunity for all Young People.** Darlith y Fabian Society, Sefydliad Addysg, Llundain, Tachwedd 5^{ed}.

Bethhäuser, B. (2017). **Fostering Equality of Opportunity? Compulsory Schooling Reform and Social Mobility in Germany.** European Sociological Review 33(5):633–44.

Billett, S., Thomas, S., Sim, C., Johnson, G., Hay, S., a Ryan, J. (2010). **Constructive productive post-school transitions: An analysis of Australian schooling policies.** Journal of Education and Work, 23:5,471–89.

Buscha, F., a Dickson, M. (2018). **A note on the wage effects of the 1972 Raising of the School Leaving Age in Scotland.** Scottish Journal of Political Economy. 65:5, 572-582.

Chan, S. (2012). **Not until you're older: The minimum dropout age and the crime-age profile.** Heb ei gyhoeddi.

Chib, S., a Jacobi, L. (2015) **Bayesian Fuzzy Regression Discontinuity Analysis and Returns to Compulsory Education.** Journal of Applied Econometrics. 31:6, 1026-1047.

Clarke, S., a Cominetti, N. (2019) **How record employment has changed the UK.** Llundain: Resolution Foundation.

Cooke, G. (2013). **No more NEETs: A Plan for all young people to be learning or earning.** Llundain: IPPR.

Courtin, E., Nafilyan, V., Avendano, M., Meneton, P., Berkman, L.F., Golberg, M., Zins, M., a Dowd, J.B. (2019). **Longer schooling but not better off? A quasi-experimental study of the effect of compulsory schooling on biomarkers in France.** *Social Science and Medicine*. 220: 379-386.

Dale, R. (2010). **Early school leaving: lessons from research for policy makers.** Lyon: Rhwydwaith o Arbenigwyr Gwyddorau Cymdeithasol Addysg a Hyfforddiant.

Del Bono, E., a Galindo-Rueda, F. (2006). **The Long-term Impacts of Compulsory Schooling: Evidence from a Natural Experiment in School Leaving Dates** (Papur Gweithio ISER 2006-44). Colchester: Prifysgol Essex, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd.

Devereux, P., ac R. Hart. (2010). **Forced to Be Rich? Returns to Compulsory Schooling in Britain.** *The Economic Journal* 120:1345–64. doi:10.1111/j.1468-0297.2010.02365.x.

DfE. (2010). **The Importance of Teaching: The Schools White Paper 2010.** Norwich: TSO.

DfE. (2012). **Raising the Participation Age (RPA) Regulations.** (Gorffennaf).

DfES (2007). **Raising Expectations: staying in education and training post-16.** Norwich: Cm7065, Mawrth.

Doll, J. J., Eslami, Z., a Walters, L. (2013). **Understanding Why Students Drop Out of High School, According to Their Own Reports: Are They Pushed or Pulled, or Do They Fall Out? A Comparative Analysis of Seven Nationally Representative Studies.** *Sage Open*. (Hydref–Rhagfyr 2013), 1–15.
sgo.sagepub.com/content/3/4/2158244013503834

EASNIE. (2016). **Early School Leaving and Learners with Disabilities and/or Special Educational Needs: A Review of the Research Evidence Focusing on Europe.** (A. Dyson a G. Squires, gol.). Odense, Denmarc: Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysg Gynhwysol.

Estêvão, P., ac Álvares, M. (2014). **What do we mean by school dropout? Early School Leaving and the shifting of paradigms in school dropout measurement.** Portuguese Journal of Social Science.13 (1):21–32.

UE. (2011). **Reducing Early School Leaving in the EU.** Brwsel: Pwyllgor Senedd Ewrop ar Addysg a Diwylliant. Mehefin.

Comisiwn Ewropeaidd/EACEA/Eurydice/Cedefop. (2014). **Tackling Early Leaving from Education and Training in Europe: Strategies, Policies and Measures.** Adroddiad Eurydice a Cedefop. Luxembourg: Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd.

Comisiwn Ewropeaidd. (2013). **Reducing Early School Leaving: Key messages and policy support. Final Report of the Thematic Working Group on Early School Leaving.** Comisiwn Ewropeaidd. Tachwedd.

Comisiwn Ewropeaidd. (2011). **Early school leaving in Europe – Questions and answers.** MEMO/11/52

Comisiwn Ewropeaidd. (2005). **Study on Access to Education and Training, Basic Skills and Early School Leavers.** Cyf: DG EAC 38/04), Comisiwn Ewropeaidd.

Fischer, M., Karlsson, M., Nilsson, T., a Schwarz, N. (2016). **The Sooner the Better? Compulsory Schooling Reforms in Sweden.** *Papur Trafod IZA* 10430. Bonn, yr Almaen: Sefydliad Economeg Llafur IZA.

Green, C., a Paniagua Navarro, M. (2012). **Does the raising of the school leaver age impact teacher effort?: Evidence from a policy experiment.** *Ymchwiliad Economaidd.* 50:4, 1018-1030.

Hodgson, D. (2019). **Conceptualising the compulsory education policy apparatus: producing and reproducing risky subjectivities.** *Journal of Education Policy.* 34:1, 117-132, DOI: 10.1080/02680939.2017.1410578

GHK. (2005). **Study on Access to Education and Training, Basic Skills and Early School Leavers: Final Report.** DG EAC 38/04, Brussels: DG EAC. Adalwyd o: http://ec.europa.eu/education/pdf/doc284_en.pdf

Gilpin, G. A., a Pennig, L. A. (2012). **Compulsory schooling laws and in-school crime: Are delinquents incapacitated? (Papur Gweithio).** Bozeman, MT: Prifysgol Talaith Montana.

Grenet, J. (2011). **Is it Enough to Increase Compulsory Education to Raise Earnings? Evidence from French and British Compulsory Schooling Laws.** Paris: Ysgol Economeg, Gorffennaf.

Grenet, J. (2013). **Is extending compulsory schooling alone enough to raise earnings? Evidence from French and British Compulsory Schooling Laws.** The Scandinavian Journal of Economics. 115:1, 176-210.

Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin. (2011). **Participation by 16-19 Year Olds in Education and Training. Fourth Report of Session 2010-12 - Volume I: Report.** TSO. Y Llyfrfa. HC850-1.

Hull, D. (2005). **Identifying Students At Risk of Disengaging from Education and Training.** Adran Addysg a Hyfforddiant. Victoria, Awstralia.

Isos Partnership. (2011). **Evaluation of the Phase 2 Raising of the Participation Age Trials – Final Report.** Adroddiad yr Adran Ymchwil i Addysg, DFE-RR135.

Jürges, H., Reinhold, S., a Salm, M. (2011). **Does schooling affect health behavior? Evidence from educational expansion in Western Germany.** *Adolygiad o Economeg Addysg.* 30, 862-872.

Lambert, S., Maylor, U., a Coughlin, A. (2015). **Raising of the participation age in the UK: The dichotomy between full participation and institutional accountability.** International Journal of Management in Education. 9:3, 359-377.

Landis, R. N., a Reschly, A. L. (2011). **An Examination of Compulsory School Attendance Ages and High School Dropout and Completion.** *Polisi Addysgol.* 25 (5):719–761.

Lehr, C., Johnson, D., Bremer, C., Cosio, A., a Thompson. M. (2004). **Essential Tools: Increasing Rates of School Completion: Moving from Policy and Research to Practice.** Minnesota: Canolfan Genedlaethol ar Addysg Uwchradd a Phontio.

Luppino, M. (2011). **Educational sorting and peer effects: the impacts of compulsory schooling laws. (Papur Gweithio).** Washington, DC: Comisiwn Masnach Ffederal.

Liwiński, J. (2020). **The Impact of Compulsory Education on Employment and Wages in a Transition Economy,** *Economeg Dwyrain Ewrop,* 58:2, 137-173, DOI: [10.1080/00128775.2019.1689144](https://doi.org/10.1080/00128775.2019.1689144)

Lyche, C. S. (2010). **Taking on the Completion Challenge: A Literature Review on Policies to Prevent Dropout and Early School Leaving.** Papurau Gweithio Addysg OECD. Rhif 53. Paris: OECD Publishing.

Mackey, P. E., a Duncan, T. G. (2013). **Does raising the state compulsory school attendance age achieve the intended outcomes?** (REL 2014–005). Washington, DC: Adran Addysg UDA, Sefydliad Gwyddorau Addysg, Canolfan Genedlaethol dros Werthuso Addysg a Chymorth Rhanbarthol, Labordy Addysgol Ranbarthol Mid-Atlantic. Adalwyd o: <https://ies.ed.gov/ncee/edlabs/>

Maguire, S. (2013). **Will the Raising of the Participation Age (RPA) in England solve the NEET problem?**. *Ymchwil mewn Addysg Ôl-orfodol*. 18: 1-2, Mawrth-Mehefin, 61-76 (Rhifyn Arbennig).

Maguire, S., a Newton. B. (2013) **Research into the Phase 4 Locally-Led Delivery Projects for Raising the Participation Age.** Adran Addysg (DfE) RR308. Medi.

Maguire, S., ac E. Keep. (cyhoeddir maes o law). **Singing from the same hymn sheet? UK policy responses to the NEET agenda.** Prifysgol Rhydychen: Papur Gweithio SKOPE.

Meghir, C., a Palme, M. (1999). **Assessing the Effect of Schooling on Earnings Using a Social Experiment.** [Ar-lein]. Ar gael: <http://econpapers.repec.org/paper/hhshastef/0313.htm>

Meghir, C., a M. Palme (2005). **Educational Reform, Ability and Parental Background.** *American Economic Review* 95:414–24. doi:10.1257/0002828053828671.

Messacar, D., ac Oreopoulos, P. (2012). **Staying in school: A proposal to raise high school graduation rates.** (Papur Trafod Rhif 2012–07). Washington, DC: Brookings Institution, The Hamilton Project. Adalwyd o: Tachwedd 27, 2012, https://www.hamiltonproject.org/assets/legacy/files/downloads_and_links/THP_MessacarOreopoulos_CompSchool_DiscPaper_1.pdf

Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2011). **Raising the Participation Age: An Assessment of the Cost-Benefit Analysis.** Llundain: Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Neild, R. C., a Balfanz, R. (2006). **Unfilled Promise: The Dimensions and Characteristics of Philadelphia's Dropout Crisis, 2000-2005.** Philadelphia: Rhwydwaith Ieuenctid Philadelphia, Prifysgol Johns Hopkins a Phrifysgol Pennsylvania.

Norris, N. (2007). **Raising the school leaving age.** Cambridge Journal of Education. 37 (4):471-472.

Norton, J., Famularo, L., Cole, M. G., Gaudet, R., a Kilgo, C. (2009). **Raise the Age, Lower the Dropout Rate?: Considerations for Policymakers.** Massachusetts: Canolfan Ymchwil a Pholisi Addysg Rennie. Gwanwyn.

OECD. (2007). **No More Failures: Ten Steps to Equity in Education.** Paris: OECD Publishing.

OECD. (2008). **Jobs for Youth: Canada.** Paris: OECD Publishing.

OECD. (2010). **Off to a Good Start? Jobs for Youth.** Paris: OECD Publishing.

OECD (2018). **Responsive School Systems.** Paris: OECD Publishing.

Oomen, A., a Plant, P. (2014) **Early School Leaving and Lifelong Guidance.** Nodyn Cysyniad ELGPN Rhif 6. Ffindir: Rhwydwaith Polisi Arweiniad Gydol Oes Ewropeaidd.

Oreopoulos, P. (2002). **Do Dropouts Drop Out Too Soon? Evidence from Changes in School-Leaving Laws.** Toronto, ON: Prifysgol Toronto, Adran Economeg.

Oreopoulos, P. (2005). **Stay in School: New Lessons on the Benefits of Raising the Legal School leaving age.** C.D. Howe Institute Sylwebaeth Rhif. 233, Rhagfyr. Toronto: C.D. Howe Institute.

Oreopoulos, P. (2006). **The compelling effects of compulsory schooling: evidence from Canada.** Canadian Journal of Economics. 39 (1):22-52.

Oreopoulos, P. (2007). **Would more compulsory schooling help disadvantaged youth?** Yn J. Gruber (Ed.), **The problems of disadvantaged youth: an economic perspective** (tt. 85–112). Chicago: Gwasg Prifysgol Chicago.

Oreopoulos, P. (2008). **Estimating Average and Local Average Treatment Effects of Education When Compulsory Schooling Laws Really Matter.** *Corrigendum* 96 (152):139.

Przybylski, B. K. (2014). **Unsuccessful in Education: Early School Leaving,** in D. Eißel, E. Rokicka a J. Leaman (eds.), **Welfare State at Risk: Rising Inequality in Europe.** Llundain: Springer.

Reid, C., a Young, H. (2012). **The new compulsory schooling age policy in NSW, Australia: ethnicity, ability and gender considerations**, Journal of Education Policy, 27:6, 795-814, DOI: 10.1080/02680939.2012.664287

Ross, A., a Leathwood, C. (2013). **Problematising Early School Leaving**. European Journal of Education. 48 (3) 405–418. doi: 10.1111/ejed.12038.

Sansani, S. (2012). **The differential impact of compulsory schooling laws in the United States segregated south**. Papur a gyflwynwyd yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Economegwyr Llafur Ewropeaidd, Bonn, yr Almaen. Adalwyd o: <https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0272775715000060>

Smidova, Z. (2019). **Educational Outcomes: A Literature Review of Policy Drivers from a Macroeconomic perspective**. Papur Gwaith yr Adran Economeg Rhif 1577. Paris: OECD Publishing.

Uned Allgau Cymdeithasol. (2010) **National Strategy for Neighbourhood Renewal: Report of Policy Action Team 12 – Young People**. Llundain: Y Llyfrfa.

Spielhofer, T., Walker, M., Gagg, K., Schagen, S., ac O'Donnell, S. (2007). **Raising the participation age in education and training to 18**. Adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg. Adalwyd o: <https://www.nfer.ac.uk/media/2142/rpa01.pdf>

Sturgis, P., a Buscha, F. (2015). **Increasing Inter-Generational Social Mobility: Is Educational Expansion the Answer?** *British Journal of Sociology* 66(3):512–33.

Sweet, R. (2012). **Unemployed and inactive youth: What works?** Paratowyd ar gyfer Adran Addysg, Cyflogaeth a Chysylltiadau'r Gweithle, Awstralia.

Theunissen, M-J., Grienson van, I., Verdonk, P., Feron, F., a Bosma, H. (2012). **The early identification of risk factors on the pathway to school dropout in the SIODO study: a sequential mixed-methods study**. BMC Public Health. 12:1033.

Ungerleider, C. (2008). **Evaluation of the Ontario Ministry of Education's Student Success/ Learning to 18 Strategy. Final Report**. Cyngor Dysgu Canada. Adalwyd o: http://www.edu.gov.on.ca/eng/teachers/studentsuccess/CCL_SSE_Report.pdf

Llywodraeth Cymru. (2018). **Cynllun Cyflogadwyedd**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Adalwyd o: <https://gov.cymru/cynllun-cyflogadwyedd>

Llywodraeth Cymru. (2020). **Cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2018 a 2019 (dros dro)**. 30ain Gorffennaf. Adalwyd o:

<https://llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro>

Whitehurst, G. J., a Whitfield, S. (2012). **Compulsory school attendance: What research says and what it means for state policy.** Washington, DC: Sefydliad Brookings, Canolfan Brown ar Bolisi Addysg.

Wilson, T. (2017). **Compulsory education and teenage motherhood.** Papur Trafod Economeg Stirling 2017-SEDP-2017-1. Yr Alban: Prifysgol Stirling.

Wolf, A. (2007). **Diminished Returns: How Raising the Leaving Age to 18 Will Harm Young People and the Economy.** Llundain: Policy Exchange.

Woodin, T., McCullough, G., a Cowan, S. (2013). **Secondary Education and the raising of the school leaving-age: coming of age?** Efrog Newydd: Palgrave Macmillan.

Atodlen: Y Dull

Roedd y fethodoleg yn cynnwys:

- cyfarfod cychwynnol i gytuno ar bamedrau ac ystyriaethau allweddol yr astudiaeth;
- adolygiad cwmpasu i ganfod ffynonellau data;
- adolygu'r dystiolaeth a'r llenyddiaeth, drwy chwilio'r llenyddiaeth;
- dadansoddi a chyfosod er mwyn casglu'r negeseuon allweddol a darparu dadansoddiad thematig o effeithiolrwydd gweithredu RPA; a
- llunio adroddiad.

Un dechreubwynt gofynnol ar gyfer yr adolygiad o'r dystiolaeth oedd diweddarau'r adolygiad o'r llenyddiaeth a wnaed gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NfER) yn 2007. Bu **adroddiad** NfER yn edrych ar dystiolaeth ryngwladol o fanteision a heriau cynyddu'r oed cyfranogi. Yn hollbwysig, adolygwyd y dystiolaeth a gafwyd o'r treialon RPA a gynhaliwyd cyn gweithredu'r polisi yn ddiweddar yn Lloegr, yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth datblygol o'i effaith. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar gasglu dystiolaeth werthuso ryngwladol/UE, yn benodol data effaith ystadegol ar berfformiad rhaglenni ar gyfer mesurau cyfranogi gorfodol ac ymyraethau a geisiai lleihau'r cyfraddau gadael addysg a hyfforddiant yn gynnar drwy ddull gwirfoddol ac wedi'i dargedu. Wrth chwilio'r llenyddiaeth, defnyddiwyd cyfuniadau o eiriau allweddol: e.e.

- RPA mewn addysg a hyfforddiant;
- lleihau cyfraddau gadael yn gynnar;
- mesurau gadael ysgol yn gynnar;
- ymestyn dysgu ymysg pobl ifanc;
- codi'r oed gadael ysgol;
- cyfranogaeth pobl ifanc mewn addysg; a
- chyfranogaeth pobl ifanc mewn hyfforddiant ac ymyraethau 'NEET'.

Roedd penderfynu a fyddai dogfen neu ddarn o ddata penodol yn cael ei gynnwys yn ddibynnol ar ei:

- **ffocws** – materion yn ymwneud ag ymyraethau cyflogaeth pobl ifanc a thystiolaeth;
- **cwmpas daearyddol** – yn bennaf ar ddata ac adroddiadau o'r Deyrnas Unedig ac economïau datblygedig eraill;

- **math o astudiaeth** – darnau o ymchwil gwrthrychol, o sylwedd; ac
- **ansawdd** – methodoleg, maint y sampl a pha mor gynrychioliadol oedd, gwrthrychedd a thryloywder y dadansoddi a chadernid y canfyddiadau.

Er mwyn canfod ymarferoldeb a manteision cyflwyno RPA yng Nghymru, cynhaliwyd nifer (n= 9) o gyfweiliadau ar-lein/teleffon gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru i gasglu eu barn. Cytunwyd ar y cyfranogwyr dethol gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) a Llywodraeth Cymru. Y prif feini prawf ar gyfer penderfynu pwy i'w gynnwys ar y rhestr oedd eu bod yn cynrychioli sefydliadau allweddol ar lefel uwch, ac y gallent gynnig safbwyntiau gwybodus ar faterion yn ymwneud â sut gellir rhoi sylw i wahanol anghenion a blaenoriaethau.

Atodlen 2: Arweiniad i'r drafodaeth

Arweiniad i'r drafodaeth ar gyfer y cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol ar RPA yng Nghymru

Cefndir a chyflwyniad

Egluro cefndir yr ymchwil.

Nod y cyfweiliadau yw siarad â rhanddeiliaid allweddol, er mwyn:

- a. Creu darlun o safbwyntiau am gyfraddau cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru;
- b. Deall beth sy'n cael eu hystyried fel y materion craidd y mae angen rhoi sylw iddynt i'w gwella; ac
- c. Amlinellu a thrafod y dewisiadau craidd ar gyfer newid, yn benodol, codi'r oed cyfranogi, a sut gallai hyn weithio yn ymarferol i wahanol grwpiau o bobl ifanc/eu rhieni; cyflogwyr; darparwyr addysg a hyfforddiant mewn gwahanol amgylchiadau; a'r manteision y gallai ymatebwyr, derbynwyr a Llywodraeth Cymru eu cael ohono.

Rydym yn siarad ag amrywiol rhanddeiliaid, er mwyn inni gasglu llw o safbwyntiau.

Rhowch sicrhad i'r cyfweilai ynglŷn â chyfrinachedd a gofyn caniatâd i recordio'r cyfweiliad ar dâp – at ddibenion yr ymchwilydd yn unig.

Gair am eich rôl

Beth yw eich rôl yn eich swydd bresennol?

Pa ran sydd/a oedd gennych mewn darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru?

HOLWCH:

- Beth yw eich rôl (os yn wahanol)?
- A ydych chi'n ymwneud â hyn ar lefel darparwr, awdurdod lleol ynteu ar lefel genedlaethol?
 - Holwch a ydynt yn ymwneud â dylunio, datblygu, a/neu weithredu'r ddarpariaeth ôl-16.

Gair am y cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni ôl-16 cyfredol

Sylwer: Ni fydd y drafodaeth hon wedi'i strwythuro'n gaeth. Y nodau allweddol yw canfod:

- ystyriaethau yn ymwneud â'r cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni cyfredol
- y rhwystrau, yr heriau a'r cyflawniadau presennol

Dywedwch wrthyf am addysg ôl-16 yng Nghymru – effeithiolrwydd a chwmpas.

HOLWCH OS OES ANGEN, ynglŷn â:

- Phobl ifanc?
- Rhoi dewis i ddysgwyr?
- Sicrhau'r cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni ôl-16 gorau posibl?

Pa mor effeithiol ydych chi'n meddwl yw'r arlwy cwrwclwm drwyddo draw yn bodloni anghenion pobl ifanc ac anghenion y farchnad lafur i'r dyfodol?

HOLWCH, o safbwynt:

- Pobl ifanc?
- Rhoi dewis i ddysgwyr?
- Cynyddu a gwella cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni ôl-16?
- Bodloni anghenion sgiliau a dysgu i'r dyfodol?

I ba raddau y mae ysgolion, darparwyr hyfforddiant a cholegau AB yn gweithio â'i gilydd i ddarparu a chyflenwi arlwy ôl-16 sy'n cydgordio? A ydych chi'n meddwl bod angen y Comisiwn Addysg Drydyddol y bwriedir ei sefydlu yn 2023?

HOLWCH o ran;

- Y rhwystrau rhag cydweithio
- Beth sy'n gweithio orau ymhle, pam a sut?

Sut gallent weithio'n agosach gyda'i gilydd

I ba raddau y mae gweithwyr ifanc/eu cyflogwyr yn cael eu helpu i gael a chyfranogi mewn cyfleoedd dysgu ôl-16?

Beth ydych chi'n teimlo yw'r prif gryfderau a'r gwendidau yn y trefniadau ôl-16 presennol?

HOLWCH YNGLŶN Â (os oes angen):

- Dewis i ddysgwyr
- Yr amrediad a'r mynediad i'r ddarpariaeth
- Ansawdd a chanlyniadau
- Gwerth am arian a chost-effeithiolrwydd
- Y gallu i fodloni anghenion lleol, y gymuned a busnesau

Newid posibl a'i weithredu

Beth yw eich barn am wneud newidiadau yng Nghymru i wella cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni ôl-16?

HOLWCH YNGLŶN Â (os oes angen):

- Angen
- Capasiti
- Lle i wella a newid
- Perthnasoedd rhwng gwahanol randdeiliaid
- Trefniadau ariannu

I ba raddau y mae gorfodaeth h.y. codi'r oed cyfranogi yn gyfreithiol yn angenrheidiol i gael y cyfraddau dysgu ôl-16 gorau?

Beth yn eich barn chi yw'r problemau mwyaf ynglŷn â dylunio a gweithredu'r bwriad i godi'r oed cyfranogi?

HOLWCH YNGLŶN Â (os oes angen):

- Ysgol oedran – 17 ynteu 18 Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13?

- Gofynion o ran seilwaith – llywodraethu a'r ddarpariaeth
- Gorfodaeth - pobl ifanc neu/a rhieni/gofalwyr
- Cystadleuaeth rhwng darparwyr
- Anfanteision rhai llwybrau ôl-16
- Amserlen sy'n angenrheidiol i weithredu'r newid
- Deilliannau disgwyledig
- Costau, gwerth am arian a chost-efeithiolrwydd
- Y gallu i fodloni anghenion lleol, y gymuned a busnesau
- Cynaliadwyedd

Ym mha ffordd/ffyrdd y gellir gwella cyfraddau cyfranogi, cadw a chyflawni mewn dysgu ôl-16 heb ofyn/gorfodaeth gyfreithiol?

HOLWCH YNGLŶN Â (os oes angen):

- Mwy o ymyrraeth gynnar i atal pobl ifanc rhag rhoi'r gorau iddi – rhaglenni ymyrraeth gynnar NEET/ cynlluniau ar gyfer grwpiau 'uchel eu risg', mwy o gymorth i bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur
- Gwella'r dewis, y math, y lleoliad a chwmpas yr opsiynau sydd ar agor i ddysgwyr ôl-16
- Gwella'r cyllid sydd ar gael i ddarparwyr ôl-16
- Diwygio'r systemau tracio i wella'r cymorth pontio ar gyfer pobl ifanc/rhieni
- Annog darparwyr ôl-16 i gydweithio mwy h.y. lleihau'r gystadleuaeth
- Annog mwy o waith partneriaeth rhwng cyflogwyr a darparwyr dysgu ôl-16
- Ffrwyno a manteisio ar gysylltiadau cydweithredol a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes
- Ffrwyno a manteisio ar gynlluniau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes

Beth yw'r prif rwystrau sy'n wynebu pobl ifanc?

HOLWCH YNGLŶN Â (os oes angen):

- Cymhelliant
- Mynediad
- Y gwerth a roddir wrth yr amrediad a'r math o ddarpariaeth sydd ar gael
- Cyllid

- Arweiniad a chymorth

Beth (os o gwbl) yw'r rhwystrau rhag newid y ddarpariaeth a gynigir?

HOLWCH YNGLŶN Â (os oes angen):

- Y cyllid a'r seilwaith sy'n angenrheidiol
- Amserlenni
- Effaith ffactorau trefol a gwledig ar y ddarpariaeth a mynediad dysgwyr
- Yr effaith ar gymunedau lleol
- Problemau trafndiaeth

Sut ydych chi'n meddwl y gellir goresgyn y rhwystrau hyn (os o gwbl)?

HOLWCH YNGLŶN Â (os oes angen):

- Dileu anghymellion/anghysondebau cyllid mewn addysg a hyfforddiant ôl-16
- Creu canolfannau rhagoriaeth ar draws addysg academiaidd a galwedigaethol o fewn a rhwng lleoliadau
- Lleihau dyblygu'r ddarpariaeth/dosbarthiadau bach
- Lleihau trefniadau trafndiaeth ac amserlennu cymhleth
- Annog mwy o gydweithio rhwng darparwyr ôl-16
- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr ôl-16 a'r farchnad lafur

Sut gellir gwneud newidiadau a chynnal ymrwymiad i rôl y Gymraeg mewn addysg a dysgu ar yr un pryd?

HOLWCH YNGLŶN Â (os oes angen):

- Ymateb i ofynion a gwahaniaethau lleol a rhanbarthol
- Cadw/ymestyn yr holl ddosbarthiadau chweched cyfrwng Cymraeg
- Sicrhau cwmpas eang mewn dysgu galwedigaethol
- Gwella'r ymrwymiad ariannu

Yn olaf:

A oes unrhyw agweddau penodol nad ydym wedi rhoi sylw iddynt yn y cyfweiliad ac yr hoffech eu trafod?

Diolchwch i'r cyfranogwr am ei amser.

Atodlen 3: Hyd addysg/hyfforddiant gorfodol yn Ewrop (2020/21)

Gwlad	Oed dechrau	Oed gadael	Hyd (blynnyddoedd)
Albania	6	15	9
Awstria	5	15	10
Gwlad Belg	5	18	13
Bosnia a Herzegovina	6	15	9
Bwlgaria	5	16	11
Croatia	7	15	8
Cyprus	5	15	10
Gweriniaeth Czech	5	15	10
Denmarc	6	16	10
Estonia	7	16	9
Y Ffindir	6	16	10
Ffrainc	3	(18)	(15)
Yr Almaen (12 Länder)	6	18	12
Yr Almaen (4 Länder)	6	19	13
Groeg	4	15	11
Hwngari	3	16	13
Gwlad yr Iâ	6	16	10
Iwerddon	6	16	10
Yr Eidal	6	16	10
Latfia	5	16	11
Liechtenstein	6	15	9

Lithuania	6	16	10
Luxembourg	4	16	12
Malta	5	16	11
Montenegro	6	15	9
Yr Iseldiroedd	5	16	11
Gogledd Macedonia	5 mlwydd 7 mis	17 neu 19 mlwydd 6 mis	11 - 13
Norwy	6	16	10
Gwlad Pŵyl	6	15	9
Portiwgal	6	18	12
Romania	6	17	11
Serbia	5 mlwydd 6 mis	14 mlwydd 6 mis	9
Slofenia	6	15	9
Slovakia	6	16	10
Sbaen	6	16	10
Sweden	6	16	10
Y Swisdir	4	15	11
Twrci	5 mlwydd 9 mis	17 mlwydd 6 mis	12
DU - Lloegr	5	18	11
DU - Cymru	5	16	11
DU - Gogledd Iwerddon	4	16	12
DU – yr Alban	5	16	11

Ffynhonnell: Addaswyd o adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd (2020) *Compulsory Education in Europe 2020/202: Eurydice – Facts and Figures* tudalen 4.

Atodlen 4: Oed gadael ysgol ac oed cyflogaeth (OECD/EU)

Gwlad	Oed gadael ysgol	Oed cyfl.	Nodiadau
Albania	15	15	
Awstralia	15-17	15	Mae'r oed gadael ysgol yn amrywio o dalaith i dalaith – 17 yw gan amlaf
Awstria	15	15	
Gwlad Belg	18	18	Mae addysg amser llawn yn orfodol tan 15 oed, gydag o leiaf addysg ran amser o 16 i 18.
Bosnia/Herzegovina	15		
Brasil	17	17	Yn 15 ac 16 oed, caiff pobl ifanc ddechrau prentisiaeth
Bwlgaria	16	16	
Canada	18	14	
Chile	18	17	
Tsieina	15	16	
Croatia	15		
Cyprus	15	15	
Gweriniaeth Czech	15	15	
Denmarc	16	13	
Estonia	15/16	18	
Y Ffindir	14/16	14	Mae'r oed gorffen ysgol yn amrywio yn ddibynnol ar yr oed dechrau.
Ffrainc	16/18	16	16 yw'r oed gadael ieuengaf statudol ond caiff rhai adael yn 15 os cawsant gynnig gwaith neu brentisiaeth. Er mis Medi 2020, mae hyfforddiant wedi dod yn orfodol i fyfyrwyr rhwng 16 a 18 oed.
Yr Almaen	18	15	Rhwng 15 a 18, rhaid i rai sy'n gadael yr ysgol dderbyn o leiaf addysg uwchradd ran amser.
Groeg	16	16	
Hwngari	16	16	
Gwlad yr Iâ	15/16	15	

India	14	18	
Indonesia	15 neu 18	14	Mae'r oed gadael yn amrywio rhwng rhanbarthau, er mai 15 yw gan amlaf
Iwerddon	16	15	
Israel	18	14	
Yr Eidal	16	16	
Japan	15	15	
Korea	15	15	
Latfia	16	15	
Liechtenstein	15	15	
Lithuania	16	16	
Luxembourg	16	16	
Malta	16	16	
Mecsico	15	14	
Montenegro	15	15	
Yr Iseldiroedd	18	16	
Gogledd Macedonia	17/19	17	Mae'r oed gadael yn amrywio'n ôl y math o raglen a ddilynnir.
Seland Newydd	16	16	Caiff pobl ifanc 15 oed adael i fynd i waith gyda chaniatâd y Weinyddiaeth Addysg
Norwy	16	15	
Gwlad Pŵyl	15/16	15	Cewch adael yr ysgol yn 15 neu'n 16 ond rhaid parhau ag addysg hyd at 18 oed.
Portiwgal	16	16	
Romania	17	16	
Rwsia	15	14	
Serbia	15	15	
Slovakia	16	14	
Slofenia	15	15	
De Affrica	15	15	
Sbaen	16	16	
Sweden	16	16	

Y Swisdir	15	15	
Twrci	14	17	
DU - Lloegr	18	16	
DU - Cymru	16	16	
DU - Gogledd Iwerddon	16	16	
DU – yr Alban	16	16	
Unol Daleithiau	16 neu 17	14	Mae'r oed gadael ysgol yn amrywio o dalaith i dalaith

Ffynonellau: Addaswyd o a) Comisiwn Ewropeaidd (2020) *Compulsory Education in Europe 2020/202: Eurydice – Facts and Figures* tudalen 4, a b) prosiect Right to Education, <http://www.right-to-education.org/node/279>, a Safonau Llafur Rhyngwladol ar Lafur Plant gan yr ILO, <http://www.ilo.org/global/standards/subjects-covered-by-international-labour-standards/child-labour>. Cyrchwyd o wefan OECD 13eg Ionawr 2021: Tabl PF 1.8D 'School Leaving age and Employment Age 2013'²⁰

²⁰ Mae'r ffigurau OECD yn cyfeirio at ddata 2013, ac fe allai gwledydd/taleithiau unigol fod wedi newid y rhain

Atodlen 5: Agweddau ar lwybrau hyblyg ac ar godi'r oed gadael ysgol gofynnol

Detholwyd o: **OECD (2012). *Equity and Quality in Education: Supporting Disadvantaged Students and Schools*. Tabl 2.5. Approaches to flexible pathways and on raising minimum school-leaving age: Tudalen 88.** Paris: OECD Publishing. Adalwyd o: <https://www.oecd.org/education/school/50293148.pdf>

Gwlad	Agwedd
Ffrainc	Yn 2009 cafodd rhaglenni VET eu gwtogi o 4 i 3 blynedd er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr a oedd yn ennill diploma proffesiynol (baccalauréat professionnel). Fel rhan o'r diwygio hwn, cafodd peirianweithiau cymorth ac arweiniad i fyfyrwyr eu cryfhau a gwnaed newidiadau yn y cwricwlwm gan gynnwys cyfnodau o hyfforddiant mewn amgylcheddau gwaith go iawn (Moisan, 2011).
Iwerddon	Mae'r rhaglen sy'n cael arian cyhoeddus Youthreach yn cynnig addysg gyffredinol, hyfforddiant galwedigaethol a phrofiad gwaith i bobl ifanc ddi-waith 15-20 oed a adawodd yr ysgol yn gynnar. Mae sgiliau sylfaenol a hyfforddiant gwaith ymarferol, addysg gyffredinol a defnyddio technoleg newydd yn rhan o'r rhaglen. Mae gan ddysgwyr Youthreach hawl i gael lwfansau hyfforddiant ac mae lwfansau ychwanegol ar gyfer prydau, teithio a llety ar gael hefyd.
Manitoba (Canada)	Ym mis Medi 2011, fe wnaeth Manitoba godi'r oed ysgol gorfodol o 16 i 18, a galluogi myfyrwyr 15 oed neu hŷn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rhaglenni, gan gynnwys hyfforddiant gwaith, sy'n darparu manteision addysgol y tu allan i gyrsiau ysgol arferol.
Yr Iseldiroedd	Rhaid i bob person ifanc hyd at 18 oed fynychu'r ysgol nes iddynt ennill cymhwyster sylfaenol. Caiff polisi cadarn ei weithredu ar driwantiaeth ac absenoldeb. Mae'r Weinyddiaeth wedi llofnodi cytundebau perfformiad ar adael yn gynnar gyda bwrdeistrefi ac

ysgolion mewn 39 o ranbarthau (2008-2011). Archwiliwyd opsiynau fel cyfuno gwaith ac astudiaeth i ymateb i adawyr cynnar dros 18.

Norwy	Mae'r Cynllun Tystysgrif Ymarfer yn rhoi i fyfyrwyr sydd mewn perygl o adael y posibilrwydd o ddewis rhaglen uwchradd uwch ddwy flynedd (yn yr ysgol ac ymarferol) sy'n arwain at radd lefel is a gydnabyddir gan y diwydiant, yn hytrach na'r rhaglen uwchradd uwch VET bedair blynedd lawn. Ar ôl cwblhau, gallant gwblhau eu gradd uwchradd uwch lawn gan ychwanegu'r ddwy flynedd sydd ar ôl. O'r peilot, mae'n ymddangos bod cyfraddau gadael yn isel iawn a bod 65% o fyfyrwyr yn parhau â'u haddysg.
Sbaen	Cyflwynwyd Rhaglenni Cymwysterau Galwedigaethol Cychwynnol (PCPI) yn 2009 gyda'r nod o roi mwy o hyblygrwydd i gwblhau addysg uwchradd is. Maent yn targedu myfyrwyr 16 oed a drosodd nad oes ganddynt dystysgrif uwchradd is, a myfyrwyr 15 oed ar amodau penodol. Mae rhaglenni cymwysterau galwedigaethol cychwynnol yn cynnwys modiwlau penodol sy'n caniatáu i fyfyrwyr gael hyfforddiant mewn maes proffesiynol penodol; modiwlau cyffredinol i ddatblygu cymwyseddau sylfaenol ac i'w helpu i bontio o'r system addysg i'r farchnad lafur; a modiwlau sy'n arwain at y Dystysgrif mewn Addysg Uwchradd Orfodol.

Ffynonellau:

- OECD. (2010). *Off to a Good Start? Jobs for Youth*. OECD, Paris.
- Moisan, C. (2011). *Comment en finir avec l'échec scolaire: les mesures efficaces, projet de rapport national de base de la France*. Adalwyd o: www.oecd.org/edu/equity
- Gweinyddiaeth Addysg a Sgiliau Iwerddon. (cyhoeddir maes o law). *Overcoming School Failure: Policies that Work, National Report Ireland*. Adalwyd o: www.oecd.org/edu/equity
- Fournier, G., a Mildon, D. (cyhoeddir maes o law). *OECD Country Background Report: Overcoming School Failure (Equity) In Canada*. Cyngor Gweinidogion Addysg, Canada. Adalwyd o: www.oecd.org/edu/equity
- Akkerman, Y., et al. (2011). *Overcoming School Failure: Policies that Work, Background Report for the Netherlands*. Gweinyddiaeth Addysg, Diwylliant a Gwyddoniaeth, Den Haag. Adalwyd o: www.oecd.org/edu/equity;
- Markussen, E., et al. (2008). *Completion, drop-out and attainment of qualification in upper secondary vocational education in Norway*, yn H. Høst (ed.), *Continuity and Change in Norwegian Vocational Education and Training (VET)*. Sefydliad Astudiaethau mewn Arloesedd, Ymchwil ac Addysg Norwy (NIFU STEP) Oslo, tt. 31-53.
- IFIIE (Sefydliad Hyfforddiant Athrawon ac Ymchwil ac Arloesedd Addysgol). (2011). *Overcoming School Failure: Policies that Work, Spanish National Report*. Gweinyddiaeth Addysg, Sbaen. Adalwyd o: www.oecd.org/edu/equity

Manylion yr Awdur

Mae **Sue Maguire** yn Athro Anrhydeddus yn y Sefydliad Ymchwil Polisiâu (IPR), Prifysgol Caerfaddon, yn Gymrawd Cyswllt yng Nghanolfan Sgiliau, Gwybodaeth a Pherfformiad Sefydliadol (SKOPE) Prifysgol Rhydychen ac yn Gymrawd Ymweld yn y Ganolfan Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd (CASE) yng Nghwlad Pŵyl.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Manon Roberts

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

manon.roberts@wcpp.org.uk

OGL This report is licensed under the terms of the Open Government License